Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Bil Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru)

## Memorandwm Esboniadol

yn ymgorffori'r
Asesiad Effaith Rheoleiddiol
a'r Nodiadau Esboniadol

Chwefror 2015

# Bil Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru)

## Memorandwm Esboniadol Bil Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru)

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Adran Llywodraeth Leol a Chymunedau yn Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir ger bron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

### Datganiad yr Aelod

Yn fy marn i byddai darpariaethau Bil Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru), sef Bil Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) gynt, a gyflwynwyd gan y cyn Weinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth ar 30 Mehefin o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Leighton Andrews AC**

Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus
Yr Aelod o'r Cynulliad sy'n gyfrifol am y Bil

Chwefror 2015

# Tudalen Gynnwys

**RHAN 1**

1. Disgrifiad
2. Y Cefndir Deddfwriaethol
3. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael
4. Ymgynghori
5. Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth
6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

**RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH**

7. Yr Opsiynau
8. Costau a manteision
9. Adolygu ar ôl gweithredu

**RHAN 3 – DOLEN AT ASESIADAU EFFAITH**

**ATODIAD 1 – Nodiadau Esboniadol**

**ATODIAD 2 – Crynodeb o Gostau'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol**

**ATODIAD 3 - Crynodeb o'r 'Gweithwyr Proffesiynol Perthnasol' fel y'u Hamlygir yng Nghostau'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Canllawiau Gofyn a Gweithredu**

# RHAN 1

## 1. Disgrifiad

1. Bwriedir i ddarpariaethau Bil Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) sicrhau canolbwynt ar draws y sector cyhoeddus ar atal y materion hyn, diogelu dioddefwyr a rhoi cymorth i'r rhai y mae'r materion hyn yn effeithio arnynt.

2. Mae'r Bil yn gosod dyletswyddau ar Weinidogion Cymru, Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol ("Awdurdodau Lleol") a Byrddau Iechyd Lleol i baratoi a chyhoeddi strategaethau a anelir at roi terfyn ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae'r Bil ymhellach yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau i awdurdodau perthnasol[1] ar sut y dylent arfer eu swyddogaethau er mwyn cyfrannu at roi terfyn ar drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae'r Bil hefyd yn cynnwys darpariaeth i ganiatáu i Weinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol, drwy reoliadau, gyhoeddi gwybodaeth ynghylch sut mae swyddogaethau addysg yr Awdurdod Lleol yn cael eu harfer i hyrwyddo dibenion y Bil. Ar ben hyn, mae darpariaeth yn y Bil ar gyfer penodi Cynghorydd Gweinidogol.

[1] Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol ac Awdurdodau Tân ac Achub.

## 2. Y cefndir deddfwriaethol

3. Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (“y Cynulliad") y cymhwysedd deddfwriaethol i wneud darpariaeth ym Mil Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) yn rhinwedd Rhan 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (“GoWA 2006”). Nodir darpariaethau perthnasol Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn adran 108 ac Atodlen 7.

4. Mae paragraffau 5, 9, 12, 15 o Ran 1 o Atodlen 7 yn nodi’r pynciau perthnasol sy'n rhoi cymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad i wneud y darpariaethau a nodir yn y Bil hwn. Atgynhyrchir y paragraffau perthnasol isod. Nid yw ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o ddeddfwriaeth nad yw wedi ei gwneud yn Gymraeg ydyw.

**5 Education and training**

Education, vocational, social and physical training and the careers service.

Promotion of advancement and application of knowledge.

*Exception* —

Research Councils.

**9 Health and health services**

Promotion of health. Prevention, treatment and alleviation of disease, illness, injury, disability and mental disorder. Control of disease. Family planning. Provision of health services, including medical, dental, ophthalmic, pharmaceutical and ancillary services and facilities. Clinical governance and standards of health care. Organisation and funding of national health service.

*Exceptions*—

Abortion.

Human genetics, human fertilisation, human embryology, surrogacy arrangements.

Xenotransplantation.

Regulation of health professionals (including persons dispensing hearing aids).

Poisons.

Misuse of and dealing in drugs.

Human medicines and medicinal products, including authorisations for use and regulation of prices.

Standards for, and testing of, biological substances (that is, substances the purity or potency of which cannot be adequately tested by chemical means).

Vaccine damage payments.

Welfare foods.

Health and Safety Executive and Employment Medical Advisory Service and provision made by health and safety regulations.

**12 Local government**

Constitution, structure and areas of local authorities. Electoral arrangements for local authorities. Powers and duties of local authorities and their members and officers. Local government finance.

"Local authorities" does not include police authorities.

*Exceptions—*

Local government franchise.

Electoral registration and administration.

Registration of births, marriages, civil partnerships and deaths.

Licensing of sale and supply of alcohol, provision of entertainment and late night refreshment.

Anti-social behaviour orders.

Local land charges, apart from fees.

Sunday trading.

Provision of advice and assistance overseas by local authorities in connection with carrying on there of local government activities.

**15 Social welfare**

Social welfare including social services. Protection and well-being of children (including adoption and fostering) and of young adults. Care of children, young adults, vulnerable persons and older persons, including care standards. Badges for display on motor vehicles used by disabled persons.

*Exceptions*—

Child support

Child trust funds, apart from subscriptions to such funds by—

(a) a county council or county borough council in Wales, or

(b) the Welsh Ministers.

Tax credits.

Child benefit and guardian's allowance.

Social security.

Independent Living Funds.

Motability.

Intercountry adoption, apart from adoption agencies and their functions, and functions of "the Central Authority" under the Hague Convention on Protection of Children and Co-operation in respect of Intercountry Adoption.

The Children's Commissioner (established under the Children Act 2004 (c. 31)).

Family law and proceedings, apart from—

(a) welfare advice to courts, representation and provision of information, advice and other support to children ordinarily resident in Wales and their families, and

(b) Welsh family proceedings officers.

5. Nid oes unrhyw rai o ddarpariaethau'r Bil yn dod o dan unrhyw rai o'r eithriadau a bennir yn Rhan 1 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, nac yn gymwys heblaw mewn perthynas â Chymru neu'n rhoi, yn gorfodi, yn addasu neu'n dileu (neu'n rhoi pŵer i roi, gorfodi, addasu neu ddileu) swyddogaethau sy'n arferadwy heblaw mewn perthynas â Chymru, neu'n torri unrhyw gyfyngiadau yn Rhan 2 o Atodlen 7, gan roi sylw i unrhyw eithriad yn Rhan 3 o'r Atodlen honno rhag y cyfyngiadau hynny.

## 3. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

6. Diben cyffredin y Bil yw gwella ymateb y sector cyhoeddus yng Nghymru i drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Bwriedir iddo roi canolbwynt strategol ar y materion hyn a sicrhau bod ystyriaeth gyson yn cael ei rhoi i fecanweithiau atal, amddiffyn a chefnogi wrth ddarparu gwasanaethau.

7. Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod mai menywod sy'n dioddef waethaf oherwydd pob math o drais personol a bod hyn yn wir yng Nghymru, yn gyson â gweddill y byd. Er mwyn cydnabod hyn, mae darpariaeth yn y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i bersonau sy'n arfer swyddogaethau perthnasol o dan y Bil ystyried, ynghyd â materion eraill, yr angen i ddileu neu leihau ffactorau sy'n cynyddu risg, neu'n gwaethygu effaith, trais yn erbyn menywod a merched. Er mai menywod sy'n dioddef waethaf ac amlaf oherwydd trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, mae'r Bil yn cydnabod y gall trais a cham-drin o'r fath effeithio ar unrhyw un. Gall dioddefwyr ddod o bob rhan o gymdeithas, gan gynnwys pobl hŷn, pob ethnigrwydd, crefydd a chredo, pobl anabl a phobl o'r gymuned Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol.

**Gwella ymateb cyrff cyhoeddus**

**Y Mater**

8. Er bod llawer wedi cael ei wneud yng Nghymru i fynd i'r afael â materion trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, mae'r materion yn dal i fodoli.

9. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn cyhoeddi ffigurau blynyddol am droseddu treisgar a throseddau rhywiol yn seiliedig ar Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr (CSEW) (nid oes ffigurau ar gael am Gymru yn benodol). Mae modiwl hunan-gwblhau 2012/13 CSEW ar drais personol a gynhaliwyd ymhlith oedolion 16 i 59 oed, yn ymdrin â cham-drin emosiynol, ariannol a chorfforol gan bartneriaid neu aelodau teuluol, yn ogystal ag ymosodiadau rhywiol a stelcio gan unrhyw berson. Canfu fel a ganlyn:

   a. Rhoes 7.1% o fenywod a 4.4% o ddynion yng Nghymru a Lloegr wybod eu bod wedi bod yn destun rhyw fath o gam-drin domestig yn y flwyddyn ddiwethaf, sy'n cyfateb i amcangyfrif o 1.2 miliwn o fenywod a 700,000 o wrywod a fu'n destun cam-drin domestig;

   b. At ei gilydd, roedd 30% o fenywod a 16.3% o ddynion yng Nghymru a Lloegr wedi bod yn destun rhyw fath o gam-drin domestig ers 16 oed, sy'n cyfateb i amcangyfrif o 4.9 miliwn o fenywod a 2.7 miliwn o wrywod a fu'n destun cam-drin domestig.

   c. Cafwyd gostyngiad sylweddol ym mhob math o gam-drin domestig (gan bartner neu gan aelod o'r teulu, cam-drin nad yw'n gorfforol, bygythiadau,

grym, ymosodiadau rhywiol a stelcio) rhwng 2004/05 a 2012/13. Er hynny, mae'r ffigur yn parhau yn 5.7% i oedolion 16 i 59 oed;

d. Mae mwy o fenywod na dynion wedi bod yn destun trais personol ar draws yr holl brif fathau o gam-drin y gofynnwyd amdanynt, a oedd yn cynnwys pob math o gam-drin domestig, ymosodiadau rhywiol a stelcio, ers 16 oed.

e. Yn y flwyddyn ddiwethaf, cam-drin (nad yw'n rhywiol) gan bartner a stelcio oedd y mwyaf cyffredin o'r gwahanol fathau o drais personol: rhoes 4% o fenywod a 2.8% o ddynion wybod eu bod wedi bod yn destun cam-drin (nad yw'n rhywiol) gan bartner; rhoes 4.1% o fenywod a 1.9% o ddynion wybod eu bod wedi cael eu stelcio;

f. Roedd 2% o fenywod a 0.5 % o ddynion wedi bod yn destun rhyw fath o ymosodiad rhywiol (gan gynnwys ymgais at hynny) yn y flwyddyn ddiwethaf; a

g. Roedd 2.2% o fenywod a 1.5% o ddynion yn destun cam-drin teuluol (nad yw'n rhywiol) yn y flwyddyn ddiwethaf.

10. Mewn adroddiad i Lywodraeth Cymru, a gomisiynwyd i lywio datblygu polisi'r Bil, cafodd Robinson et al[2] afael ar ddata diweddaraf Arolwg Troseddu Prydain[3] (2011/12), wedi'i ddadagregu ar gyfer Cymru. Yn ôl y data hwn, bu menywod yng Nghymru'n destun dwywaith lefelau 'unrhyw gam-drin domestig' (11.1% o'i gymharu â 5.1% yn achos dynion) tra oedd cyfraddau 'unrhyw ymosodiad rhywiol' hefyd yn uwch yn achos menywod (3.2%) nag yn achos dynion(0.7%). Yn ôl y data hwn hefyd dangosir bod mwy o fenywod na dynion wedi rhoi gwybod am gael eu stelcio (7.8% o'i gymharu â 3.5%).

11. Mae dwy fenyw yr wythnos yn cael eu lladd gan bartner neu gyn bartner, ac mae traean o'r rheini sydd wedi dioddef cam-drin domestig wedi ystyried hunanladdiad.[4] Mae data Erlyn y Goron ar gyfer 2012-2013[5] yn nodi y bu 5,290 o achosion o drais domestig yng Nghymru. Cafwyd collfarn mewn 4,179 (79%) o'r rhain. Mae'r canran collfarn wedi cynyddu o 75% yn 2011-12. Mae Cynadleddau Amlasiantaeth Asesu Risg yn ymdrin â'r achosion risg uchaf i fyny o 5,074 i 5,585 yn 2013, gyda 6,715 o blant yn gysylltiedig â'r achosion hyn. O'r rhain, roedd 1,340 yn achosion ailadroddus[6].

12. Daw 1% o'r achosion y mae'r Uned Priodasau dan Orfod yn ymdrin â nhw o Gymru[7]. Mae amcangyfrifon Foundation for Women's Health Research and

[2] Robinson et al., Bil arfaethedig Llywodraeth Cymru sef 'Bil Rhoi Terfyn ar Drais yn Erbyn Menywod a Cham-drin Domestig (Cymru): Argymhellion Grŵp Gorchwyl a Gorffen 2012.
[3] Mae Arolwg Troseddu Prydain bellach yn Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr (CSEW).
[4] Y Swyddfa Gartref a CAADA (2012) A Place of Greater Safety
[5] Chweched adroddiad blynyddol Trais yn erbyn Menywod a Merched Gwasanaeth Erlyn y Goron.
[6] Y Swyddfa Gartref a CAADA (2013)
[7] Rhwng mis mis Ionawr a mis Rhagfyr 2011, ymdriniodd yr uned â 1,468 o achosion.

Development (FORWARD) yn dangos bod 66,000 o fenywod yn byw yng Nghymru a Lloegr wedi dioddef anffurfio organau cenhedlu benywod (FGM)[8].

13. Er bod yr achosion hyn yn bryderus o uchel, mae'n hysbys nad oes digon o'r rheini sy'n dioddef trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn adrodd yr achosion, felly rhaid trin pob ffigur fel amcangyfrif rhy isel.

14. Mae amcangyfrifon a seilir ar boblogaeth sy'n cael eu cymhwyso i adroddiad Sylvia Walby 2009[9] ar gostau cam-drin domestig yn awgrymu mai £303.5m yw cost cam-drin domestig i Gymru bob blwyddyn – £202.6m mewn costau gwasanaethau a £100.9m i allbwn economaidd sy'n cael ei golli. Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys unrhyw elfen o gostau dynol ac emosiynol, sydd yn ôl yr ymchwil yn costio amcangyfrif o £522.9m ychwanegol i Gymru. Wrth gyfrifo'r costau dynol ac emosiynol, dilynodd Walby fethodoleg astudiaeth gan y Swyddfa Gartref sy'n edrych ar gostau trosedd[10] a ddefnyddiodd amcangyfrifon yn seiliedig ar arolwg o 'fodlonrwydd i dalu' (WTP) yn achos y cyhoedd i leihau'r risg o brofi'r trallod a'r dioddef a gysylltir â throseddau sy'n amrywio yn ôl eu difrifoldeb. Mae'r amcangyfrifon WTP yn cael eu lluosi gyda nifer y troseddau er mwyn cynhyrchu'r ffigur agregedig. Mae cyfuno'r costau ariannol ac emosiynol yn rhoi cyfanswm o £826.4m. Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys dulliau eraill o drais ar sail rhywedd a thrais rhywiol sydd hefyd yn arwain at gostau dynol, emosiynol ac ariannol sylweddol i gymdeithas. Ar sail costau sylweddol cam-drin domestig i'r economi mae Walby'n dadlau bod y buddsoddi ychwanegol mewn gwasanaethau cyhoeddus[11] i leihau trais domestig yn gost-effeithiol.

**Y Cefndir o ran Polisi**

15. Mae mynd i'r afael â thrais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn fater cymhleth. Mae gwahanol sefydliadau yn y sector cyhoeddus yn ymwneud â'r mater ond nid oes gan unrhyw gorff penodol yng Nghymru gyfrifoldeb dros arwain ar y mater. Mae'r mater yn cael ei gymhlethu ymhellach gan y setliad datganoli presennol. O dan y setliad hwn mae gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb dros rai, ond ddim dros bob un, o feysydd y Llywodraeth sy'n ymwneud â thrais a cham-drin mewn cymunedau yng Nghymru.

16. Dangosodd tystiolaeth yn Adroddiad Llywodraeth Cymru sef 10,000 o Fywydau Diogelach[12] mor bwysig yw cyfeiriad strategol ac arweinyddiaeth wrth fynd i'r afael â'r materion hyn. Yn ôl yr Adroddiad, lle'r oedd cam-drin domestig yn fater

[8] Foundation for Women's Health Research and Development – FORWARD (Mai 2013) drwy Fwletin Ystadegol Cymorth i Ferched

[9] Walby, S*., The Cost of Domestic Violence: Update 2009.*

[10] Brand, S. and Price, R., The Economic and Social Costs of Crime, Home Office Research Study 217, 2000.

[11] Gwasanaethau a ddarperir er budd y cyhoedd yw gwasanaethau cyhoeddus. Gall hyn gynnwys gwasanaethau a ddarperir trwy'r trydydd sector, trwy fenter gymdeithasol neu drwy wasanaethau sy'n cael eu contractio allan. Nid oes diffiniad clir a chytûn o beth yn union yw'r sector cyhoeddus yng Nghymru, neu ba gyrff a gynhwysir ynddo.

[12] *Prosiect 10,000 o Fywydau Diogelach – Gwella'r ffordd y mae gwasanaethau cyhoeddus yn atal cam-drin domestig, Llywodraeth Cymru, Ebrill 2012.*

strategol i'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol roedd wedi arwain at newidiadau effeithiol ar draws gwasanaethau'r sector cyhoeddus.

17. Adolygodd prosiect 10,000 o Fywydau Diogelwch yr hyn sy'n rhwystro gwasanaeth da rhag cael ei ddarparu i ddioddefwyr cam-drin (risg canolig a safonol[13]) yng Nghymru. Canfu'r adolygiad fod y dull o rannu gwybodaeth am ddioddefwyr cam-drin domestig risg canolig a safonol yn anghyson ledled Cymru. Nodwyd bod hyfforddiant amlasiantaeth yn arf allweddol o ran gwella gwasanaethau i ddioddefwyr cam-drin domestig risg canolig a safonol, ac unwaith eto canfu fod y ddarpariaeth yn amrywio ledled Cymru.

18. Mae dulliau llwyddiannus o fynd i'r afael â thrais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn gysylltiedig ag ymatebion amlasiantaeth, gan sicrhau bod gwasanaethau ac arbenigedd asiantaethau partner yn rhan annatod o ddatblygu strategaethau lleol effeithiol. Mae astudiaethau gwerthuso o Gynadleddau Amlasiantaeth Asesu Risg (MARACs), a gafodd eu treialu gyntaf yng Nghaerdydd yn 2003, yn nodi bod MARAC (lle mae asiantaethau statudol a rhai'r trydydd sector yn rhannu gwybodaeth am ddioddefwyr cam-drin risg uchel er mwyn cynhyrchu cynllun gweithredu cydgysylltiedig i gynyddu diogelwch dioddefwyr) wedi arwain at welliannau sylweddol yn niogelwch dioddefwyr a'u plant ac yn hybu safonau gwell o ran arfer proffesiynol[14].

19. Er mwyn tynnu'r gwahanol ddulliau hyn ynghyd mae angen arweinyddiaeth a chyfeiriad strategol. Ym Mhrosiect 10,000 o Fywydau Diogelach ac adroddiad Robinson cydnabuwyd bod bwlch arweinyddiaeth mewn perthynas â cham-drin domestig a materion ehangach o ran trais yn erbyn menywod (sef y math mwyaf cyffredin o drais ar sail rhywedd) a thrais rhywiol yng Nghymru. Fel y casglodd Robinson et al:

*"Mae dirfawr angen arweinyddiaeth oherwydd mae tystiolaeth o arfer da ond nid oes unrhyw un ar lefel uwch i gymryd cyfrifoldeb am sefydlu hyn ledled Cymru. Mae arweinyddiaeth yn hanfodol i droi polisïau a strategaethau yn fathau o wasanaethau a fydd yn gwneud gwahaniaeth ar lawr gwlad, drwy gynllunio effeithiol, cefnogi gweithwyr proffesiynol rheng flaen a sicrhau bod digon o adnoddau ganddynt. Mae angen arweinyddiaeth oherwydd mae llawer o'r materion yn rhai sensitif, annymunol na chânt eu dwyn i sylw gweithwyr proffesiynol rheng flaen na'r rhan fwyaf o ddinasyddion. I gloi, mae angen arweinyddiaeth oherwydd rhaid i ymrwymiad Llywodraeth Cymru yn y maes hwn, fel y nododd y fenter ddeddfwriaethol hon, arwain at raglen newid effeithiol a chynaliadwy."*

## Y newidiadau y mae eu hangen i'r trefniadau presennol

20. Er mwyn sicrhau canolbwynt strategol a gwell ymateb i fynd i'r afael â materion cam-drin yn erbyn menywod (sef y math mwyaf cyffredin o drais ar sail rhywedd), cam-drin domestig, a thrais rhywiol, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Bapur

[13] Mae gwasanaethau i rai a ystyrir yn risg uchel wedi'u sefydlu yng Nghymru trwy broses MARAC.
[14] Robinson A. L. (2004). *Domestic Violence MARACs (Multi-Agency Risk Assessment Conferences) for Very High-Risk Victims in Cardiff: A Process and Outcome Evaluation*. Yr Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol: Prifysgol Caerdydd.

Gwyn ym mis Tachwedd 2012[15] a amlinellodd nifer o gynigion deddfwriaethol a pholisi. Roedd y cynigion yn sail i Strategaeth Llywodraeth Cymru sef 'Strategaeth Yr Hawl i Fod yn Ddiogel'[16], ac yn canolbwyntio ar yr agweddau atal, amddiffyn a chefnogi.

Nodir y newidiadau i'w gwneud gan y Bil i fwrw ymlaen â rhai o'r cynigion isod.

*Trais yn erbyn menywod a merched*

21. I gydnabod mai menywod a merched sy'n dioddef waethaf oherwydd trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, mae darpariaeth benodol yn y Bil ynghylch trais yn erbyn menywod a merched.

22. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i bersonau sy'n arfer swyddogaethau penodedig o dan y Bil ystyried, ynghyd â materion perthnasol eraill, yr angen i ddileu neu leihau unrhyw ffactorau sy'n cynyddu risg trais yn erbyn menywod a merched, neu'n gwaethygu effaith trais o'r fath ar ddioddefwyr.

23. Mae hyn yn adlewyrchu cydnabyddiaeth hirdymor Llywodraeth Cymru o'r ffaith bod mwy o achosion o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn erbyn menywod a merched, a'u bod yn dioddef waethaf o'u herwydd. Mae hefyd yn amlinellu'r ffaith bod y rhan fwyaf o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn digwydd gan ddynion yn erbyn menywod a merched, a bod hyn yn cael ei achosi ac yn digwydd o ganlyniad i anghydraddoldeb rhwng y ddau ryw. Mae'r adran hon felly'n canolbwyntio ar drais yn erbyn menywod, gan sicrhau ar yr un pryd bod y Bil yn ymestyn i ddynion a menywod sy'n dioddef trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

24. Mae'n rhaid i strategaethau lleol fod yn seiliedig ar asesiad trylwyr o anghenion, a fydd yn nodi lle mae angen gwasanaethau a chymorth gwahanol ar fenywod a dynion. Wrth baratoi a rhoi'r strategaethau hyn ar waith, bydd disgwyl i awdurdodau ganolbwyntio ar wahanol anghenion dioddefwyr, gan gydnabod bod rhywedd yn ystyriaeth bwysig y mae angen ei hadlewyrchu yn y gwasanaethau a ddarperir. Os oes tystiolaeth yn dangos bod angen gwasanaethau penodol i ddynion neu fenywod, dylid adlewyrchu hyn mewn strategaethau lleol sy'n cydnabod y gwahaniaethau yn y gwasanaethau y mae eu hangen ar y grwpiau hyn ac sy'n gymesur ag angen.

*Strategaeth Genedlaethol*

25. Er mwyn cydnabod pwysigrwydd arweinyddiaeth ac ymrwymiad parhaus Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r materion hyn, mae'r Bil yn cynnwys darpariaeth i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi a chyhoeddi strategaeth i gyfrannu at gyflawni diben y Bil. Diben y Bil yw gwella:

---

[15] Ymgynghoriad ar roi terfyn ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (Cymru): http://wales.gov.uk/consultations/people-and-communities/vawwhitepaper/?status=closed&lang=cy

[16] 'Strategaeth Yr Hawl i Fod yn Ddiogel' (2010) *http://wales.gov.uk/topics/housingandcommunity/safety/domesticabuse/publications/besafe/?lang=cy*

a. trefniadau ar gyfer atal trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol;
b. trefniadau ar gyfer amddiffyn dioddefwyr trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol;
c. cymorth i bobl y mae trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol wedi effeithio arnynt.

26. Mae'r ddyletswydd hon yn ymgorffori ymrwymiad Gweinidogion Cymru i gyfrannu at gyflawni diben y Bil ar ffurf statud.

27. Mae dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod yr holl bersonau y maent yn credu sy'n briodol yn cael y cyfle i wneud sylw cyn iddynt gyhoeddi'r Strategaeth Genedlaethol gyntaf, neu cyn iddynt ddiwygio'r Strategaeth Genedlaethol.

*Cynghorydd Gweinidogol*

28. Cydnabyddir pwysigrwydd arweinyddiaeth yn y Bil, sy'n gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i benodi Cynghorydd Gweinidogol i roi cyngor a chymorth arbenigol i Weinidogion Cymru er mwyn cyflawni dibenion y Bil.

29. Mae gwneud y penodiad yn ddyletswydd statudol ar Weinidogion Cymru yn cydnabod y flaenoriaeth uchel y mae Llywodraeth Cymru yn ei rhoi ar fynd i'r afael â'r materion hyn, yn ogystal â'r angen am ymrwymiad polisi a chynllunio yn y maes hwn. Penodir y Cynghorydd Gweinidogol yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Penodiadau gan Weinidogion i Gyrff Cyhoeddus, a gyhoeddir gan y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus.

30. Nid rôl gwas sifil yw hon, ond rôl gynghori statudol. Bydd y Cynghorydd Gweinidogol yn gweithio ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru i gynghori a chynorthwyo Gweinidogion Cymru wrth fynd i'r afael â'r materion hyn. Yn unol â'r Cod Ymarfer, bydd disgwyl i'r Cynghorydd Gweinidogol gadw at egwyddorion bywyd cyhoeddus Nolan, sy'n berthnasol i bob gwas cyhoeddus.

31. Roedd cydgysylltu gwasanaethau yn lleol, monitro perfformiad, rhannu gwybodaeth a chasglu data yn rhai yn unig o blith nifer o faterion a nodwyd yn y Papur Gwyn fel materion anghyson. Er y disgwylir i rai gwasanaethau gael eu trefnu'n lleol ledled Cymru i adlewyrchu anghenion a galwadau lleol, mae'n glir bod angen hybu arferion da a safonau o ansawdd uchel. Un o elfennau gwaith y Cynghorydd Gweinidogol fydd gweithio gyda gwasanaethu cyhoeddus ledled Cymru, ar ran Gweinidogion Cymru,  i hybu arferion gorau a chefnogi'r ansawdd a'r safonau uchel y mae Llywodraeth Cymru yn gofyn amdanynt.

32. Bydd gan y Cynghorydd Gweinidogol rôl allweddol hefyd wrth adolygu'r camau sy'n cael eu cymryd gan gyrff y sector cyhoeddus yng Nghymru o dan y dyletswyddau a orfodir gan y Bil, a hysbysu Gweinidogion Cymru am y canfyddiadau.

*Strategaethau Lleol*

33. Yn unol â'r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu, mae'r Bil yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdodau Lleol a'r Byrddau Iechyd Lleol i baratoi a chyhoeddi Strategaethau Lleol i fynd i'r afael â thrais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

34. Nid yw'r holl Gynlluniau Integredig Sengl (SIPs) a'r dadansoddiadau anghenion ategol sydd wedi'u cyhoeddi ar hyn o bryd yn mynd i'r afael â thrais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, gan nad oes gofyniad statudol penodol i wneud hynny. Mae hyn yn gallu golygu bod ystyriaeth lai na boddhaol yn cael ei rhoi i'r materion hyn yn y cyfnod cynllunio strategol. Mae'r mwyafrif o'r dadansoddiadau anghenion cyhoeddedig yn rhoi rhywfaint o ystyriaeth i ddigwyddiadau o gam-drin a hysbysir, er na ddefnyddir dull cyson i wneud hyn gan y defnyddir setiau data gwahanol. Mae'r ystyriaeth yn cael ei chyfyngu fel rheol hefyd i gam-drin domestig, heb fawr o ystyriaeth neu ddim ystyriaeth o gwbl i faterion ehangach trais ar sail rhywedd a thrais rhywiol. Mae'r cynlluniau presennol hefyd yn dangos nad yw ystyried y mater yn y dadansoddiad o anghenion bob amser yn arwain at eu cynnwys yn y cynllun, hyd yn oed pan nodir cynnydd mewn digwyddiadau.

35. Mae'r Bil yn ceisio mynd i'r afael â'r bwlch hwn trwy ganolbwyntio'n benodol ar y materion hyn er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu hystyried gan yr Awdurdodau Lleol a'r Byrddau Iechyd Lleol fel rhan o'r broses gynllunio strategol, er mwyn codi proffil y materion a chodi'r flaenoriaeth a roddir iddynt ar draws y sector cyhoeddus. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r strategaethau ganolbwyntio ar elfennau atal, amddiffyn a chefnogi.

36. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdodau Lleol a'r Byrddau Iechyd Lleol gymryd i ystyriaeth yr asesiad diweddaraf ar gyfer ardal yr Awdurdod Lleol o dan adran 14 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdodau Lleol a'r Byrddau Iechyd Lleol gymryd i ystyriaeth asesiadau strategol sy'n cael eu paratoi yn unol â rheoliadau a wneir o dan adran 6 o Ddeddf Troseddu ac Anrhefn 1998 yn ymwneud â lleihau trosedd ac anrhefn, mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau a lleihau aildroseddu. Diben hyn yw sicrhau bod y dull a fabwysiedir gan yr Awdurdodau Lleol a'r Byrddau Iechyd Lleol i ddelio â'r materion hyn yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn gymesur â'r anghenion a nodwyd.

37. Fel sy'n wir ar hyn o bryd gyda gofynion tebyg, y bwriad yw y gallai Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol ddewis cyflawni'r strategaeth trwy gyfrwng y broses gynllunio integredig sengl. Bwriedir iddo annog yr Awdurdodau Lleol a'r Byrddau Iechyd Lleol, trwy ganllawiau, i ymgorffori'r gofynion cynllunio a nodir yn y Bil hwn yn y broses gynllunio ehangach.

38. Mae dyletswydd ar Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol i sicrhau bod cyfle i bersonau y maent yn credu sy'n briodol i wneud sylw cyn iddynt gyhoeddi eu Strategaeth Leol gyntaf a diwygio eu Strategaeth Leol.

*Canllawiau*

39. Mae'r Bil yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau i awdurdodau perthnasol (Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd Lleol, Awdurdodau Tân ac Achub ac ymddiriedolaethau'r GIG) ar sut y dylent arfer eu swyddogaethau er mwyn cyflawni diben y Bil.

40. Gall y canllawiau, ymhlith pethau eraill, fynd i'r afael â chodi ymwybyddiaeth, trwy, er enghraifft, addysgu'r cyhoedd, y broses Gofyn a Gweithredu, comisiynu gwasanaethau, polisïau gweithlu, hyfforddiant i staff a rhannu gwybodaeth. Nod Gofyn a Gweithredu yw darparu'r cymorth i weithwyr proffesiynol rheng flaen sy'n dod i gysylltiad rheolaidd â dioddefwyr trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol i ofyn i ddioddefwyr posibl am gam-drin neu drais, o dan rai amgylchiadau. Y nod hefyd,  lle bo'n briodol, yw darparu'r cymorth iddynt allu gweithredu er mwyn lleihau dioddef a niwed. Byddai angen i unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru o dan y pŵer hwn gael eu dilyn gan yr awdurdodau perthnasol. Yr unig ffordd y gallai awdurdod wyro oddi ar y canllawiau fyddai pe baent yn dod o hyd i ffordd amgen o wneud hynny. O dan amgylchiadau o'r fath byddai angen i'r awdurdod gyhoeddi manylion y dull gweithredu amgen. Pe bai Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn annhebygol y byddai dull fel hwn yn cyfrannu ar gyflawni diben y Bil, mae'r Bil yn darparu pŵer cyfarwyddo wrth gefn i Weinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau ddilyn y canllawiau.

41. Bydd y canllawiau hynny'n darparu ar gyfer rhannu arferion gorau ac yn cynorthwyo o ran hybu cysondeb a safonau o ansawdd uchel ledled Cymru. Ceir darpariaeth yn y Bil sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â phersonau priodol ar ddrafft o unrhyw ganllawiau arfaethedig, neu ddiwygio ar y canllawiau. Rhaid i Weinidogion Cymru hefyd osod copi o'r canllawiau drafft gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. Gallai'r Cynulliad benderfynu peidio â chymeradwyo'r canllawiau drafft, a byddai hynny'n atal Gweinidogion Cymru rhag cyhoeddi'r canllawiau yn y ffurf y'i gosodir gerbron y Cynulliad. Byddai Llywodraeth Cymru felly'n mynd ati i ymgynghori â'r cyhoedd, gan gynnwys cynnal asesiad effaith rheoleiddiol cyn cyhoeddi neu adolygu unrhyw ganllawiau o dan adran 12 o'r Bil.

*Gwybodaeth addysg*

42. Roedd ymgynghoriad y Papur Gwyn ar y cynigion polisi a deddfwriaethol yn amlinellu mesurau i wella addysg ac ymwybyddiaeth am drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol mewn lleoliadau addysgol. Er bod arferion cryf mewn rhai ysgolion ledled Cymru, nid oes cysondeb. Mae'r Bil felly'n rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i'w gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol adrodd ar sut maent yn mynd i'r afael â thrais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn eu swyddogaethau addysg, gan gynnwys unrhyw gamau sy'n cael eu cymryd mewn ysgolion.

43. Bydd Awdurdodau Lleol sy'n adrodd yn flynyddol ar y camau y maent yn eu cymryd yn rhoi darlun cynhwysfawr i Lywodraeth Cymru ar y mesurau sy'n cael

eu gosod ledled Cymru a’r dystiolaeth a fydd yn sylfaen i ofynion pellach yn y dyfodol.

44. Bydd yr wybodaeth hon hefyd yn cynnig tystiolaeth gadarn i’r Cynghorydd Gweinidogol i sicrhau bod Awdurdodau Lleol yn atebol am y camau sy’n cael eu cymryd yn eu hardaloedd, a fydd yn helpu i ddatblygu a gwella arferion a Strategaethau Lleol.

**Diben y Bil a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

45. Prif nod polisi Llywodraeth Cymru yn y maes hwn yw lleihau cyfraddau trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Nghymru. Mae'r Bil yn cefnogi'r nod hwn trwy geisio sicrhau bod y sector cyhoeddus yng Nghymru yn ymateb yn well i fynd i’r afael â’r materion hyn. Prif nodau'r Bil yw gwella’r trefniadau ar gyfer:

    a. hybu ymwybyddiaeth o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, atal hynny ac amddiffyn a chefnogi’r dioddefwyr;

    b. cryfhau arweinyddiaeth strategol ac atebolrwydd ar gyfer trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol; a

    c. gwella cysondeb, ansawdd a dilyniant o ran darparu gwasanaethau yng Nghymru.

46. Bydd y Bil yn hybu ymwybyddiaeth o faterion trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol trwy greu swydd Cynghorydd Gweinidogol. Nid oes rôl statudol o'r fath i gynghori ar y materion hyn yn bodoli ar hyn o bryd yn y DU; hon fyddai'r gyntaf o'i math felly.

47. Bydd y ddyletswydd ar yr Awdurdodau Lleol a'r Byrddau Iechyd Lleol i baratoi a chyhoeddi strategaeth ar y cyd yn sicrhau tryloywder ynghylch graddau’r mater hwn mewn ardal leol a'r camau a gynigir i fynd i'r afael ag ef. Mae angen hyn i godi ymwybyddiaeth ymhlith gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn y sector cyhoeddus a'r cyhoedd yn gyffredinol. Mae materion megis cam-drin domestig, sy'n effeithio ar 1 ym mhob 4 o fenywod yn ystod eu hoes ac 1 ym mhob 6 o ddynion, yn aml yn faterion cudd. Er mwyn gwella'r ymateb, mae angen ymyrryd yn gynt, ac mae hyn yn ei dro'n gofyn am ganolbwynt penodol ar y materion hyn i weithio tuag at ddileu'r stigma sydd ynghlwm wrthynt trwy ddangos pwysigrwydd mynd i'r afael â'r materion hyn ar lefel genedlaethol a lleol.

48. Bydd y Cynghorydd Gweinidogol a'r gofynion o ran y strategaeth yn cryfhau arweiniad strategol ac atebolrwydd. Bydd y gofynion o ran y strategaeth yn sicrhau bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r materion fel rhan o'r broses gynllunio strategol.

49. Bydd y Bil yn gwella cysondeb ac ansawdd darparu gwasanaethau yng Nghymru trwy alluogi Gweinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau i awdurdodau perthnasol ar y materion canlynol, ymhlith pethau eraill:

a. yr hyfforddiant a'r cymorth sydd ar gael i'r staff i'w helpu i adnabod arwyddion trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol;

b. o dan ba amgylchiadau y mae'n ddiogel ac yn briodol ‘Gofyn a Gweithredu’;

c. rhannu gwybodaeth rhwng awdurdodau perthnasol ac eraill; a

d. trefniadau cydweithredu rhwng awdurdodau perthnasol a rhwng awdurdodau perthnasol ac eraill.

**Cwmpas y Bil**

50. Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod dylanwad rhywedd ar gam-drin domestig a thrais rhywiol fel y'u cyflawnir yn bennaf yn erbyn menywod a merched ac yn cydnabod bod hyn yn un o achosion anghydraddoldeb rhwng y rhywiau ac yn un o'i ganlyniadau. Er bod Llywodraeth Cymru'n cydnabod mai menywod sy’n dioddef waethaf oherwydd cam-drin a thrais o'r fath, mae wedi ymrwymo i gefnogi pawb sy’n dioddef trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

51. Mae'r Bil yn mynd i'r afael â cham-drin domestig a thrais rhywiol yn erbyn pobl yng Nghymru, ni waeth beth am ryw neu gyfeiriadedd rhywiol. Mae'r Bil hefyd yn mynd i'r afael â thrais a gyflawnir yn erbyn menyw neu ddyn sy’n codi’n uniongyrchol neu’n anuniongyrchol o werthoedd, credoau neu arferion sy’n ymwneud â rhywedd neu gyfeiriadedd rhywiol.

52. Mae’r Bil wedi cael ei ddrafftio fel nad yw’n cyfyngu ar Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd wrth iddynt lunio eu strategaethau, ar Weinidogion Cymru wrth iddynt lunio eu Strategaeth Genedlaethol, nac ar y Cynghorydd Gweinidogol wrth iddo ddatblygu ei raglen waith. Mae’n bwysig bod y diffiniadau yn y Bil yn ddigon bras fel nad ydynt yn cyfyngu’n anfwriadol ar allu gwasanaethau cyhoeddus i ymateb i drais yn erbyn menywod, trais ar sail rhywedd, trais domestig a thrais rhywiol.

53. Nid oes amheuaeth y bydd y meysydd gweithredu â blaenoriaeth yn newid gydag amser, ac mae angen i ni greu Strategaethau Cenedlaethol a Lleol sy’n ddigon hyblyg i ganolbwyntio ar y materion allweddol sy’n effeithio ar Gymru ar wahanol adegau. Oherwydd y bydd y strategaethau lleol yn seiliedig ar asesiadau trylwyr o anghenion, bydd hyn yn sicrhau ffocws ar anghenion lleol ardal leol, sy’n debygol o gael mwy o effaith.

54. Mae'r diffiniad eang o gam-drin domestig yn cwmpasu camdriniaeth gan bartneriaid, cynbartneriaid ac aelodau teuluol. Mae'r diffiniad hwn yn cynnwys mathau llai cyffredin o gam-drin megis trais er anrhydedd. Mae ystod eang o ymddygiadau wedi’u cofnodi yn y diffiniadau, a fyddai’n cynnwys unrhyw fath o drais neu gam-drin sy’n ceisio dwyn gorfodaeth neu reolaeth dros ddioddefwr. Mae enghreifftiau pellach o ymddygiadau sydd wedi’u cofnodi yn y diffiniadau i’w gweld yn y Nodiadau Esboniadol isod.

55. Bydd y Bil ac unrhyw ganllawiau'n ceisio cefnogi a chydategu'r gweithdrefnau diogelu sy'n bodoli eisoes ynghylch plant o dan 18 oed; ni fydd yn eu disodli.

56. Nid yw’r Bil ymdrin yn darparu i’r Cynghorydd Gweinidogol ymdrin ag achosion unigol o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig neu drais rhywiol yng Nghymru. Mae'r rhain yn dal yn gyfrifoldeb i'r awdurdodau priodol megis yr heddlu, y gwasanaethau prawf, Gwasanaethau Erlyn y Goron, a gwasanaethau diogelu oedolion a phlant a phartneriaethau statudol megis cynadleddau amlasiantaeth asesu risg a threfniadau amddiffyn y cyhoedd a Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol.

**Rhychwant Tiriogaethol**

57. Mae'r Bil hwn yn gymwys mewn perthynas â Chymru yn unig.

**Risgiau**

58. Y risg sydd ynghlwm wrth beidio â chyflwyno'r Bil yw na lwyddir i gyflawni'r nodau a nodwyd, sef cynyddu ymwybyddiaeth, cryfhau arweinyddiaeth ac atebolrwydd, a gwella cysondeb ac ansawdd y gwasanaethau a ddarperir. Heb gyflawni'r nodau hyn, ni fydd modd cyflawni'r nod cynhwysfawr o wella ymateb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru i drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

59. Heb y fframwaith statudol i sicrhau bod y materion hyn yn cael eu hystyried ar lefel Genedlaethol a Lleol, mae risg na fydd mynd i'r afael â'r materion hyn yn cael ei ystyried yn flaenoriaeth strategol. Yn ychwanegol, heb ddefnyddio canllawiau statudol i bennu'r fframwaith y dylid ei ddefnyddio'n sail i fynd i'r afael ag agweddau ar atal, amddiffyn a chefnogi, mae risg y bydd yr anghysondebau presennol o ran ansawdd ac ymateb i'r gwasanaeth yn parhau.

**Cynllun gweithredu a chyflawni**

60. Cynhwysir prif elfennau'r ddeddfwriaeth hon ar wyneb y Bil. Mae darpariaeth yn y Bil i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau statudol i gefnogi rhoi'r cynigion hyn ar waith.

61. Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu cyhoeddi canllawiau i helpu'r awdurdodau perthnasol i fodloni gofynion y Bil. Bydd y canllawiau, er enghraifft, yn helpu i gyflawni'r strategaethau lleol y mae eu hangen trwy ddarparu cyngor ac arferion gorau ar gydweithredu amlasiantaeth effeithiol a rhannu gwybodaeth, polisïau gweithle, comisiynu gwasanaethau a darparu hyfforddiant trwy'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol.

62. Ar yr amod y bydd y Bil yn cael ei gymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol ac yn cael y Cydsyniad Brenhinol wedi hynny, fe gaiff ei roi ar waith yn raddol. Cynigir y daw'r darpariaethau canlynol i rym y diwrnod y rhoddir y Cydsyniad Brenhinol:

- adran 1; a

- adrannau 23 i 25.

63. Bwriedir wedyn i adrannau 13 i 20 ddod i rym ddau fis ar ôl i'r Bil gael y Cydsyniad Brenhinol.

64. Daw'r darpariaethau sy'n weddill i rym wedi hynny trwy gyfrwng gorchymyn a wneir gan offeryn statudol.

65. Mae'r cerrig milltir a ragwelir fel a ganlyn:

Hysbyseb am Gynghorydd Gweinidogol – Gwanwyn 2015
Penodi Cynghorydd Gweinidogol – Hydref 2015
Cyhoeddi Strategaeth Genedlaethol – Gwanwyn 2016

# 4. Ymgynghori

66. Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar y Papur Gwyn i roi terfyn ar drais yn erbyn menywod (sef y math mwyaf cyffredin o drais ar sail rhywedd), cam-drin domestig a thrais rhywiol rhwng 26 Tachwedd 2012 a 22 Chwefror 2013. Yn ogystal cynhaliwyd wyth o ddigwyddiadau ymgynghori ledled Cymru y bu aelodau o'r cyhoedd a rhanddeiliaid yn rhan ohonynt. Cafodd digwyddiad penodol i bobl ifanc (14-15 oed) ei drefnu hefyd mewn partneriaeth â'r Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant. Mae copi o'r Papur Gwyn ynghyd â chrynodeb o'r ymatebion ar gael yn:

    http://wales.gov.uk/consultations/people-and communities/vawwhitepaper/?skip=1&lang=cy

67. Gwahoddodd y Papur Gwyn sylwadau am nifer o gynigion polisi a deddfwriaethol. Daeth cyfanswm o 147 o ymatebion i law, a hynny o'r mathau o sefydliadau isod:

| | |
|---|---|
| Cyrff y trydydd sector | 52 |
| Unigolion | 23 |
| Gweithwyr proffesiynol unigol o'r sector | 23 |
| Cyrff y sector cyhoeddus | 20 |
| Buddiannau gwleidyddol | 10 |
| Cyrff proffesiynol | 8 |
| Fforymau amlasiantaeth | 5 |
| Grwpiau crefyddol | 3 |
| Swyddfeydd Comisiynwyr | 3 |
| **Cyfanswm** | **147** |

68. Cafwyd ymateb cadarnhaol i'r ymatebion yn y Papur Gwyn. Er hynny, ni fwriedir bwrw ymlaen â'r holl gynigion a drafodir yn y Papur Gwyn o fewn y Bil hwn.

69. Mae'r adran isod yn amlinellu'r cynigion yn y Papur Gwyn sydd heb gael eu cynnwys yn y Bil

- **Cynnig yn ymwneud ag addysg perthnasoedd iach gan ddefnyddio dull ysgol gyfan**

70. Yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad roedd cefnogaeth eang iawn i'r cynigion yn y Papur Gwyn. Cafwyd cefnogaeth sylweddol hefyd o blaid gwneud gwersi am berthnasoedd iach yn orfodol trwy gyfrwng y cwricwlwm.

71. Mae Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru wrthi'n cynnal Adolygiad o'r Cwricwlwm Cenedlaethol a'r Trefniadau Asesu. Cyhoeddwyd ail gam yr Adolygiad ar 12 Mawrth ac fe'i harweinir gan yr Athro Graham Donaldson. Bydd hyn yn cynnwys adolygiad o'r Cwricwlwm Sylfaenol gan gynnwys Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh) i sicrhau ei fod yn addas at ei ddiben yn yr 21ain Ganrif. Mae Addysg Perthnasoedd Iach yn rhan allweddol o'r Fframwaith

ABCh i blant 7 i 19 oed yng Nghymru. Disgwylir i ganfyddiadau'r adolygiad gael eu cyhoeddi yng ngwanwyn 2015.

72. Mae’r Adolygiad yn edrych yn sylfaenol ar y cwricwlwm yn ei gyfanrwydd yng Nghymru - er mwyn sicrhau ei fod yn darparu continwwm eang, cytbwys a chydlynus o’r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 4 - gan gysylltu â’n Hadolygiad o Gymwysterau. Mae’r Adolygiad felly’n cynnig cyfle pwysig i ystyried lle ABCh, gan gynnwys perthnasoedd iach, yn y cwricwlwm newydd yng Nghymru gyfan. Trwy sicrhau’r cyswllt rhwng yr Adolygiad a’n cynigion i ddarparu ein hagenda perthnasoedd iach mewn ysgolion, mae mwy o gyfle i wneud eu heffaith mor gryf â phosibl.

73. Yn ogystal â’r ddarpariaeth benodol yn y Bil ynghylch pwerau Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy’n ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol gyhoeddi gwybodaeth am y camau a gymerir o dan eu swyddogaethau addysg sy’n cyfrannu at ddiben y Bil (gweler paragraff 42 uchod), ceir mesurau ategol hefyd i sicrhau bod ysgolion yn ymgorffori trais yn erbyn menywod, trais ar sail rhywedd cam-drin domestig a thrais rhywiol yn fwy cyffredinol:

a. Mae Hafan Cymru wedi cael cyllid ychwanegol i ymestyn y Rhaglen Ysgolion Sbectrwm Cenedlaethol. Dechreuwyd cyflwyno’r Rhaglen Genedlaethol ddiwedd haf 2014. Recriwtiwyd Swyddogion Cyswllt Ysgolion, Rheolwr Cyswllt Ysgolion a Chynorthwy-ydd Gweinyddol ar gyfer y Prosiect. Rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2014, cyflwynwyd sesiynau Sbectrwm i bron 12,000 o blant mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. Bydd y rhaglen wedi cyrraedd 102 o ysgolion erbyn diwedd mis Mawrth 2015.

b. Mae’r Adran Addysg a Sgiliau wedi adolygu ei chanllawiau statudol *Cadw Dysgwyr yn Ddiogel*. Cyhoeddwyd y canllawiau hyn ar 14 Ionawr ac maent yn cynnwys adran llawer mwy trylwyr ar drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, yn ogystal â FGM a phriodasau dan orfod. Mae’n cryfhau rôl Uwch Swyddogion Dynodedig ar gyfer Diogelu Plant ar y materion hyn.

c. Cynigir adolygiad thematig o addysg perthnasoedd iach yn ystod blwyddyn academaidd 2016-17; erbyn hynny bydd cyfle i’r diwygiadau presennol fwrw’u gwreiddiau.

d. Bydd hyfforddiant yn cael ei gynnig i bob ysgol drwy’r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol i sicrhau:

i. bod llywodraethwyr ysgol a phob aelod o staff yn ymwybodol o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a’u bod yn gwybod sut i gael cymorth ar gyfer plant a phobl ifanc, eu hunain neu eu cydweithwyr a allai fod yn ddioddefwyr;

ii. bod cyfran o staff yn gallu gweithredu ar ôl cydnabod y dangosyddion a’u bod yn ymateb i bobl ifanc yn effeithiol, gan

gynnwys rhoi mynediad effeithlon i asesu risg, cynllunio diogelwch a chymorth;

iii. bod un hyrwyddwr ym mhob ysgol a all helpu staff i ymdrin ag achosion anodd, cynnid gwybodaeth a chymorth uwch i blant a phobl ifanc a hybu ymwybyddiaeth well o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol mewn lleoliadau addysg.

e. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ystyried cyhoeddi *Canllaw Arferion Gorau i'r Ysgol Gyfan* cyn blwyddyn academaidd 2015-16. Bydd hyn yn arddangos yr arferion rhagorol sydd i'w gweld ledled Cymru. Bydd hefyd yn cefnogi ac yn annog yr ysgolion hynny lle rydym yn gwybod bod angen iddynt wneud mwy drwy ddysgu gan eraill. Mae Cymorth i Ferched Cymru yn datblygu'r gwaith ar y Canllaw hwn a bydd yn ymgynghori'n helaeth ar ei gynnwys.

- **Cynigion sy'n ymwneud â llety diogel**

74. Yn ôl y dystiolaeth, dros y 5 mlynedd diwethaf, derbynnir bod rhyw 880 o aelwydydd yn ddigartref bob blwyddyn lle'r prif reswm dros golli cartref yw methiant perthynas, a hynny o dan amgylchiadau treisgar. Mae hyn yn cyfrif am ryw 15 y cant o'r holl aelwydydd a gydnabyddir yn aelwydydd digartref[17].

75. Cydnabu'r Papur Gwyn bwysigrwydd darparu rhychwant o ddewisiadau llety diogel, yn sgil asesiad o risg a'r dewis o ddefnyddiwr y gwasanaeth. Mae'r gwaith hwn yn cael ei ystyried ymhellach yng ngoleuni'r newidiadau sy'n cael eu gwneud o ganlyniad i Fil Tai (Cymru), sydd gerbron y Cynulliad ar hyn o bryd. Lle mae person yn ddigartref neu o dan fygythiad o fod yn ddigartref mae'r Bil yn cynnig y bydd yn ddyletswydd ar yr Awdurdod Lleol i gymryd camau rhesymol i atal neu liniaru digartrefedd. Yn ychwanegol at y dyletswyddau hyn, bydd yn ddyletswydd hefyd ar yr awdurdodau lleol i ddarparu gwybodaeth a chyngor am atal digartrefedd, sicrhau llety pan fydd unigolyn yn ddigartref a chael mynediad i unrhyw gymorth arall sydd ar gael.

76. Os byddai person y mae plentyn dibynnol yn preswylio gydag ef neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddo breswylio gydag ef, byddai'n ddyletswydd ar yr Awdurdod Lleol i ddod o hyd i lety dros dro wrth gyflawni unrhyw ddyletswyddau o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 newydd mewn perthynas â digartrefedd.

77. Cyflwynwyd Bil Rhentu Cartrefi (Cymru) gerbron y Cynulliad ar 9 Chwefror 2015, sy'n darparu ar gyfer 'cyfnod ymddygiad gwaharddedig' i'w gynnwys ym mhob contract rhentu ar gyfer tai. Ar y cyd â dull mwy hyblyg o ymdrin â chyd-denantiaethau, bydd yn hyn yn galluogi cyflawnwyr cam-drin domestig i gael eu troi allan tra'n gadael y dioddefwr ac unrhyw blant i aros yn eu cartref.

[17] http://wales.gov.uk/statistics-and-research/homelessness/?lang=cy

## 5. Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth

78. Mae Bil Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) yn cynnwys darpariaethau i wneud is-ddeddfwriaeth. Mae'r tabl isod yn dangos, mewn perthynas â phob darpariaeth:

    a. yr unigolyn neu'r corff y rhoddir y pŵer iddo;
    b. ar ba ffurf y caiff y pŵer ei arfer;
    c. priodoldeb y pŵer dirprwyedig;
    d. y weithdrefn a gymhwysir (cadarnhaol, negyddol, dim gweithdrefn), os oes un.

## Crynodeb o'r pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| Adran 6(3)(b) | Gweinidogion Cymru | Cyfarwyddyd | Yn rhoi hyblygrwydd i Weinidogion Cymru gyfarwyddo awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol i adolygu eu strategaeth os bydd amgylchiadau'n awgrymu y dylid cynnal adolygiad, er enghraifft, os bydd Gweinidogion Cymru'n penderfynu adolygu'r Strategaeth Genedlaethol. | Ddim gweithdrefn statudol. | Yn ymwneud ag adolygu strategaethau lleol ac felly fe allai'r amgylchiadau lle câi'r cyfarwyddyd ei ddefnyddio newid o bryd i'w gilydd. Felly, nid eos unrhyw weithdrefn statudol yn rhoi'r hyblygrwydd i Weinidogion Cymru ymateb yn gyflym i newidiadau mewn amgylchiadau gan sicrhau bod strategaethau'n cael eu hadolygu'n amserol ar lefel leol. |
| Adran 7(2) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Yn rhoi hyblygrwydd i Weinidogion Cymru i bennu gwybodaeth ychwanegol neu asesiadau pellach sy'n gorfod cael eu cymryd i ystyriaeth wrth baratoi strategaethau lleol. | Negyddol | Yn pennu manylion technegol a allai newid o bryd i'w gilydd. |
| Adran 9(2)<br>Yn mewnosod adran 29 (6A) newydd yn Neddf Addysg 1996 | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Yn rhoi'r hyblygrwydd i Weinidogion Cymru gyfarwyddo awdurdodau lleol ynghylch y math o wybodaeth y dylid ei chyhoeddi am y ddarpariaeth addysg sy'n hyrwyddo dibenion | Negyddol | Drwy rinwedd adran 569 o Ddeddf Addysg 1996, mae'r rheoliadau o dan adran 29 yn destun y weithdrefn negyddol. Mae cymhwyso'r weithdrefn |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | y Ddeddf, a pha mor aml. | | negyddol i’r rheoliadau hyn yn sicrhau cysondeb wrth wneud rheoliadau o dan adran 29 o Ddeddf Addysg 1996. |
| Adran 14(1) | Gweinidogion Cymru | Canllawiau | Addas ar gyfer canllawiau gan ei fod yn galluogi Gweinidogion Cymru i roi gwybodaeth gyfoes i'r awdurdodau perthnasol am arferion gorau a sut y dylai awdurdod arfer ei swyddogaethau i gyfrannu at yr amcanion cynhwysfawr a nodir yn y Bil. Mae canllawiau'n cynnig hyblygrwydd gan y gallai fod angen eu diweddaru yn rheolaidd. | Y weithdrefn fel y'i nodir yn adran 13 o Fil (Ymgynghori a Gweithdrefnau Cynulliad Cenedlaethol Cymru).<br>Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori ar y canllawiau drafft, a gosod canllawiau drafft gerbron y Cynulliad. Mae'n bosibl na chyhoeddir y canllawiau os bydd y Cynulliad yn penderfynu peidio â chymeradwyo'r drafft. | Y gofyniad ar gyfer ymgynghori yw sicrhau bod safbwyntiau'r rhai y mae'r canllawiau'n effeithio arnynt yn cael eu cymryd i ystyriaeth yn llawn. Mae'r gofyniad i osod y canllawiau drafft gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ac i gael cymeradwyaeth yn cynnig cyfle i graffu. |
| Adran 18(2) | Gweinidogion Cymru | Cyfarwyddiadau | Bydd y pŵer cyfarwyddyd hwn yn gymwys i rai awdurdodau a chaiff ei wneud mewn amgylchiadau penodol a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymateb yn gyflym pan fo angen iddynt wneud hynny. | Dim gweithdrefn statudol | Yn rhoi hyblygrwydd i Weinidogion Cymru ymateb yn gyflym i sicrhau cydymffurfiad â chanllawiau a roddir o dan adran 12. |
| Adran 24(3) | Gweinidogion Cymru | Gorchymyn | Addas am Orchymyn gan fod y ddarpariaeth yn ymwneud â dyddiad dod i rym i'w benderfynu gan Weinidogion Cymru | Dim gweithdrefn statudol | Caiff y gorchmynion hyn eu cyfyngu i gychwyn ac maent yn dechnegol eu natur. |

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

79. Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi cael ei baratoi yn unol â Rheol Sefydlog 26.6 (vi) fel y'i hamgaeir yn Rhan 2.

# RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

## 7. Opsiynau

80. Caiff yr asesiad effaith rheoleiddiol hwn ei lunio o amgylch pob elfen o'r Bil, fel a ganlyn:

    A. Y Ddyletswydd i Baratoi Strategaethau Cenedlaethol ac Adrodd arnynt;
    B. Y Ddyletswydd i Baratoi Strategaethau Lleol ac Adrodd arnynt;
    C. Y Pŵer i wneud Rheoliadau o dan Ddeddf Addysg 1996;
    D. Y Pŵer i Gyhoeddi Canllawiau Statudol a'r Ddyletswydd i Ddilyn Canllawiau o'r Fath;
    E. Penodi Cynghorydd Gweinidogol.

81. Ystyriwyd nifer o opsiynau ar gyfer cyflawni'r nodau polisi sy'n sail i bob un o brif elfennau'r Bil. Nodir yr opsiynau isod. Mae pob un o'r opsiynau wedi cael eu hystyried o ran y graddau y byddent yn cyflawni amcanion polisi Llywodraeth Cymru. Eglurir costau a manteision pob un o'r opsiynau ym Mhennod 8 o'r Memorandwm Esboniadol hwn.

### A. <u>Y Ddyletswydd i Baratoi ac Adrodd ar Strategaethau Cenedlaethol</u>

**Opsiwn 1 – Gwneud Dim / Parhau i Ddefnyddio Strategaethau Presennol**

82. Nid yw gwneud dim yn opsiwn y gellir ei ddefnyddio oherwydd cyhoeddwyd yr adroddiad terfynol ar gyfer y Strategaeth Genedlaethol bresennol 'Yr Hawl i fod yn Ddiogel' ym mis Mehefin 2014. O'r herwydd, ni fyddai Strategaeth Genedlaethol gyffredinol ar waith wedyn pe byddai'r opsiwn hwn yn cael ei ddilyn.

**Opsiwn 2 – Cynhyrchu Strategaeth Genedlaethol nad yw'n Ddeddfwriaethol**

83. Byddai'r opsiwn hwn yn golygu llunio Strategaeth Genedlaethol newydd, y tu allan i gwmpas deddfwriaeth, i gymryd lle'r strategaethau presennol.

**Opsiwn 3 - Cyflwyno Bil Cynulliad i Ymdrin â'r Amcanion Polisi**

84. Mae'r opsiwn hwn yn golygu cynnwys darpariaeth yn y Bil ar gyfer gosod dyletswydd benodol ar Weinidogion Cymru i baratoi a datblygu Strategaethau Cenedlaethol i fynd i'r afael â thrais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol drwy eu hatal, a thrwy amddiffyn a chefnogi dioddefwyr.

85. Byddai'r opsiwn hwn yn ei gwneud yn ofynnol bod Gweinidogion Cymru yn adolygu'r Strategaeth Genedlaethol o fewn chwe mis ar ôl etholiad cyffredinol yn achos y Cynulliad Cenedlaethol ac ar unrhyw adeg arall.

## B. Y Ddyletswydd i Baratoi ac Adrodd ar Strategaethau Lleol

### Opsiwn 1 – Gwneud Dim

86. Ystyr gwneud dim yn yr achos hwn yw peidio â gosod dyletswydd benodol ar Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol i baratoi, cyhoeddi ac adrodd ar Strategaethau Lleol i fynd i'r afael â thrais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

87. Mae rhai Awdurdodau Lleol wedi cynnwys camau gweithredu i fynd i'r afael â cham-drin domestig yn eu Cynlluniau Integredig Sengl (CISau) presennol. Fodd bynnag, o'r CISau a'r dadansoddiadau o anghenion sy'n eu hategu a gyhoeddwyd hyd yn hyn, nid yw pob un ohonynt yn ymdrin â materion trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, gan nad oes gofyniad statudol penodol i wneud hynny.

### Opsiwn 2 - Defnyddio Deddfwriaeth Bresennol i Gyflwyno Newid

88. Opsiwn arall yw peidio â chynnwys darpariaeth benodol ar gyfer Strategaethau Lleol yn y Bil hwn ond, yn hytrach, defnyddio deddfwriaeth bresennol i'w gwneud yn ofynnol bod Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol yn pennu amcanion sy'n ymwneud â thrais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Byddai hyn yn golygu defnyddio nifer o'r mecanweithiau presennol mewn deddfwriaeth i geisio cyflawni'r bwriad polisi hwn.

89. Mae'r rhain yn cynnwys ymchwilio i'r posibilrwydd o wneud rheoliadau ar y cyd â Llywodraeth y DU o dan adran 6 o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 mewn perthynas â lleihau troseddu ac aildroseddu. Mae adran 6 yn ei gwneud yn ofynnol bod cyrff cyhoeddus penodedig yn paratoi strategaeth er mwyn gostwng troseddu ac anhrefn, mynd i'r afael â chamddefnydd o gyffuriau, alcohol ac unrhyw sylweddau eraill a gostwng aildroseddu. Mae'r materion penodol sydd i gael sylw mewn strategaethau troseddau ac anhrefn yn cael eu rhagnodi mewn rheoliadau. Gellir pennu mewn rheoliadau'r amcanion sydd i gael sylw mewn strategaeth a thargedau perfformiad ar gyfer yr amcanion hynny gan gynnwys lleihau trosedd neu anhrefn penodol. Felly, gellid darparu mewn rheoliadau fod rhaid i strategaethau troseddau ac anhrefn roi sylw yn benodol i droseddau sy'n gysylltiedig â thrais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol fel materion y mae rhaid i strategaethau fynd i'r afael â hwy.

90. Gallai'r opsiwn hwn hefyd olygu gwneud rheoliadau o dan adran 40 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006. Mae adran 40 yn ei gwneud yn ofynnol bod Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol yn cydweithio i lunio a chyflawni strategaeth ar gyfer iechyd a lles y bobl yn eu hardal. Gall y rheoliadau hyn ddarparu ar gyfer materion penodol y mae rhaid i strategaethau fynd i'r afael â hwy ac felly yn yr un modd â strategaethau troseddau ac anhrefn, gellid ail-wneud y rheoliadau fel eu bod yn cyfeirio'n benodol at drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

91. Yn ogystal â'r rheoliadau newydd, gallai'r opsiwn hwn ddibynnu hefyd ar adran 14 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, sy'n gosod

dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i ddarparu ar gyfer ystod a lefel o wasanaethau at nifer o ddibenion gan gynnwys i gyfrannu at atal neu oedi datblygiad anghenion pobl am ofal a chymorth, lleihau'r anghenion am ofal a chymorth ac atal pobl rhag dioddef gan gamdriniaeth neu esgeulustod. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol bod Byrddau Iechyd Lleol yn rhoi sylw i bwysigrwydd gwasanaethau ataliol o'r fath wrth arfer eu swyddogaethau. Felly byddai'r ddarpariaeth yn gallu arwain at Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol yn darparu gwell gwasanaethau gan geisio atal trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

**Opsiwn 3 - Cyflwyno Bil Cynulliad i Ymdrin â'r Amcanion Polisi**

92. Mae cyflwyno Bil yn ffordd o ganolbwyntio ar y materion hyn. Mae'n rhoi'r gallu i osod dyletswydd benodol ar Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol i baratoi a chyhoeddi Strategaethau Lleol sy'n disgrifio sut y maent yn bwriadu gwella'r trefniadau ar gyfer ymdrin â materion sy'n ymwneud â thrais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol drwy gamau i'w atal ac i amddiffyn a chefnogi dioddefwyr. Mae hefyd yn rhoi'r ddarpariaeth i fynnu eu bod yn adrodd yn flynyddol ar y cynnydd ar y strategaethau.

## C. <u>Pŵer i wneud Rheoliadau o dan Ddeddf Addysg 1996</u>

**Opsiwn 1 – Gwneud Dim**

93. Byddai'r opsiwn hwn yn golygu na fyddai gan Lywodraeth Cymru y pŵer i'w gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol, drwy reoliadau, gyhoeddi gwybodaeth ar sut maent yn mynd i'r afael â'r materion hyn yn eu swyddogaethau addysgol, gan gynnwys ysgolion. Er bod arferion cryf mewn rhai ysgolion ledled Cymru, nid oes cysondeb. Felly, byddai'r opsiwn hwn yn rhoi darlun cynhwysfawr i Lywodraeth Cymru o'r ymyriadau sy'n digwydd ledled Cymru a thystiolaeth a fyddai'n sylfaen i ofynion pellach yn y dyfodol.

**Opsiwn 2 – Rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol lunio adroddiad blynyddol ar weithgarwch addysgol yn eu hardaloedd**

94. Mae'r opsiwn hwn yn golygu diwygio Deddf Addysg 1996 i ganiatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol gyhoeddi gwybodaeth ar sut maent yn mynd i'r afael â'r materion hyn yn eu swyddogaethau addysgol, gan gynnwys ysgolion. Bydd yr opsiwn hwn yn rhoi darlun cynhwysfawr i Weinidogion Cymru a'r Cynghorydd Gweinidogol o'r ymyriadau sy'n digwydd ledled Cymru a thystiolaeth a fyddai'n sylfaen i ofynion pellach yn y dyfodol.

## D. Y Pŵer i Gyhoeddi Canllawiau Statudol a'r Ddyletswydd i Ddilyn Canllawiau o'r Fath

**Opsiwn 1 – Gwneud Dim**

95. Byddai'r opsiwn hwn yn golygu na fyddai Llywodraeth Cymru yn rhoi unrhyw ganllawiau i Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol ynghylch atal trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, nac ynghylch amddiffyn a chefnogi dioddefwyr. Ni fyddai'r opsiwn hwn yn rhoi cyfle i Lywodraeth Cymru rannu'r arferion gorau na hyrwyddo darpariaeth o wasanaethau o ansawdd uchel cyson ledled Cymru. O dan yr opsiwn hwn, mater i bob Awdurdod Lleol a Bwrdd Iechyd Lleol fyddai penderfynu drosto'i hun ar y ffordd orau o gyflawni'r amcanion o atal, amddiffyn a chefnogi.

**Opsiwn 2 – Defnyddio Canllawiau Anstatudol i Gyflwyno Newid**

96. Dan yr opsiwn hwn, byddai Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau anstatudol i Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol ynghylch atal trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, ac amddiffyn a chefnogi dioddefwyr. Mae'r opsiwn hwn yn rhoi cyfle i Lywodraeth Cymru rannu'r arferion gorau a hyrwyddo darpariaeth o wasanaethau o ansawdd uchel cyson. O dan yr opsiwn hwn, byddai Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol yn cael eu cymell i ddilyn y canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, ond ni ellid eu gorfodi i'w dilyn. Felly byddai Awdurdod Lleol neu Fwrdd Iechyd Lleol yn gallu dewis anwybyddu'r canllawiau'n llwyr.

97. Dan yr opsiwn hwn, gallai'r canllawiau, ymysg pethau eraill, roi sylw i godi ymwybyddiaeth er enghraifft drwy addysg gyhoeddus, y broses Gofyn a Gweithredu, hyfforddiant ar gyfer staff, fforymau amlasiantaeth, a rhannu gwybodaeth. Nod y broses Gofyn a Gweithredu yw darparu'r cymorth i annog gweithwyr proffesiynol rheng flaen sy'n dod i gysylltiad yn rheolaidd â dioddefwyr trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol i holi dioddefwyr posibl am gam-drin neu drais mewn amgylchiadau penodol, a lle bo'n briodol, gweithredu er mwyn lleihau'r dioddefaint a'r niwed. Mae rhannu gwybodaeth yn ymwneud ag annog rhannu gwybodaeth yn ddiogel ac yn gyfreithlon am y sawl sy'n cael eu cam-drin ac sy'n dioddef trais er mwyn sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd er mwyn lleihau dioddefaint a niwed.

**Opsiwn 3 – Darparu pŵer i Weinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau a gofyniad bod cyrff penodedig yn eu dilyn**

98. Mae'r opsiwn hwn yn golygu rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau i awdurdodau perthnasol[18] i hyrwyddo'r diben o atal, amddiffyn a chefnogi. O dan yr opsiwn hwn, byddai'r canllawiau'n gallu rhoi sylw, ymysg pethau eraill, i hybu ymwybyddiaeth, er enghraifft drwy addysg gyhoeddus, y broses Gofyn a Gweithredu, hyfforddiant i staff, fforymau amlasiantaeth a rhannu gwybodaeth.

99. Mae'r opsiwn hwn yn golygu y byddai'r awdurdodau penodedig yn gorfod dilyn unrhyw ganllawiau y mae Gweinidogion Cymru yn eu cyhoeddi o dan y pŵer hwn. Gallai'r awdurdodau hyn wyro oddi wrth y canllawiau os oeddent wedi pennu ffordd arall o gyflawni'r amcanion. Mewn amgylchiadau o'r fath, byddai'n rhaid i'r awdurdod gyhoeddi manylion y dull amgen o weithredu. Pe na byddai

[18] Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd Lleol, Awdurdodau Tân ac Achub ac Ymddiriedolaethau'r GIG.

Gweinidogion Cymru yn cael eu hargyhoeddi bod y dull o weithredu a gyhoeddwyd yn un mor effeithiol â'r dull sydd wedi'i bennu yn y canllawiau a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru, mae pŵer cyfarwyddo wrth gefn ar gael i Weinidogion Cymru o dan yr opsiwn hwn i fynnu bod awdurdodau'n dilyn y canllawiau. Gallai canllawiau o'r fath ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau perthnasol rannu'r arferion gorau a helpu i hyrwyddo cysondeb a safonau ansawdd uchel ledled Cymru.

## D. <u>Penodi Cynghorydd Gweinidogol – gan gynnwys y Swyddogaethau, Cynlluniau a Threfniadau Adrodd.</u>

### Opsiwn 1 – Gwneud Dim

100. O dan yr opsiwn hwn, ni fyddai rôl arwain benodol yn cael ei chreu i helpu i gyflawni'r amcanion o atal trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol ac amddiffyn a chefnogi dioddefwyr.

### Opsiwn 2 – Cyflwyno Bil Cynulliad i Benodi Comisiynydd

101. Byddai'r opsiwn hwn yn darparu ar gyfer creu a phenodi Comisiynydd i ystyried materion sy'n ymwneud â thrais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. O dan yr opsiwn hwn, byddai angen creu swyddfa i gynorthwyo Comisiynydd annibynnol, gan nad yw strwythur o'r fath yn bodoli ar hyn o bryd. Yn yr un modd ag opsiwn 3, byddai angen deddfwriaeth i greu endid o'r fath.

### Opsiwn 3 – Cyflwyno Bil Cynulliad i osod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i benodi Cynghorydd Gweinidogol

102. Mae'r opsiwn hwn yn golygu creu rôl gynghorol statudol 'Cynghorydd Gweinidogol' i ystyried materion sy'n ymwneud â thrais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. O dan yr opsiwn hwn, nid oes angen swyddfa i gynorthwyo'r Cynghorydd Gweinidogol, gan y byddai'n gweithio ochr yn ochr â'r strwythurau swyddogol presennol yn Llywodraeth Cymru. Mae'r opsiwn hwn yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i benodi Cynghorydd Gweinidogol o'r fath, gan ymgorffori'r rôl mewn statud. Mae'r opsiwn hwn hefyd yn ymgorffori swyddogaethau Cynghorydd Gweinidogol o'r fath mewn statud.

# 8. Costau a Manteision

103. Yn y bennod hon mae dadansoddiad o gostau a manteision yr opsiynau sydd wedi'u disgrifio ym Mhennod 7.

## Costau

104. Ar hyn o bryd mae cyllideb refeniw o £4 miliwn yn 2014/15 gan y Gangen Trais yn erbyn Menywod a Cham-drin Domestig yn Llywodraeth Cymru. Bydd costau rhaglen Llywodraeth Cymru sy'n gysylltiedig â'r Bil hwn yn cael eu diwallu o'r gyllideb hon.

### A. <u>Y Ddyletswydd i Baratoi ac Adrodd ar Strategaethau Cenedlaethol</u>

#### Opsiwn 1 – Gwneud Dim / Parhau i Ddefnyddio Strategaethau Presennol

105. O dan yr opsiwn hwn, ni fyddai'r strategaethau presennol yn cael eu diweddaru na'u disodli, felly nid oes costau ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

106. Roedd y Strategaeth Hawl i fod yn Ddiogel bresennol wedi costio tua £11,100. Mae hyn wedi'i seilio ar un gwas sifil ar Fand Gweithredol 2 (EB2) yn gweithio'n llawn amser ar y strategaeth am gyfnod o 8 wythnos[19]. Bellach, mae'r strategaeth wedi'i chwblhau a chafodd yr adroddiad terfynol ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2014. Diwallwyd y costau am fwrw ymlaen â'r camau gweithredu yn y Strategaeth Hawl i Fod yn Ddiogel o gyllideb refeniw flynyddol y Tîm Trais yn erbyn Menywod a Cham-drin Domestig.

#### Opsiwn 2 – Cynhyrchu Strategaeth Genedlaethol nad yw'n Ddeddfwriaethol

107. Byddai cost i Lywodraeth Cymru am gynhyrchu, cyhoeddi a gweithredu Strategaethau Cenedlaethol newydd ar drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

108. Amcangyfrifwyd mai'r gost staff am gynhyrchu strategaeth yw £11,100. Mae'r ffigur hwn wedi'i seilio ar gost cynhyrchu'r strategaeth bresennol gan dybio bod un gwas sifil EB2 yn gweithio'n llawn amser ar Strategaeth Genedlaethol am gyfnod o 8 wythnos[20].

109. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi sefydlu Grŵp Cynghori Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ac mae rhanddeiliaid allweddol yn aelodau ohono. Nid oes costau uniongyrchol yn gysylltiedig â rhedeg y Grŵp. Amcangyfrifir mai'r gost i Lywodraeth Cymru am ddarparu cymorth ysgrifenyddol

---

[19] Mae costau staff Llywodraeth Cymru yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddio hwn wedi'u seilio ar Gostau Band Cyflog y Tîm Gweithredu Gwasanaethau Canolog. Mae'r gost tâl grynswth yn cynnwys cyflog a chyfraniadau pensiwn ac yswiriant gwladol y cyflogwr.
[20] *Ibid*

i’r Grŵp fydd £1,200. Mae hyn wedi’i seilio ar un gweithiwr Band Rheoli 2 (MB2) yn treulio 8 diwrnod y flwyddyn yn cefnogi’r Grŵp. Cylch gwaith y Grŵp yw cynnal trosolwg o strategaeth Llywodraeth Cymru i fynd i’r afael â phob math o drais yn erbyn menywod (sef y math mwyaf cyffredin o drais ar sail rhywedd), cam-drin domestig a thrais rhywiol. Byddai’r Strategaeth ddrafft newydd yn cael ei chyflwyno i’r Grŵp ei hystyried ac ymgynghori arni, a byddai ymgynghoriad ar-lein ar ôl hynny am 12 wythnos. Gan y byddai’r ymgynghoriad yn cael ei gynnal ar-lein, ni fyddai costau am ddosbarthu neu argraffu. Mae’r gost i Lywodraeth Cymru am ddadansoddi’r ymatebion i’r ymgynghoriad ac unrhyw ail-ddrafftio dilynol wedi’i chynnwys yng nghostau staff EB2 ar gyfer cynhyrchu’r strategaeth a amlinellwyd uchod.

110. Mae’r amcangyfrif o’r gost i Lywodraeth Cymru am fwrw ymlaen â strategaeth newydd wedi’i seilio ar waith amser llawn gan un gwas sifil EB2 (ar gost grynswth o £66,587 y flwyddyn) ar weithredu ac adrodd yn flynyddol ar y strategaeth ac elfennau eraill y Bil, ynghyd â gwaith amser llawn gan un gwas sifil MB2 (ar gost grynswth o £38,731) ar weithredu’r strategaeth ac elfennau eraill y Bil.

111. Felly amcangyfrif o gyfanswm y costau gweinyddol yw £106,518 y flwyddyn. Byddai’r gost hon yn cael ei chynnwys yng nghyllidebau rhaglenni Adrannol presennol Llywodraeth Cymru.

112. Fodd bynnag, mae’n bwysig cofio y byddai’r swyddogaethau a nodir uchod yn gwneud mwy na dim ond gweithredu’r strategaeth. Byddai’r swyddi hyn hefyd yn gyfrifol am gyflwyno elfennau eraill o’r Bil hwn, megis llunio a chyhoeddi adroddiadau; darparu canllawiau a chraffu ar Strategaethau Lleol (elfen B y Bil); llunio, ymgynghori ar, a gweithredu’r canllawiau (elfen C); ymgysylltu â’r Cynghorydd Gweinidogol (elfen D); ac ymgynghori â’r sectorau perthnasol ar y gwaith hwn. Fodd bynnag, gan y bydd y rhan fwyaf o’r gwaith hwn yn rhan o’r Strategaeth Genedlaethol hefyd, mae’n anodd gwahanu’r costau hyn. Mae’r gost a nodir uchod, £106,518 y flwyddyn, yn cynnwys yr holl gyfrifoldebau hyn ac felly ni roddir cyfrif i gostau gweinyddol Llywodraeth Cymru ar wahân ar gyfer elfennau eraill y Bil.

113. Byddai angen i gost gweithredu Strategaeth Genedlaethol gael ei hystyried adeg datblygu. Fel yr amlinellir uchod, byddai Llywodraeth Cymru’n cynnal ymgynghoriad cyhoeddus cyn pennu manylion terfynol Strategaeth Genedlaethol.

114. Mae’r tabl yn dangos y costau gweinyddol crynswth amcangyfrifedig ar gyfer yr opsiwn hwn.

**Tabl 1. Costau Opsiynau 2 (ac Opsiwn 3)**

| | **2014-15** | **2015-16** | **2016-17** | **2017-18** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Llywodraeth Cymru (£)** | | | | | |
| Paratoi Strategaeth Genedlaethol | | 11,100 | | | **11,100** |
| Cefnogi Gweithredu[1] | | 106,500 | 106,500 | 106,500 | **319,500** |
| **Cyfanswm** | | **117,500** | **106,500** | **106,500** | **330,600** |

[1] Mae costau blynyddol parhaus cefnogaeth Llywodraeth Cymru yn cynnwys yr amser i adrodd ar y strategaeth genedlaethol.

### Opsiwn 3 - Cyflwyno Bil Cynulliad i Ymdrin â'r Amcanion Polisi

115. Rhagwelir mai'r un fydd y gost am ddatblygu a gweithredu strategaeth pa un a yw'n statudol neu'n anstatudol. Felly, y costau i Lywodraeth Cymru o dan yr opsiwn hwn yw'r rhai sydd wedi'u nodi yn Nhabl 1.

116. O dan y dewis hwn bydd yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gyhoeddi set o Ddangosyddion Cenedlaethol i fesur y cynnydd a wneir tuag at gyflawni'r amcanion a nodir yn y Strategaeth Genedlaethol yn eu herbyn. Mae'r Rhaglen Lywodraethu bresennol yn cynnwys nifer o ddangosyddion sy'n ymwneud â thrais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol sy'n cael eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd. Nid oes unrhyw gostau ychwanegol felly'n gysylltiedig â gorfod datblygu, cyhoeddi neu ddiweddaru'r dangosyddion hyn.

## B. <u>Y Ddyletswydd i Baratoi ac Adrodd ar Strategaethau Lleol</u>

### Opsiwn 1 – Gwneud Dim

117. Nid oes costau ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn. Fel y nodir uchod, mae nifer o Awdurdodau Lleol eisoes yn rhoi sylw i gam-drin domestig yn eu CISau. Os nad ydynt yn gwneud hyn eisoes, ni fydd rheidrwydd arnynt i wneud o dan yr opsiwn hwn.

### Opsiwn 2 - Defnyddio Deddfwriaeth Bresennol i Gyflwyno Newid

118. Bydd cost i Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol o dan yr opsiwn hwn gan y bydd yn ofynnol iddynt gwblhau Strategaeth Leol ar drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

119. Yr amcangyfrif o'r costau staff ar gyfer creu Strategaeth Leol yw tua £8,300 ar gyfer pob awdurdod lleol. Bydd y gost hon wedi'i rhannu rhwng yr Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Iechyd Lleol ar amcangyfrif o 10% o amser Prif Swyddog Awdurdod Lleol ar bwynt 49 ar raddfa gyflog yr awdurdod (£42,032 y flwyddyn)[21], a 10% o amser Band 7 gweithiwr GIG ar bwynt 34 ar y raddfa gyflog (£40,558 y

[21] O Raddfa Gyflog y Cyd-gyngor Cenedlaethol 2013-2014

flwyddyn)[22]. Mae hyn yn cyfateb i tua £182,600 ar gyfer Cymru gyfan ar sail y nifer presennol o 22 o Awdurdodau Lleol yng Nghymru.

120. Gan fod y gofynion ar gyfer cyhoeddi wedi'u pennu'n barod yn y ddeddfwriaeth berthnasol bresennol, nid yw'r opsiwn hwn yn gosod unrhyw ofynion newydd ar gyfer cyhoeddi ac felly nid oes unrhyw gostau ychwanegol.

121. Rhaid i Awdurdodau Lleol wneud y gwaith hwn yn barod wrth lunio'r CIS y bydd pob un ohonynt yn ei gwblhau, a byddent yn parhau i wneud hyn o dan yr opsiwn hwn. Felly bydd y costau o baratoi a chyhoeddi yn rhan o'u cyllidebau eisoes.

**Opsiwn 3 - Cyflwyno Bil Cynulliad i Ymdrin â'r Amcanion Polisi**

122. Yn yr un modd ag opsiwn 2 byddai costau i Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol gan y byddai'n ofynnol iddynt gwblhau Strategaeth Leol ar drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

123. Hefyd yn yr un modd ag opsiwn 2, yr amcangyfrif o'r costau ar gyfer creu strategaeth yw tua £8,300 ar gyfer pob Awdurdod Lleol, wedi'u rhannu rhwng yr Awdurdod a'r Bwrdd Iechyd Lleol (gweler opsiwn 2). Felly, yr amcangyfrif o gyfanswm y gost ledled Cymru yw tua £182,600 (bob pum mlynedd) ar sail y nifer presennol o 22 o Awdurdodau Lleol yng Nghymru

124. Ym mhob strategaeth, rhaid ystyried yr asesiad diweddaraf o anghenion ar gyfer yr ardal leol. Mae'n ofynnol o dan adran 14 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 fod asesiad o anghenion o'r fath yn cael ei wneud felly ni fydd cost ychwanegol yn deillio o'r Bil hwn o ganlyniad i hyn.

125. Nid yw'r Bil yn pennu'r dull o gyhoeddi'r strategaethau. Ar hyn o bryd, mae Awdurdodau Lleol yn ymgynghori ar eu CISau ac yn eu cyhoeddi ar eu gwefannau, a rhagwelir y byddant yn gwneud yr un modd ar gyfer y Strategaethau Lleol hyn.

126. Bob blwyddyn, bydd yn ofynnol bod yr Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Iechyd Lleol yn llunio adroddiad sy'n disgrifio'r cynnydd a gafwyd tuag at gyflawni'r amcanion sydd yn y Strategaeth Leol. Yr amcangyfrif o'r gost i Awdurdod Lleol a Bwrdd Iechyd Lleol am lunio'r adroddiad hwn yw tua £1,650 y flwyddyn. Mae hyn wedi'i seilio ar 2% o amser Prif Swyddog Awdurdod Lleol ar bwynt 49 ar raddfa gyflog yr awdurdod (£42,032 y flwyddyn)[23] a 2% o amser Band 7 gweithiwr GIG ar bwynt 34 ar y raddfa gyflog (£40,558 y flwyddyn)[24]. Mae hyn yn cyfateb i gost flynyddol o £36,300 ledled Cymru ar sail y nifer presennol o 22 o Awdurdodau Lleol yng Nghymru.

127. Unwaith eto, nid yw'r Bil yn pennu'r dull o gyhoeddi'r adroddiadau a chymerir felly y bydd Awdurdodau Lleol yn cyhoeddi'r adroddiad ar eu gwefan bresennol.

[22] Graddfeydd Cyflog y GIG
[23] O Raddfa Gyflog y Cyd-gyngor Cenedlaethol 2013-2014
[24] Graddfeydd Cyflog y GIG

128. dan yr opsiwn hwn, byddai cost i Lywodraeth Cymru am lunio canllawiau i Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol ar eu strategaethau; am graffu ar yr adroddiadau a strategaethau a geir ganddynt gyda'i gilydd; ac am sicrhau eu bod yn gyson â'r Strategaeth Genedlaethol a'r canllawiau sydd wedi'u gosod gan Lywodraeth Cymru. Byddai'r swyddogaeth hon yn cael ei chyflawni drwy ddefnyddio'r adnoddau presennol yn Llywodraeth Cymru sydd wedi'u costio yn yr is-adran ar baratoi ac adrodd ar y Strategaeth Genedlaethol (mae Tabl Crynodeb 1 yn dangos cost flynyddol yr adnoddau hyn).

129. Mae'r tabl yn dangos crynodeb o'r costau amcangyfrifedig ledled Cymru, ac eithrio Llywodraeth Cymru, am yr opsiwn hwn.

**Tabl 2. Costau Opsiwn 3**

| | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| **Llywodraeth Cymru[1] (£)** | | | | | |
| | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| | | | | | |
| **Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol (£)** | | | | | |
| Paratoi Strategaeth Leol | | 182,600 | 182,600 | | **182,600** |
| Adrodd ar y Strategaeth Leol[2] | | | | 36,300 | **36,300** |
| **Cyfanswm (£)** | **0** | **0** | **182,600** | **36,300** | **218,900** |

[1] Mae'r costau blynyddol parhaus o ran cymorth Llywodraeth Cymru wedi'u cynnwys gyda'r amser i adrodd ar y strategaeth genedlaethol (gweler Tabl 1 hefyd).
[2] Cost flynyddol barhaus am adrodd ar y strategaethau lleol.

**Tabl Crynodeb o Gostau Amcangyfrifedig yr Opsiynau ar gyfer y Ddyletswydd i Baratoi ac Adrodd ar Strategaethau Lleol**

**Tabl 3. Tabl Crynodeb ar gyfer yr Holl Opsiynau**

| **Y Sefydliad sy'n Ysgwyddo Costau** | **Math o Gost** | **Maes Cost** | **Cost (£)** |
|---|---|---|---|
| **Opsiwn 1** | | | |
| Amherthnasol | Amherthnasol | **Cyfanswm** | **0** |
| **Opsiwn 2** | | | |
| Awdurdod Lleol | Paratoi Strategaeth Leol | Costau Staff | 4,200 |
| Bwrdd Iechyd Lleol | | Costau Staff | 4,100 |
| | | Costau Cyhoeddi | 0 |
| | | **Cyfanswm (am bob ALl a BILl)** | **8,300** |
| | | **Cyfanswm (ledled Cymru)** | **182,600** |
| **Opsiwn 3** | | | |
| Awdurdod Lleol | Paratoi Strategaeth Leol (cychwynnol) | Costau Staff | 4,200 |
| Bwrdd Iechyd Lleol | | Costau Staff | 4,100 |
| | | Costau Cyhoeddi | 0 |
| | | **Cyfanswm (am bob ALl a BILl)** | **8,300** |
| | | **Cyfanswm (ledled Cymru)** | **182,600** |
| Awdurdod Lleol | Adrodd ar Strategaeth Leol (y flwyddyn) | Costau Staff | 840 |
| Bwrdd Iechyd Lleol | | Costau Staff | 810 |
| | | Costau Cyhoeddi | 0 |
| | | **Cyfanswm (am bob ALl a BILl)** | **1,650** |
| | | **Cyfanswm (ledled Cymru)** | **36,300** |

## C. Pŵer i wneud Rheoliadau o dan Ddeddf Addysg 1996

### Opsiwn 1 – Gwneud Dim

130. Gan nad yw'r opsiwn hwn yn galw am gyhoeddi gwybodaeth, nid oes costau ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

### Opsiwn 2 – Rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i'w gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol gyhoeddi gwybodaeth ar weithgarwch addysgol yn eu hardaloedd

131. Er bod union gynnwys y Rheoliadau i'w gwneud o dan y ddarpariaeth hon yn destun ymgynghori ac ystyriaeth wedi hynny, bydd cost i Awdurdodau Lleol o

wneud rheoliadau o dan yr opsiwn hwn. Mae hyn oherwydd y bydd gofyn iddynt gyhoeddi gwybodaeth ar y camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r materion hyn yn eu swyddogaethau addysg, gan gynnwys ysgolion. Bydd Asesiad Effaith Rheoleiddiol pellach yn cael ei gynnal adeg gwneud y rheoliadau. Fodd bynnag, gwneir pob ymdrech i gyfyngu'r y baich ychwanegol ar Awdurdodau Lleol drwy ddefnyddio dulliau casglu data cyfredol.

132. Rhagwelir y caiff yr adroddiad blynyddol ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r adroddiad blynyddol ar gyfer y Strategaeth Leol, felly mae'n debygol y bydd y gost ychwanegol yn fach. Er nad oes penderfyniad terfynol ynghylch union gynnwys yr adroddiadau blynyddol, mae cost llunio'r adroddiad blynyddol ar gyfer y Strategaeth Leol yn rhoi syniad da o'r costau posibl. Gan fod yr adroddiad blynyddol yn ymdrin ag ystod ehangach o wybodaeth, defnyddiwyd hanner y costau i Awdurdod Lleol o lunio adroddiad blynyddol at ddibenion dangosol. Amcangyfrifir felly mai'r costau staff ar gyfer casglu'r wybodaeth a chyhoeddi'r adroddiad fydd tua £2,100 fesul ardal leol. Mae'r gost hon yn seiliedig ar amcangyfrif o 5% o amser Prif Swyddog Awdurdod Lleol ar bwynt 49 y gyfradd gyflog (£42,032 y flwyddyn)[25]. Mae hyn yn cyfateb ag oddeutu £46,200 ar gyfer Cymru gyfan ar sail y 22 o Awdurdodau Lleol yng Nghymru.

133. Gan fod y gofynion cyhoeddi eisoes i'w gweld yn y ddeddfwriaeth gyfredol berthnasol, nid yw'r opsiwn hwn yn gosod unrhyw ofynion cyhoeddi ychwanegol, felly nid oes costau ychwanegol.

**Tabl 4. Tabl Crynodeb o'r Holl Opsiynau**

| Y Sefydliad sy'n Ysgwyddo'r Costau | Math o Gost | Maes y Gost | Cost (£) |
|---|---|---|---|
| **Opsiwn 1** | | | |
| Dd/B | Dd/B | **Cyfanswm** | **0** |
| **Opsiwn 2** | | | |
| Awdurdod Lleol | Paratoi adroddiad blynyddol | Costau Staff | 2,100 |
| | | Costau Cyhoeddi | 0 |
| | | **Cyfanswm (fesul ALl)** | **2,100** |
| | | **Cyfanswm (Cymru gyfan)** | **46,200** |

## D. <u>Pŵer i Gyhoeddi Canllawiau Statudol a'r Ddyletswydd i Ddilyn Canllawiau o'r fath</u>

### Opsiwn 1 – Gwneud Dim

134. Gan nad yw'r opsiwn hwn yn galw am lunio unrhyw ganllawiau, nid oes costau yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

[25] O Raddfa Gyflog y Cyd-gyngor Cenedlaethol 2013-2014

**Opsiwn 2 - Defnyddio Canllawiau Anstatudol i Gyflwyno Newid**

135. Y costau sy'n gysylltiedig â'r opsiwn hwn yw'r gost o lunio unrhyw ganllawiau a'r costau am eu gweithredu ar ôl hynny. Mae nifer o agweddau y gallai Llywodraeth Cymru fod am gyhoeddi canllawiau yn eu cylch i helpu awdurdodau i gyflawni'r nodau polisi. Fodd bynnag, nid yw'n glir ar hyn o bryd ar ba agweddau yn union y byddai canllawiau'n cael eu cyhoeddi i awdurdodau. Mae nifer o feysydd allweddol wedi'u crybwyll yn y Papur Gwyn ac mae Llywodraeth Cymru wedi paratoi canllawiau drafft enghreifftiol ar y rhain. Felly mae'r costau isod wedi'u seilio ar y canllawiau drafft enghreifftiol hynny. Cymerir mai'r un yw'r costau sy'n gysylltiedig â chyhoeddi canllawiau anstatudol â'r rhai ar gyfer canllawiau statudol. Mae hyn yn tybio cydymffurfiaeth lawn â chanllawiau anstatudol er mwyn darparu llun cyflawn o'r costau posibl. Byddai Llywodraeth Cymru yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus cyn cyhoeddi canllawiau anstatudol neu statudol.

**Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol**

136. Bydd Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol Cymru ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn ceisio creu safon gofal gyson ar gyfer y rheini sy'n profi effaith trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol a safon gwasanaeth ddibynadwy ym mhob rhan o'r Gwasanaeth Cyhoeddus ar gyfer y grŵp cleientiaid hwn.

137. Bydd chwe lefel yn y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol, pob un ar gyfer cynulleidfa benodol ac yn darparu ar gyfer anghenion y rheini sy'n profi effaith trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a byddant yn cynnwys disgrifiad o'r prif gymwyseddau a gwybodaeth sydd eu hangen ar bob lefel broffesiynol.

138. Mae cost cyfle yn gysylltiedig â'i gwneud yn ofynnol i grwpiau o gyflogeion wneud hyfforddiant – sef yr amser a allai fod wedi'i dreulio fel arall ar weithgareddau eraill sy'n gysylltiedig â swyddi. Er enghraifft, cost cyfle nyrs sy'n cael hyfforddiant o dan elfen Gofyn a Gweithredu'r fframwaith yw'r amser a dreulir yn yr hyfforddiant a allai fod cael ei dreulio fel arall gyda chleifion. Tybir bod gwerth yr amser hwn yn gyfartal â'r cyflog i'r cyflogai/cyflogeion perthnasol.

139. Bydd hyfforddiant **Lefel 1** ar gyfer yr holl staff yn y Gwasanaeth Cyhoeddus[26] ac, yn benodol, y rheini sydd â chyfrifoldebau ar gyfer y cyhoedd. Bydd hyn yn cwmpasu'r gynulleidfa ehangaf a chaiff ei gyflwyno drwy ddull effeithlon, fel e-

[26] Yng nghyd-destyn y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol byddwch cystal â nodi bod Gwasanaeth Cyheddus wedi'i ddiffinio'n ar sail amcangyfrif o 'weithwyr y sector cyhoeddus datganoledig yng Nghymru – gan gynnwys y gwasanaeth sifil datganoledig, yr awdurdodau lleol, iechyd, awdurdodau addysg a Chyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Er nad ydynt wedi'u datganoli, cynhwysir Awdurdodau Heddlu gan eu bod wedi'u hariannu'n rhannol gan Lywodraeth Cymru. Mae 'gweithwyr y sector cyhoeddus datganoledig ' yn hepgor gweision sifil heb eu datganoli (megis y rhai sy'n gweithio i HMRC a DVLA), staff milwrol a phobl sydd wedi'u cyflogi gan Gorfforaethau Cyhoeddus (megis S4C a Bws Caerdydd etc.) yng Nghymru.

ddysgu, er mwyn hybu ymwybyddiaeth o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, ei adnabod a gwybod o ble i gael cymorth. Amcangyfrifwyd y bydd hyn yn galw am wariant untro o £35,000 i Lywodraeth Cymru er mwyn caffael pecyn e-ddysgu a deunyddiau ategol. Bydd hyn yn galw hefyd am amser swyddog ar lefel EB2 i ddatblygu a hyrwyddo defnydd o'r pecyn, monitro'r nifer sy'n ei dderbyn a'r effaith yn y flwyddyn gyntaf. Rhagwelir y bydd angen llai o amser i'w hyrwyddo yn y blynyddoedd ariannol ar ôl hynny. Mae cost amser swyddog ar lefel EB2 wedi'i chynnwys yn yr adnodd amser llawn sydd wedi'i nodi a'i gyfrifo yn Nhabl 1 uchod.

140. Ni fydd angen mwy na thri chwarter awr ar gyfer cwblhau'r pecyn e-ddysgu gan bob dysgwr. Er nad yw'n wariant uniongyrchol, mae cost cyfle yn gysylltiedig ag annog gweithwyr yn y sector cyhoeddus datganoledig yng Nghymru i ymgymryd â'r e-ddysgu hwn. Ar sail ffigur o tua 284,000 am nifer y gweithwyr yn y sector cyhoeddus datganoledig yng Nghymru a chost cyfle gyfartalog o £7 yr hanner awr[27], amcangyfrifwyd mai'r costau cyfle fydd tua £2,982,000 am gwblhau'r pecyn e-ddysgu gan bob aelod o'r Gwasanaeth Cyhoeddus. Cymerwyd y bydd trosiant blynyddol o 10% yn staff y Gwasanaeth Cyhoeddus ac, ar sail hynny, amcangyfrifwyd mai'r costau cyfle i'r Gwasanaeth Cyhoeddus am gwblhau'r pecyn gan staff newydd fydd £298,200 y flwyddyn. Bydd y gost hon yn disgyn ar y sefydliadau Sector Cyhoeddus perthnasol.

141. Bydd hyfforddiant **Lefel 2** ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n dod i gysylltiad yn aml â dioddefwyr posibl (megis bydwragedd) a bydd yn ceisio rhoi iddynt y sgiliau a'r wybodaeth y bydd arnynt eu hangen i gyflawni eu dyletswydd i adnabod arwyddion a symptomau trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol domestig, 'gofyn' cwestiynau amdano a 'gweithredu' ar sail yr ymateb. Er bod yr hyfforddiant hwn hefyd ar gyfer cynulleidfa fawr iawn, cynigir y bydd yr hyfforddiant hwn yn cael ei gyflwyno yn yr ystafell ddosbarth am nifer o resymau:

- I gydnabod bod newid agwedd at drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yr un mor bwysig â datblygu sgiliau ac mai'r ystafell ddosbarth yw'r lle gorau i sicrhau'r newid hwn.
- I gydnabod y bydd y gofyniad i ofyn a gweithredu yn peri pryder i nifer o'r gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â'r gwaith ac i ddarparu amgylchedd dysgu lle y gellir ymchwilio i'r pryderon hyn a'u lleddfu.
- I hwyluso eglurhad trylwyr o'r pwnc a chwalu camsyniadau a rhagfarnau sy'n gysylltiedig â thrais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

142. Mae costau manwl y darpariaethau ar gyfer 'Gofyn a Gweithredu' wedi'u disgrifio ar wahân yn yr adran ddilynol a'u cynnwys mewn tabl ar wahân (gweler Tabl 5). Gan fod yr adran hon yn cynnwys y dadansoddiad llawn o sut y cyfrifwyd y canllawiau hyn, gan gynnwys dadansoddiad blynyddol o'r costau amcangyfrifedig i Lywodraeth Cymru a chostau cyfle i Wasanaethau Cyhoeddus, nid ydynt wedi'u cynnwys yn Nhabl 4 isod. Er hynny, nodir mai cost uniongyrchol

[27] Amcangyfrifwyd gan ddefnyddio data o Arolwg Blynyddol Oriau ac Enillion (ASHE) 2013.

amcangyfrifedig y canllawiau hyn i Lywodraeth Cymru dros flynyddoedd 2014/2015 i 2017/2018 fydd £374,000.

143. Bydd hyfforddiant **Lefel 3** ar gyfer pob gweithiwr proffesiynol sydd â chyfrifoldeb arweiniol ar ran ei broffesiwn (e.e. nyrsys diogelu, bydwragedd arbenigol, gweithwyr cymdeithasol arbenigol, arweinwyr ar ddiogelu mewn ysgolion). Ei nod yw darparu hyfforddiant uwch i'r rheini sy'n cyflawni rôl hanfodol wrth amddiffyn dioddefwyr a phlant a sicrhau bod y gweithwyr proffesiynol hyn yn hyfedr nid yn unig mewn gwaith sy'n canolbwyntio ar y dioddefwr ond hefyd mewn lliniaru'r effaith ar blant a rheoli a chydnabod y risg oddi wrth y camdriniwr – yn enwedig lle y mae'r gweithiwr proffesiynol yn gweithio gyda'r teulu.

144. Rhagwelir y bydd cost hyfforddiant Lefel 3 yn galw am wariant cychwynnol o £26,000 yn ystod 2016-2017 i gaffael pecyn hyfforddi ac i hyfforddi aelodau priodol o'r consortia rhanbarthol i gyflwyno'r hyfforddiant uwch am y prisiau marchnad cyfredol. Yr amcangyfrif o gost amser yr hyfforddwyr y bydd ei angen i gyflwyno'r hyfforddiant hwn yw £12,300 y flwyddyn (cyfanswm o £38,200). Byddai'r ddwy set o gostau'n galw am wariant uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru. Byddai cost ychwanegol o £6,000 yn ystod 2017-2018 yn cynnal grŵp mwy o hyfforddwyr (felly y gost ar gyfer 2017-18 fydd £18,300).

145. Amcangyfrifwyd mai'r gost cyfle sy'n gysylltiedig â'r amser y bydd angen ei dreulio gan broffesiynau y tybir bod yr hyfforddiant hwn yn berthnasol iddynt yw £62,000. Gan nad yw hyn yn gost ariannol uniongyrchol wirioneddol, nid yw'n fwriad y bydd Llywodraeth Cymru yn talu am hyn.

146. Mae hyfforddiant **Lefel 4** yn cynnwys cymwysterau achrededig arbenigol ar gyfer y gweithwyr proffesiynol a fydd yn gyfrifol am gefnogi dioddefwyr ac asesu risgiau a rheoli diogelwch ar eu cyfer (e.e. Cynghorwyr Trais Domestig Annibynnol (IDVA), Cynghorwyr Trais Rhywiol Annibynnol (ISVA), gweithwyr Allgymorth, gweithwyr cymorth fel y bo'r angen, gweithwyr mewn llochesau). Bydd hefyd yn cyfuno'r cyrsiau hyfforddi ad hoc presennol a gynigir ar bynciau arbenigol ledled Cymru mewn cynllun cyson cenedlaethol a fydd ar gael ledled Cymru.

147. Mae pedwar deg wyth o leoedd hyfforddi wedi'u hariannu yn ystod blwyddyn academaidd 2014-2015 am gost o £104,000 i dalu am alw sydd heb ei ddiwallu ar gyfer hyfforddi Cynghorwyr Trais Domestig Annibynnol sy'n gweithio yng Nghymru, er gwaethaf bwrsari presennol y Swyddfa Gartref.

148. Bydd trafodaethau yn parhau gyda Llywodraeth y DU yn dilyn yr Etholiad Cyffredinol i weld beth yw eu cynlluniau at y dyfodol mewn perthynas â'r cynllun bwrsari hwn. Fodd bynnag, yn y cyfamser amcangyfrifwyd y gost flynyddol am gynnal un cwrs hyfforddi ar gyfer Cynghorwyr Trais Domestig Annibynnol ac un cwrs hyfforddi ar gyfer Cynghorwyr Trais Rhywiol Annibynnol (y ddau'n £67,200 yr un ar gyfer 24 o bobl ar sail costau marchnad cyfredol) o flwyddyn ariannol 2016-2017. Mae mwyafrif helaeth y rheini a fydd yn cael yr hyfforddiant wedi'u cyflogi yn y sector elusennol. Cost cyfle sy'n gysylltiedig ag amser y gweithwyr proffesiynol hynny fydd £41,800 y flwyddyn o flwyddyn ariannol 2016-2017.

149. Mae nifer sylweddol o gyrsiau hyfforddi ar gael ledled Cymru ar bynciau sy'n gysylltiedig â thrais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae angen gwaith i gysoni'r cyrsiau hyn, safoni eu cynnwys a sicrhau eu bod ar gael ym mhob rhan o Gymru. Comisiynwyd prosiect ym mlwyddyn ariannol 2014-2015 i gychwyn y gwaith hwn ac ymchwilio i'r opsiynau achredu ar y lefel hon. Cost y prosiect hwn oedd £14,875. Cyfanswm y gwariant ar lefel 4 yn ystod blwyddyn ariannol 2014-2015 yw £119,000.

150. Ar **Lefel 5** cynigir hyfforddiant rheoli arbenigol ar gyfer y rheini sy'n arwain sefydliadau arbenigol i sicrhau y byddant yn cynnal y gweithlu arbenigol yn fwy effeithiol, y byddant yn fwy medrus wrth fonitro data ac y gallant weithio'n hyblyg ac yn effeithiol mewn amgylcheddau comisiynu sy'n newid. Ymhlith y swyddi a fydd wedi'u cynnwys y mae rheolwyr gwasanaethau yn y gymuned a rheolwyr llochesau.

151. Gan ei bod yn rhaglen hyfforddi arbenigol, mae cwmpas yr hyfforddiant ar Lefel 5 yn llai na'r lefelau o'i flaen. Gwariwyd £39,445 ym mlwyddyn ariannol 2014-2015 i hyfforddi ac achredu dau reolwr gwasanaeth arbenigol ym mhob Awdurdod Lleol, a'r gost cyfle am hyn yw oddeutu £16,280. Mae llawer o alw am hyfforddiant o'r fath, felly bydd cyllid pellach yn cael ei ddyrannu i gynnig mwy o hyfforddiant ym mlwyddyn ariannol 2015-2016 (£30,000). Bydd angen ychwanegol am gyfran o amser swyddog ar lefel EB2 i fonitro canlyniad yr hyfforddiant o dan y rhaglen, ac mae'r gost hon wedi'i chyfrifo eisoes yn y ddau adnodd rhaglen amser llawn a nodwyd yn Nhabl 1.

152. Bydd hyfforddiant ar **Lefel 6** yn cynnwys cynllun ymgysylltu strategol, ynghyd â chyfres o ffilmiau byr, sef "y Gyfres Cryfhau Arweinyddiaeth", ar gyfer arweinwyr Gwasanaethau Cyhoeddus i sicrhau eu bod yn deall eu cyfrifoldebau o ran trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol o fewn y gweithlu ac ymhlith defnyddwyr gwasanaethau.

153. Bydd y cynllun ymgysylltu strategol yn cynnwys ymweliadau gan Weinidogion ac uwch-swyddogion, areithiau a chyflwyniadau a rôl y Cynghorydd Gweinidogol. Bydd y cynllun yn defnyddio digwyddiadau, byrddau a grwpiau presennol yn ogystal â chyfleoedd eraill i gynnwys uwch arweinwyr y Gwasanaethau Cyhoeddus a chynhadledd benodol ar gyfer y gynulleidfa hon, a gynhelir yn ystod 2014-2015. Bydd angen gwario swm o £5,000 ar y Gyfres Cryfhau Arweinyddiaeth yn 2014-2015. Bydd hyn yn creu chwe ffilm fer i'w darlledu drwy sianel YouTube Llywodraeth Cymru. Caiff effaith y ffilmiau hyn ei hasesu ym mis Ebrill 2015, ac os byddant yn llwyddiannus bydd angen talu £5,000 y flwyddyn wedi hynny i gefnogi creu adnodd parhaus a chymorth i'r gynulleidfa hon. Darperir cymorth pellach ar gyfer y gwaith hwn gan y ddau adnodd rhaglen amser llawn sydd wedi'u nodi a'u cyfrifo yn Nhabl 1.

154. Amcangyfrifwyd mai cyfanswm y gost ariannol uniongyrchol am ddarparu'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol fydd £568,578 dros bedair blynedd. Bydd Llywodraeth Cymru yn cwrdd â'r gost hon o gyllidebau rhaglenni a Chostau Rhedeg Adrannol. Bydd cost cyfle hefyd i'r Sector Cyhoeddus yng Nghymru a fydd yn dod i gyfanswm o £3,861,888. Gan nad yw hon yn gost ariannol

uniongyrchol, nid yw'n fwriad y bydd Llywodraeth Cymru yn cwrdd â'r gost hon. Mae crynodeb o gostau blynyddol y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol yn Nhabl 5. Mae dadansoddiad manylach yn Atodiad B[28].

[28] Sylwer bod y crynodeb hwn yn cynnwys y gost o gyflwyno hyfforddiant "Gofyn a Gweithredu" sydd hefyd wedi'i dangos yn gost ar wahân yn nes ymlaen yn y ddogfen. Nid yw'r costau hyn wedi'u dyblygu ac, yn ymarferol, cost y canllawiau fydd y gost am baratoi dogfennau canllaw'r Fforymau Amlasiantaethol, ac am eu monitro ar ôl hynny a chostau'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol.

**Tabl 5. Crynodeb o Gostau'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol (amcangyfrif)**

| | 2014-2015 | 2015-2016 | 2016-2017 | 2017-2018 | Cyfanswm i bob lefel hyfforddi |
|---|---|---|---|---|---|
| Costau uniongyrchol i Lywodraeth Cymru (£) | - | - | - | - | - |
| Lefel 1 | 35,000 | 0 | 0 | 0 | 35,000 |
| Lefel 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Lefel 3 | 0 | 0 | 38,229 | 18,229 | 56,458 |
| Lefel 4 | 118,875 | 0 | 134,400 | 134,400 | 387,675 |
| Lefel 5 | 39,445 | 30,000 | 0 | 0 | 69,445 |
| Lefel 6 | 5,000 | 5,000 | 5,000 | 5,000 | 20,000 |
| Cyfanswm y flwyddyn | 99,300 | 5,000 | 177,700 | 157,700 | 568,578 |
| Costau cyfle | | | | | |
| Lefel 1 | - | 2,982,000 | 298,200 | 298,200 | 3,578,400 |
| Lefel 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Lefel 3 | 0 | 0 | 61,444 | 61,444 | 122,288 |
| Lefel 4 | 45,024 | 0 | 41,808 | 41,808 | 128,640 |
| Lefel 5 | 16,280 | 16,280 | 0 | 0 | 32,560 |
| Lefel 6 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyfanswm y flwyddyn | 61,304 | 2,998,280 | 401,152 | 401,152 | 3,861,888 |

[1] Ni chynhwyswyd crynodeb o'r costau ar gyfer lefel 2 y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol yma gan eu bod wedi'u cynnwys yn nes ymlaen yn y ddogfen. Gweler Tabl 5

**Gofyn a Gweithredu**

155. Prif amcan "Gofyn a Gweithredu" yw cymell gweithwyr proffesiynol perthnasol i "ofyn" i ddioddefwyr posibl am y posibilrwydd o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol lle amheuir bod cam-drin o'r fath yn digwydd, a "gweithredu" ar sail hynny er mwyn lleihau neu atal dioddefaint a niwed sy'n digwydd o ganlyniad i drais a cham-drin. Caiff hyn ei hwyluso drwy gyhoeddi canllawiau a bydd rhaglen hyfforddi yn cael ei chyflwyno i gyd-fynd ag ef drwy'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol. Felly mae dwy set o gostau'n gysylltiedig â Gofyn a Gweithredu – y gost o lunio'r canllawiau a'r costau o redeg y rhaglen hyfforddi.

156. Caiff y canllawiau eu datblygu drwy ddefnyddio adnoddau rhaglenni presennol Llywodraeth Cymru. Dylid nodi bod drafftiau cychwynnol y canllawiau wedi'u llunio, a bod hyn wedi'i gostio'n barod yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn o fewn costau adnoddau amser llawn Llywodraeth Cymru o dan yr is-adran ar Baratoi ac Adrodd ar Strategaethau Cenedlaethol (mae Tabl Crynodeb 1 yn dangos y costau blynyddol).

157. Cyflwynir yr hyfforddiant drwy fodel lledaenu rhanbarthol sy'n defnyddio arbenigedd y Gwasanaethau Cyhoeddus ac Arbenigol ar drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, ac ar strwythurau proffesiynau penodol. Bydd pecyn hyfforddi, deunyddiau ategol a chymorth lledaenu yn cael eu caffael: yr amcangyfrif gorau o'r gost hon yw tua £20,000. Bydd darparwr y pecyn hwn yn hyfforddi cronfa genedlaethol o tua 160 o hyfforddwyr yn 2015/16, ar gost o £71,000 i Lywodraeth Cymru. Bydd yr hyfforddwyr hyn yn cael eu dewis ar sail meini prawf penodol a gallent weithio yn y sector cyhoeddus neu'r trydydd sector. Drwy ddefnyddio Consortia Hyfforddi Rhanbarthol, a gaiff eu cynorthwyo a'u monitro drwy Seilwaith Arweinyddiaeth Ranbarthol a Chenedlaethol, o dan oruchwyliaeth y Cynghorydd Gweinidogol a swyddogion Llywodraeth Cymru, bydd y proffesiynau perthnasol yn cael eu hyfforddi gan yr "hyfforddwyr hyfforddedig" hyn ar sail ranbarthol, gyda'r nod o hyfforddi pob proffesiwn perthnasol erbyn 2018.

158. Amcangyfrifwyd felly cyfanswm y gost untro gychwynnol am ledaenu hyfforddiant ar sail ranbarthol i Lywodraeth Cymru fydd £91,000. Mae hyn yn adlewyrchu'r costau marchnad cyfredol am raglenni tebyg a bydd yn cynnwys y gost o lunio'r pecyn hyfforddi gan ddarparwr arbenigol (tua £20,000 fel y nodwyd uchod), a recriwtio a hyfforddi'r garfan gychwynnol o 160 o hyfforddwyr (tua £71,000 fel y nodwyd uchod).

159. Yn ogystal â'r costau a nodir uchod, bydd cost cyfle i sefydliadau yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector sy'n enwebu staff, sy'n gysylltiedig â'r amser mae'r 160 o hyfforddwyr yn ei dreulio i ffwrdd o'u gweithgareddau o ddydd i ddydd. Amcangyfrifir bod y gost untro hwn yn tua £26,000.

160. Ar ôl hyfforddi'r 160 o hyfforddwyr, bydd disgwyl iddynt gyflwyno a lledaenu'r model rhanbarthol. Amcangyfrifir bod cost darparu'r hyfforddiant yn £77,000 y flwyddyn dros y cyfnod 2015-16 i 2017-18. Mae'r gost hon wedi'i chyfrifo ar sail amcangyfrif o'r amser y bydd angen i'r hyfforddwyr hyfforddedig ei dreulio oddi wrth eu swydd arferol. Gan y byddant yn darparu hyfforddiant, mae hyn yn cael ei ystyried yn gost uniongyrchol a'r bwriad felly yw mai Llywodraeth Cymru fydd yn talu'r gost hon.

161. Bydd cost cyfle hefyd yn gysylltiedig â'r amser y bydd angen i'r proffesiynau perthnasol[29] ei dreulio ar dderbyn hyfforddiant Gofyn a Gweithredu. Amcangyfrifir y bydd hyn yn £923,000 y flwyddyn ac mae'r ffigur hwn wedi'i seilio ar gyfradd gyfartalog o £80 y diwrnod ar gyfer pob gweithiwr Gwasanaeth Cyhoeddus wrth gyflwyno'r hyfforddiant dros 3 blynedd (2015-16 i 2017/18) gan ystyried bod tua 34,600 o weithwyr Gwasanaeth Cyhoeddus mewn proffesiynau perthnasol yng Nghymru. Bydd y gost hon yn disgyn ar y sefydliadau Sector Cyhoeddus perthnasol.

162. Mae manteision mawr i'r Model Lledaenu Rhanbarthol arfaethedig: mae'n gwneud defnydd o'r arbenigedd presennol sydd ar gael yn y rhanbarthau ac, o'i reoli, ei fonitro a'i arwain yn briodol, bydd yn fodel cynaliadwy ar gyfer darparu lefelau'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol. Mae safoni'n dod â manteision o ran cost mewn perthynas â modelau gwasanaeth integredig a gwell, a lledaenu gwybodaeth a fydd yn arwain at arbedion costau yn gyffredinol. Er mwyn ei wneud yn gynaliadwy, bydd angen buddsoddi yn y Consortia Rhanbarthol ar ôl y gwariant cychwynnol yn ystod blynyddoedd ariannol 2014-2015 a 2015-2016. Drwy gydol blynyddoedd ariannol 2016-2017 a 2017-2018 bydd y rhaglen "hyfforddi hyfforddwyr" ganolog yn parhau a bydd 50 o hyfforddwyr newydd yn cael eu hyfforddi bob blwyddyn, gan gynnal y Consortia Rhanbarthol a darparu ar gyfer trosiant staff. Amcangyfrifwyd mai'r gost flynyddol am gyflawni hyn fydd £26,000 ac mae hyn yn cynnwys cost camau cyflawni sydd wedi'u caffael yn ganolog. Cymerir na fydd costau cyflawni gan y bydd y pecyn a oedd wedi'i gaffael ym mlwyddyn 2 yn addas ar gyfer hyn. Yn yr un modd â blwyddyn gyntaf y ddarpariaeth, bydd cost cyfle gysylltiedig i sefydliadau yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector am yr amser sydd ei angen i hyfforddi'r 50 o hyfforddwyr. Amcangyfrifwyd y bydd hyn oddeutu £8,000.

163. Nod Gofyn a Gweithredu yw dynodi mwy o'r rheini sy'n profi trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol ac, oherwydd hynny, ystyrir effaith y dynodi cynyddol hwn ar wasanaethau arbenigol a chyhoeddus. Mae'n anodd pennu cost y cynnydd hwn ar hyn o bryd, ond mae ymchwil flaenorol Walby i gostau trais domestig yn awgrymu bod defnydd cynyddol o wasanaethau cyhoeddus i fynd i'r afael â'r materion hyn yn cynyddu cost gwasanaethau. Er hynny, mae hefyd yn cysylltu datblygiad Gwasanaethau Cyhoeddus a defnydd cynyddol ohonynt â gostyngiad mewn trais domestig, ac o ganlyniad i hynny, mae'r costau i fusnes a chymdeithas ehangach trais domestig wedi gostwng.

---

[29] Gweler Atodiad 3 – *Crynodeb o'r 'Gweithwyr Proffesiynol Perthnasol' fel y'u Hamlygir yng Nghostau'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Canllawiau Gofyn a Gweithredu.* Nid yw hon yn rhestr gyflawn ac efallai bydd swyddogaethau eraill y bydd angen hyfforddiant arnynt, yn seiliedig ar angen lleol.

164. Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu nifer o ddarnau o waith ymchwil ar y gwariant lleol manwl presennol ar wasanaethau arbenigol, ac ar gyrhaeddiad a phwrpas y cyllid hwnnw. Bydd y data hyn yn cael eu hystyried wrth bennu Strategaeth Ariannu Genedlaethol Llywodraeth Cymru a hefyd wrth lunio'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a gwblheir cyn cyhoeddi unrhyw ganllawiau statudol neu anstatudol ar Gofyn a Gweithredu ar gyfer ymgynghori. Rhagwelir y bydd cynnydd hefyd yn nifer y cleientiaid sy'n defnyddio gwasanaethau arbenigol a chyhoeddus, gan gynnwys y System Cyfiawnder Troseddol (er y bydd nifer mawr o gleientiaid na fyddant yn dewis datgelu drwy'r System Cyfiawnder Troseddol).

165. Mae'r tabl isod yn dangos crynodeb o'r gost am "Gofyn a Gweithredu".[30]

**Tabl 6. Crynodeb o Gostau Gofyn a Gweithredu**

| | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| **Llywodraeth Cymru (£)** | | | | | |
| Canllawiau[1] | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Hyfforddiant Cychwynnol | | 91,000 | | | **91,000** |
| Model Rhanbarthol | | 77,000 | 77,000 | 77,000 | **231,000** |
| Hyfforddi'r Hyfforddwyr Ychwanegol | | | 26,000 | 26,000 | **52,000** |
| **Cyfanswm** | **0** | **168,000** | **103,000** | **103,000** | **374,000** |
| | | | | | |
| **Gwasanaethau Cyhoeddus[2] (£)** | | | | | |
| Hyfforddwyr Rhanbarthol | | 26,000 | 8,000 | 8,000 | **42,000** |
| Hyfforddeion | | 923,000 | 923,000 | 923,000 | **2,769,000** |
| **Cyfanswm** | **0** | **949,000** | **931,000** | **931,000** | **2,811,000** |

[1]Cynhwysir costau blynyddol parhaus ar gyfer cymorth Llywodraeth Cymru yn yr amser i adrodd ar y strategaeth genedlaethol (gweler Tabl 1)
[2]Mae'r costau hyn yn cynrychioli'r costau sy'n gysylltiedig â staff yn derbyn hyfforddiant felly nid ydynt yn wariant uniongyrchol i Wasanaethau Cyhoeddus.

### Fforymau Amlasiantaeth

166. Bydd canllawiau'r Fforymau Amlasiantaeth yn ffurfioli ac yn safoni'r arferion da a geir ar hyn o bryd ac yn gosod sylfaen ar gyfer datblygu fforymau ychwanegol i asesu risgiau isel a chanolig er mwyn cwrdd ag anghenion lleol.

[30]Sylwer mai'r costau hyn yw'r costau hefyd ar gyfer darparu lefel 2 o'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol (fel y nodir yn yr adran sy'n dilyn). Nid yw'r costau hyn wedi'u dyblygu ac maent wedi'u gwahanu yma er mwyn dangos y gost am bob eitem o gyfarwyddyd. Mae cyfanswm y costau o gynhyrchu'r canllawiau wedi'i gynnwys yn y costau am greu canllawiau'r Fforymau Amlasiantaethol, ac am eu monitro ar ôl hynny a chostau'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol.

167. Ni fydd y canllawiau'n argymell un model ar gyfer gwaith Amlasiantaeth. Fel y nodwyd uchod, fe'u defnyddir i geisio ffurfioli a safoni'r arferion da presennol er mwyn sicrhau ansawdd gwasanaeth cyson ledled Cymru. Mae gwaith amlasiantaeth yn digwydd eisoes ym mhob rhan o Gymru (mae model y Gynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg (MARAC) sy'n ymwneud ag unigolion risg uchel ar waith ledled y wlad) ac, oherwydd hyn, rhagwelir na fydd cost ychwanegol i'r Gwasanaeth Cyhoeddus.

168. Mae arbenigwr allanol ar ddatblygu, gweithredu a sicrhau ansawdd fforymau amlasiantaeth ar gyfer pob lefel o risgiau wedi'i gontractio i baratoi'r canllawiau hyn. Cost y contract hwn oedd £8,400. Cost untro yw hon.

169. Bydd rheolaeth ar y prosiect ac unrhyw waith atodol sydd ei angen yn cael eu darparu o adnoddau Rhaglenni presennol Llywodraeth Cymru. Mae costau'r rhain wedi'u cyfrifo yn y ddau adnodd rhaglen amser llawn sydd wedi'u nodi yn Nhabl 1 uchod gan ei bod yn anodd eu gwahanu.

170. Bydd y Cynghorydd Gweinidogol yn monitro canlyniadau'r Fforymau Amlasiantaeth cenedlaethol yn barhaus.

171. Mae crynodeb o'r costau isod:

**Tabl 7. Crynodeb o Gostau'r Fforymau Amlasiantaeth**

| **Gweithgaredd** | **Cost (£)** |
|---|---:|
| Datblygu canllawiau gan arbenigwr allanol (untro) | 8,400 |
| Cost i Wasanaethau Cyhoeddus | 0 |
| **Cyfanswm y gost untro (2014-2015)** | **8,400** |

**Canllawiau comisiynu**

172. Bydd y canllawiau comisiynu yn rhoi amlinelliad cynhwysfawr o'r ystyriaethau wrth gaffael darpariaeth arbenigol ar gyfer trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

173. Bydd y canllawiau'n cael eu datblygu mewn partneriaeth â Grŵp Gorchwyl a Gorffen o randdeiliaid, gan amlinellu gofynion Llywodraeth Cymru am fodel cyson cenedlaethol ar gyfer darparu gwasanaethau i'r rheini sy'n dioddef waethaf yn sgil trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

174. Amcan cyffredinol y canllawiau yw sicrhau bod anghenion defnyddwyr gwasanaethau o ran atal problemau, diogelu ac adfer yn cael eu hystyried yn gyson o fewn fframwaith sy'n canolbwyntio ar risg ac anghenion. Bydd yn amlinellu pa mor ddefnyddiol yw cyllid ar y cyd sydd wedi'i gydgrynhoi ac egwyddorion darparu ar sail ansawdd, sef strwythur ar gyfer mesur pa ganlyniadau sy'n gweithio i'r rheini sydd wedi dioddef trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a gofynion capasiti ar gyfer darparu gwasanaethau.

175. Bydd adnoddau cyfredol Rhaglen Llywodraeth Cymru yn datblygu canllawiau o’r fath. Mae’r ddau adnodd rhaglen llawn amser yn Nhabl 1 uchod yn cyfrif am gostau’r rhain.

**Canllawiau ar weithio gyda’r cyflawnwyr**

176. Caiff y canllawiau ar weithio gyda’r cyflawnwyr mewn achosion o gam-drin domestig eu datblygu mewn partneriaeth gyda Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol Cymru, a byddant yn destun craffu ehangach gan randdeiliaid mewn gweithdai datblygu.

177. Bydd y canllawiau’n canolbwyntio ar y gweithwyr proffesiynol yn yr awdurdodau perthnasol sy’n dod i gysylltiad ac yn gweithio gyda chyflawnwyr cam-drin domestig yn eu rolau cyffredinol, ac yn rhoi cyfarwyddyd ar arferion strategol, gweithredol a rheng flaen.

178. Nid y bwriad gyda chanllawiau o’r fath yw gofyn i weithwyr awdurdodau lleol roi cymorth arbenigol neu gynnig ymyrraeth ar gyfer cyflawnwyr cam-drin domestig; y nod yw cefnogi’r gweithwyr hon i ymgorffori arferion syml yn eu gwaith er mwyn ystyried yn well y risgiau gan gyflawnwr i deulu a staff, ymateb yn well i’w hanghenion cymorth, ymgysylltu’n fwy effeithiol ag arferion aml-asiantaeth, ac yn y pen draw dwyn cyflawnwyr i gyfrif am eu cam-drin.

179. Bydd adnoddau cyfredol Rhaglen Llywodraeth Cymru yn datblygu canllawiau o’r fath. Mae’r ddau adnodd rhaglen llawn amser yn Nhabl 1 uchod yn cyfrif am gostau’r rhain.

180. Yn ogystal â’r canllawiau, wrth baratoi’r Strategaeth Genedlaethol, bydd angen ystyried y camau y gallai Gweinidogion Cymru eu cymryd i helpu i ddatblygu rhaglenni cyflawnwyr, gan gynnwys datblygu’r sylfaen dystiolaeth. Bydd rôl allweddol i’r Cynghorydd Gweinidogol o ran cynnig y cyngor arbenigol ar y ffordd ymlaen. Bydd y Cynghorydd yn gallu ystyried y ffordd ymlaen i’r Strategaeth Genedlaethol yn y maes hwn, a fyddai felly’n helpu i baratoi Strategaethau Lleol.

181. Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo y tu allan i’r Bil i gefnogi canllawiau o’r fath. Yn ddiweddar, cytunodd Llywodraeth Cymru i ariannu, ar y cyd â Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol Cymru a Heddluoedd Cymru, ddarn mawr o ymchwil i reoli cyflawnyr risg uchel a rheolaidd o gam-drin domestig a thrais rhywiol. Bydd yr ymchwil yn helpu i lywio ymatebion ar y cyd yn y dyfodol i gyflawnwyr ar draws y sectorau cyfiawnder troseddol a chyfiawnder cymdeithasol, ac felly mae disgwyl mawr amdano. Dylid cwblhau’r gwaith ymchwil erbyn mis Rhagfyr 2015. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gweithio gyda’r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol i ddatblygu ymgyrch gyhoeddusrwydd yn benodol i dargedu cyflawnwyr, a’r asiantaethau a’r sefydliadau hynny sy’n gweithio gyda nhw.

**Opsiwn 3 - Cyflwyno Bil Cynulliad i Ymdrin â'r Amcanion Polisi**

182. Yr un yw'r costau sy'n gysylltiedig â'r opsiwn hwn â'r rhai a ddisgrifiwyd yn Opsiwn 2. Yn yr un modd ag Opsiwn 2, mae nifer o agweddau y gallai Llywodraeth Cymru fod am gyhoeddi canllawiau statudol yn eu cylch i helpu awdurdodau i gyflawni'r nodau polisi. Fel y nodwyd hefyd, nid yw'n glir ar hyn o bryd ar ba agweddau yn union y byddai canllawiau'n cael eu cyhoeddi i awdurdodau. Mae nifer o feysydd allweddol wedi'u crybwyll yn yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn ac mae Llywodraeth Cymru wedi paratoi canllawiau drafft enghreifftiol ar y rhain. Felly mae'r costau a ddisgrifiwyd yn opsiwn 2, sydd hefyd yn gymwys i'r opsiwn hwn, wedi'u seilio ar y canllawiau drafft enghreifftiol hynny. Tybir mai'r un yw'r costau sy'n gysylltiedig â chyhoeddi canllawiau statudol â'r rhai ar gyfer canllawiau anstatudol. Byddai Llywodraeth Cymru yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus , gan gynnwys asesiad effaith rheoliadol, cyn cyhoeddi canllawiau anstatudol neu statudol. Mae'r costau gweinyddol i Lywodraeth Cymru, o ran dadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad ac sy'n gysylltiedig â monitro ac adrodd ar weithredu'r canllawiau, wedi'u cynnwys yn y ddau adnodd amser llawn Llywodraeth Cymru sydd wedi'u nodi a'u cyfrifo yn Nhabl 1. Hefyd, byddai'r gwaith o fonitro'r defnydd o'r canllawiau gan Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol yn rhan o rôl y Cynghorydd Gweinidogol sydd wedi'i gostio yn yr adran nesaf yn Nhabl 10.

**Tabl Crynodeb o Gostau Amcangyfrifedig yr Opsiynau ar gyfer y Pŵer i Gyhoeddi Canllawiau a'r Ddyletswydd i Ddilyn Canllawiau o'r Fath**

**Tabl 8. Crynodeb o Gostau'r Holl Opsiynau**

| **Y Sefydliad sy'n Ysgwyddo'r Costau** | **Math o Gost** | **Maes y Gost** | **Cost (£)** |
|---|---|---|---|
| **Opsiwn 1** | | | |
| Dd/B | Dd/B | Dd/B | 0 |
| **Opsiynau 2 a 3** | | | |
| Llywodraeth Cymru | Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol | **Cyfanswm y gwariant dros 4 blynedd** | **568,578** |
| Gwasanaeth Cyhoeddus | | *Costau cyfle dros 4 blynedd (nid gwariant uniongyrchol)* | *4,106,924* |
| Llywodraeth Cymru | Canllawiau Gofyn a Gweithredu | **Cyfanswm y gwariant dros 4 blynedd** | **374,000** |
| Gwasanaeth Cyhoeddus | | *Costau cyfle dros 4 blynedd (nid gwariant uniongyrchol)* | *2,811,000* |
| Llywodraeth Cymru | Canllawiau ar gyfer Fforymau Amlasiantaeth | **Cyfanswm y Gost Gychwynnol** | **8,400** |
| Gwasanaeth Cyhoeddus | | Cyfanswm y Gost | 0 |

## E. Penodi Cynghorydd Gweinidogol – gan gynnwys y Swyddogaethau, Cynlluniau a Threfniadau Adrodd.

**Opsiwn 1 - Gwneud Dim**

183. Nid oes costau ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

**Opsiwn 2 - Penodi Comisiynydd**

184. Mae'r costau sy'n gysylltiedig â sefydlu Comisiynydd i ystyried materion sy'n ymwneud â thrais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn rhai i Lywodraeth Cymru.

185. Rhagwelir mai tua £11,000 fydd y costau am recriwtio o dan yr opsiwn hwn gan fod y swydd o fewn cylch gwaith y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys y gost o hysbysebu'r swydd yn y wasg leol a chenedlaethol, penodi Asesydd Annibynnol i oruchwylio'r broses, sefydlu panel dewis, darparu cymorth gweinyddol drwy gydol y broses a threuliau ymgeiswyr.

186. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn wynebu costau parhaus o ran cyflogau'r Comisiynydd a'i staff cymorth, yn ogystal â chostau swyddfa.

187. Mater i'r Comisiynydd fydd penderfynu ar y strwythur priodol ar gyfer ei dîm cymorth. Fodd bynnag, o gofio cwmpas y gwaith, rhagwelir y byddai gofyn i'r Comisiynydd gael tîm o ddim mwy na 10 o bobl. Mae'n debyg y byddai'r Comisiynydd arfaethedig ar Gaethwasiaeth Fodern y DU yn gymhariaeth resymol, ac amcangyfrifir mai cost y swyddogaeth hon a'r staff cymorth fydd rhwng £300,000 a £500,000. Ar y sail hon, tybir felly y byddai costau staff y Comisiynydd ar gyfer trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn £400,000 y flwyddyn.

188. Byddai costau swyddfa parhaus yr opsiwn Comisiynydd, yn cynnwys eiddo, hyfforddiant, TGCh a chyfathrebu. Ar hyn o bryd, ceir rhywfaint o ansicrwydd am beth allai'r costau hyn fod. Mae Tabl 9 yn rhoi amcangyfrif uchaf ac isaf o'r costau blynyddol posibl wedi'u seilio ar gyfrifon cyhoeddedig Comisiynwyr presennol Llywodraeth Cymru a'r gyfradd pro-rata i adlewyrchu maint disgwyliedig y tîm cymorth. Disgwylir y bydd y gost rhwng £585,000 a £630,000 y flwyddyn.

**Tabl 9. Amcangyfrif o gostau swyddfa blynyddol**

| | **Isaf (£)** | **Uchaf (£)** |
|---|---:|---:|
| Eiddo | 45,000 | 50,000 |
| Costau swyddfa | 40,000 | 50,000 |
| Hyfforddiant | 10,000 | 10,000 |
| Archwilio | 5,000 | 10,000 |
| Cyfathrebu | 20,000 | 25,000 |
| Costau TGCh | 15,000 | 15,000 |
| Rhaglen waith | 35,000 | 50,000 |
| Wrth gefn | 15,000 | 20,000 |
| **Cyfanswm** | **185,000** | **230,000** |

**Tabl 10. Crynodeb o gostau Opsiwn 2**

| | **2014-15** | **2015-16** | **2016-17** | **2017-18** | **Cyfanswm** |
|---|---:|---:|---:|---:|---:|
| **Llywodraeth Cymru (£)** | | | | | |
| Cymorth a monitro[1] | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Recriwtio Comisiynydd | | 11,000 | | | **11,000** |
| Cyflogau'r Comisiynydd a staff[2] | | 400,000 | 400,000 | 400,000 | **1,200,000** |
| Costau swyddfa | | 185,000 - 230,000 | 185,000 - 230,000 | 185,000 - 230,000 | **555,000-690,000** |
| **Cyfanswm** | | **585,000 - 630,000** | **585,000 - 630,000** | **585,000 - 630,000** | **1,766,000 - 1,901,000** |

[1]Mae costau blynyddol parhaus am gymorth Llywodraeth Cymru wedi'u cynnwys yn yr amser i adrodd ar y strategaeth genedlaethol (gweler hefyd Tabl 1).
[2] Costau blynyddol parhaus swydd Comisiynydd a staff swyddfa arall.

**Opsiwn 3 - Cyflwyno Bil Cynulliad i benodi Cynghorydd Gweinidogol**

189. Bydd y costau sy'n gysylltiedig â phenodi Cynghorydd Gweinidogol annibynnol yn rhai i Lywodraeth Cymru. Mae'r costau'n gysylltiedig yn bennaf â chyflog y Cynghorydd ond bydd costau trosiannol hefyd yn gysylltiedig â recriwtio yn yr un modd ag Opsiwn 2.

190. Gan seilio'r amcangyfrif ar ymarfer recriwtio tebyg a gynhaliwyd cyn hyn o dan y broses penodiadau cyhoeddus, rhagwelir mai oddeutu £11,000 fydd y costau am recriwtio a phenodi. Mae hyn yn cynnwys y gost o hysbysebu'r swydd yn y wasg leol a chenedlaethol, penodi Asesydd Annibynnol i oruchwylio'r broses, sefydlu panel dewis, darparu cymorth gweinyddol drwy gydol y broses a threuliau ymgeiswyr.

191. Bydd Llywodraeth Cymru am ddenu ymgeiswyr sydd â phrofiad ac arbenigedd addas i roi cyngor ar sail gwybodaeth i Weinidogion Cymru fel y byddant yn gallu gosod yr agenda a datblygu polisi yn y sectorau hyn. Bydd angen i'r Cynghorydd Gweinidogol gydweithio'n hyderus â Gweinidogion ac uwch-swyddogion yn holl adrannau Llywodraeth Cymru. Felly, er nad yw'n swydd yn y gwasanaeth sifil, fe aseswyd y rôl i bennu lefel cyflog, gan ystyried gofynion y rôl. Bydd costau cyflog blynyddol y Cynghorydd Gweinidogol yn cael eu cynnwys yng nghyllideb rhaglen adrannol Llywodraeth Cymru, a bydd y cyflog o fewn Band Gweithredol 1 (Gradd 6) ar raddfa gyflog Llywodraeth Cymru, a'r cyflog cyfartalog blynyddol yn £58,000. Ar ôl cynnwys argostau (gan gynnwys cyfraniadau Yswiriant Gwladol a chostau pensiwn a TG), mae'r gost yn dod i tua £75,000 y flwyddyn. Fodd bynnag, byddai'r rôl yn cael ei chyflawni yn un o swyddfeydd Llywodraeth Cymru, felly ni fydd angen cyfleusterau swyddfa ychwanegol, a bydd staff Llywodraeth Cymru yn rhoi cymorth gweinyddol fel na fydd angen adnoddau ychwanegol (y rhain yw'r ddau adnodd rhaglen amser llawn sydd wedi'u nodi yn Nhabl 1).

192. Rhagwelir y bydd gweddill y gost yn cynnwys costau teithio a chynhaliaeth sy'n gysylltiedig â swyddogaethau a dyletswyddau'r Cynghorydd Gweinidogol.

193. Mae'r tabl yn dangos crynodeb o'r costau amcangyfrifedig ar gyfer penodi Cynghorydd Gweinidogol.

**Tabl 11. Crynodeb o gostau Opsiwn 3**

| | **2014-15** | **2015-16** | **2016-17** | **2017-18** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Llywodraeth Cymru (£)** | | | | | |
| Cymorth a monitro[1] | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Recriwtio Cynghorydd Gweinidogol | | 11,000 | | | **11,000** |
| Cynghorydd Gweinidogol[2] | | 81,500 | 81,500 | 81,500 | **244,500** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | | **92,500** | **81,500** | **81,500** | **255,500** |

[1] Mae costau blynyddol parhaus am gymorth Llywodraeth Cymru wedi'u cynnwys yn yr amser i adrodd ar y strategaeth genedlaethol (gweler hefyd Tabl 1).
[2] Costau blynyddol parhaus swydd Cynghorydd Gweinidogol.

194. Unwaith eto, mae'r amcangyfrif hwn o'r costau wedi'i seilio ar waith amser llawn gan y Cynghorydd Gweinidogol ar faterion sy'n ymwneud â thrais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, felly y rhain yw'r costau uchaf posibl. Ni phenderfynwyd eto a oes angen rôl ran-amser ac, os oes, pa mor aml y byddai'n cael ei chyflawni.

**Crynodeb o Gostau ar gyfer Deddfwriaeth**

195. Mae'r tabl isod yn dangos crynodeb o'r costau ychwanegol o ddeddfu i gyflawni'r nodau polisi ar gyfer rhoi terfyn ar drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae'r tabl yn rhoi sylw i'r costau dros y pedair blynedd nesaf oherwydd dyma'r cyfnod amser a bennwyd yn y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol, ond bydd rhai o'r costau hyn yn gostau blynyddol parhaus (fel y nodir yn y tabl). Cymerwyd y costau o rannau eraill o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

**Tabl 12. Crynodeb o gostau ychwanegol y ddeddfwriaeth**

| | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| **Llywodraeth Cymru (£)** | | | | | |
| Paratoi Strategaeth Genedlaethol | | 11,100 | | | **11,100** |
| Cefnogi gweithredu[1] | | 106,500 | 106,500 | 106,500 | **319,500** |
| Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol | 199,000 | 5,000 | 177,700 | 157,700 | **568,600** |
| Gofyn a Gweithredu | | 168,000 | 103,000 | 103,000 | **374,000** |
| Canllawiau i'r Fforymau Amlasiantaeth | 8,400 | | | | **8,400** |
| Recriwtio Cynghorydd Gweinidogol | | 11,000 | | | **11,000** |
| Cynghorydd Gweinidogol[2] | | 81,500 | 81,500 | 81,500 | **244,500** |
| **Cyfanswm (£)** | **106,300** | **383,100** | **468,700** | **448,700** | **1,406,800** |
| | | | | | |
| **Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol (£)** | | | | | |
| Paratoi Strategaeth Leol | | | 182,600 | | **182,600** |
| Adrodd ar y Strategaeth Leol[3] | | | | 36,300 | **36,300** |
| **Cyfanswm (£)** | **0** | **0** | **182,600** | **36,300** | **218,900** |
| | | | | | |
| **Y Sector Cyhoeddus a'r Trydydd Sector (costau cyfle)[4] (£)** | | | | | |
| Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol | 2,990,140 | 314,480 | 401,152 | 401,152 | **2,800,100** |
| Gofyn a Gweithredu | | 949,000 | 931,000 | 931,000 | **2,811,000** |
| **Cyfanswm (£)** | **1,996,100** | **1,147,800** | **1,233,600** | **1,233,600** | **5,611,100** |

[1] Mae costau blynyddol parhaus am gymorth Llywodraeth Cymru wedi'u cynnwys yn yr amser i adrodd ar y strategaeth genedlaethol (gweler hefyd Tabl 1).
[2] Costau blynyddol parhaus swydd y Cynghorydd Gweinidogol.
[3] Costau blynyddol parhaus am adrodd ar y strategaethau lleol.
[4] Mae'r costau hyn yn cynrychioli'r costau cyfle sy'n gysylltiedig â staff yn derbyn hyfforddiant a gallant gynnwys Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol

## Manteision

196. Mae'r polisïau a ystyrir yn yr RIA hwn yn ymwneud â darparu gwybodaeth a sicrhau bod arweinyddiaeth a strategaethau priodol yn eu lle i geisio rhoi terfyn ar drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Ni fu modd darganfod effaith bosibl y cynigion ar nifer y digwyddiadau o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig neu drais rhywiol yng Nghymru ac o ganlyniad, ni fu modd gosod gwerth ar y manteision a gysylltir â'r cynigion. Am y rheswm hwn, rhaid i unrhyw benderfyniad fod yn seiliedig ar ystyriaethau mwy cyffredinol.

197. Mae ystyriaethau o'r fath yn cynnwys y posibilrwydd y byddai diffyg sail statudol yn ei gwneud yn fwy tebygol y byddai rhai cyrff yn methu â mabwysiadu strategaethau arferion gorau yn y maes hwn. Gallai fod canlyniadau andwyol i hyn, ond mae natur y posibilrwydd hwn yn golygu nad yw'n ymarferol rhoi tebygolrwydd meintiol iddo ar sail tystiolaeth wrthrychol. Mae profiad ehangach, er hynny, yn awgrymu ar draws meysydd polisi bod y siawns y bydd cyrff cyhoeddus yn methu â mabwysiadu arferion gorau ymhell o fod yn ddibwys. O gofio costau gweddol isel a difrifoldeb posibl y canlyniadau andwyol yn yr achos presennol, gellir amddiffyn penderfyniad i fynd ati ar sail statudol yn y cyd-destun hwn.

### A. <u>Y Ddyletswydd i Baratoi ac Adrodd ar Strategaethau Cenedlaethol</u>

### Opsiwn 1 - Gwneud Dim / Parhau i Ddefnyddio Strategaethau Presennol

198. Fel y nodwyd yn yr adran ar gostau uchod, ni fyddai'r opsiwn hwn yn galw am ddefnyddio mwy o adnoddau o ran amser a chostau gan Lywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol na Byrddau Iechyd Lleol. Fodd bynnag, ni fyddai'n cyflawni'r nod polisi o hyrwyddo arweinyddiaeth genedlaethol, atebolrwydd a chydlyniaeth ar y lefel genedlaethol i ymdrin â materion sy'n ymwneud â thrais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

199. Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio strategaethau ynghylch trais yn erbyn menywod (sef y math mwyaf cyffredin o drais ar sail rhywedd) a cham-drin domestig er 2005. Y diweddaraf yw 'Strategaeth yr Hawl i fod yn Ddiogel' a gyhoeddwyd yn 2010 yr adroddir arni'n flynyddol[31]. Mae 'Strategaeth yr Hawl i fod yn Ddiogel' i'w chwblhau yn 2014 ac felly ni fyddai Strategaeth Genedlaethol gyffredinol ar waith wrth ddilyn yr opsiwn hwn. Fodd bynnag, mae angen o hyd am ddarparu arweinyddiaeth genedlaethol gryf a chyfeiriad strategol clir, yn ogystal â gweithredu ar sail polisi a thystiolaeth newydd yn y meysydd hyn.

[31] http://wales.gov.uk/topics/people-and-communities/safety/domestic-abuse/publications/besafe/?skip=1&lang=cy

### Opsiwn 2 - Cyhoeddi strategaeth nad yw'n ddeddfwriaethol

200. Fel y nodwyd yn opsiwn 1, mae Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn cyflawni strategaethau sydd heb fod yn ddeddfwriaethol sy'n ymdrin â thrais yn erbyn menywod a cham-drin domestig, gan gynnwys 'Strategaeth yr Hawl i fod yn Ddiogel' a gyhoeddwyd yn 2010, felly nid oes manteision newydd yn yr opsiwn hwn heblaw dileu'r angen a'r gost am lunio deddfwriaeth newydd.

201. Byddai Strategaeth Genedlaethol newydd, wedi'i diweddaru, o'r math hwn yn gallu cwmpasu agweddau ychwanegol sydd heb eu cynnwys mewn strategaethau presennol, fel anffurfio organau cenhedlu benywod a phriodas dan orfod, a gallai gynnwys camau i gyflawni'r nodau polisi, a darparu cymorth i ddatblygu a gweithredu Strategaethau Lleol yn llwyddiannus. Fodd bynnag, ni fyddai'r opsiwn hwn yn brawf mor gryf o ymrwymiad ac arweiniad parhaus Llywodraeth Cymru wrth ymdrin â'r materion hyn. Ni fyddai dull o weithredu heb ddeddfu yn ymgorffori'r ymrwymiad i fabwysiadu Strategaeth Genedlaethol mewn statud. Hefyd, gellid ystyried bod camau i fabwysiadu Strategaeth Genedlaethol heb ddeddfu yn anghyson â dull deddfwriaethol ar lefel leol. Gallai hyn arwain yn ei dro at beidio ag ystyried bod y Strategaeth Genedlaethol yn un sy'n pennu'r cyfeiriad ar gyfer Strategaethau Lleol.

### Opsiwn 3 - Cyflwyno Bil Cynulliad i Ymdrin â'r Amcanion Polisi

202. Bydd gofyniad mewn deddfwriaeth i fabwysiadu Strategaeth Genedlaethol yn brawf clir o arweinyddiaeth Llywodraeth Cymru a'i hymrwymiad i fynd i'r afael â thrais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar gyfer y Llywodraeth hon a Llywodraethau'r dyfodol. Byddai Strategaeth Genedlaethol o'r fath yn gosod cyfeiriad strategol clir ar y lefel uchaf a byddai o gymorth i ddatblygu a gweithredu Strategaethau Lleol yn llwyddiannus.

203. Yn yr un modd ag opsiwn 2, gellid defnyddio Strategaeth Genedlaethol hefyd i geisio sicrhau bod Strategaethau Lleol yn cael eu harwain a'u hategu gan y dull cenedlaethol o ymdrin â thrais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mantais yr opsiwn hwn yw, os bydd y ddwy strategaeth yn ofyniad statudol, y bydd y ddwy'n dilyn diben cyffredin sydd wedi'i bennu yn y ddeddfwriaeth, a byddai hyn yn creu dull mwy cydlynol o weithredu. Byddai hyn yn helpu i gyflawni'r nod polisi o sicrhau ystyriaeth gyson i fecanweithiau ataliol, amddiffynnol a chefnogol wrth gyflenwi gwasanaethau.

204. Dangoswyd y budd o gael arweinyddiaeth gref yn yr Adroddiad ar 10,000 o Fywydau Mwy Diogel[32]. Nodwyd yn yr Adroddiad fod y prosiect wedi arwain at newidiadau effeithiol ar draws gwasanaethau'r sector cyhoeddus lle'r oedd cam-drin domestig yn fater strategol i'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol.

### Yr opsiwn a ffefrir

[32] *Prosiect 10,000 o Fywydau Mwy Diogel – Gwella'r ffordd y mae gwasanaethau cyhoeddus yn atal cam-drin domestig, Llywodraeth Cymru, Ebrill 2012.*

205. Yr opsiwn a ffefrir yw opsiwn 3 - Cyflwyno Bil Cynulliad i Ymdrin â’r Amcanion Polisi.

206. Bydd yr opsiwn hwn yn helpu i gyflawni’r amcanion polisi yn ogystal â chodi proffil trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Nghymru. Ar lefel strategol, bydd yn gosod cyfeiriad strategol clir, gan hyrwyddo cysondeb a’r arferion gorau wrth ymdrin â’r materion hyn ledled Cymru.

## B. <u>Y Ddyletswydd i Baratoi, Cyhoeddi ac Adrodd ar Strategaethau Lleol</u>

### Opsiwn 1 – Gwneud Dim

207. Nid oes manteision newydd yn yr opsiwn hwn gan na fydd yn newid y ffordd y mae Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol yn ystyried ac yn ymdrin â materion sy’n ymwneud â thrais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar hyn o bryd.

208. Cryfder y dull presennol o weithredu yw bod amrywiaeth eang o wasanaethau a chymorth arloesol sy’n adlewyrchu blaenoriaethau lleol. Fodd bynnag, heb drosolwg strategol clir, gall hyn arwain at beidio â rhannu’r arferion gorau ac at ddiffyg cysondeb a safonau amrywiol wrth ddarparu gwasanaethau. Fel y nodwyd ym Mhennod 7, y CIS yw’r brif ddogfen gynllunio strategol sydd gan yr Awdurdod Lleol ar hyn o bryd ac felly, o dan y ddeddfwriaeth bresennol, yn y ddogfen hon y byddai’n cynnwys unrhyw strategaethau sydd ganddo ar y pryd ynghylch trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Gan nad oes gofyniad statudol ar hyn o bryd i fabwysiadu strategaeth o’r fath, gall hyn arwain at ystyriaeth annigonol i’r materion hyn ar y cam cynllunio strategol.

209. Ni fyddai’r opsiwn hwn yn canolbwyntio’n glir ar drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar y lefel strategol, er mwyn sicrhau bod y materion hyn yn cael eu hystyried wrth gyflenwi gwasanaethau. Felly ni fyddai’n cyflawni’r nod polisi cyffredinol o wella ymateb y sector cyhoeddus datganoledig yng Nghymru i drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

### Opsiwn 2 - Defnyddio Deddfwriaeth Bresennol i Gyflwyno Newid

210. Mae Awdurdodau Lleol o dan nifer o ddyletswyddau statudol ar hyn o bryd mewn cysylltiad â datblygu cynlluniau a strategaethau. Mae Gweinidogion Cymru wedi cyhoeddi canllawiau (Cydamcanu – Cydymdrechu (Penodau 2, 3, 5 ac Atodiad A)) ar lunio cynlluniau a threfniadau, monitro ac adolygu camau cyflawni, a gofynion deddfwriaethol y dyletswyddau statudol presennol ar gyfer cynllunio[33]. Mantais yr opsiwn hwn yw, drwy wneud rheoliadau o dan ddeddfwriaeth bresennol i bennu bod ystyriaeth i'w rhoi i drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, y byddai'n hawdd ei chynnwys yn y dull presennol o baratoi'r strategaethau hynny.

211. Er hynny, mae'r opsiwn hwn yn golygu defnyddio rheoliadau o dan nifer o Ddeddfau presennol, gan nad oes unrhyw Ddeddf benodol a fyddai'n darparu'n llawn ar ei phen ei hun ar gyfer cyflawni'r nodau polisi. Nid yw gweithredu fesul tipyn fel hyn yn debygol o gyflawni'r amcan polisi o ganolbwyntio'n strategol ar y materion hyn, oherwydd gallai'r amcan fynd ar goll yng nghyd-destun y gofynion deddfwriaethol ehangach yn y Deddfau presennol hyn.

212. Nid yw'r opsiwn hwn yn dangos ychwaith y pwys y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi ar fynd i'r afael â thrais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar lefel Genedlaethol a lefel Leol.

### Opsiwn 3 - Cyflwyno Bil Cynulliad i Ymdrin â'r Amcanion Polisi

213. Y fantais o osod dyletswydd benodol ar Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol i fabwysiadu Strategaeth Leol i fynd i'r afael â thrais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yw ei bod yn sicrhau bod y materion hyn yn cael eu hystyried drwy'r broses cynllunio strategol. Bydd hyn yn sicrhau arweinyddiaeth ac atebolrwydd ar gyfer ymdrin â'r materion hyn ar lefel leol. Bydd hyn wedyn yn codi proffil y materion hyn ar draws y sector cyhoeddus drwy sicrhau bod mecanweithiau ar gael i hyrwyddo ystyriaeth i'r materion hyn wrth gyflenwi gwasanaethau gan arwain, yn ei dro, at ymyriadau cynharach. Un fantais ychwanegol o gael gofyniad statudol yw y bydd yn gosod diben cyson i'w ddilyn mewn strategaethau mewn cysylltiad ag atal, amddiffyn a chefnogi.

214. Fel y nodwyd o'r blaen, y sefyllfa bresennol o ran Strategaethau Awdurdodau Lleol yw eu bod yn cael eu cyhoeddi'n rhan o'u CISau a'r dadansoddiadau o anghenion sy'n eu hategu (gweler Pennod 7). Fodd bynnag, nid yw pob un ohonynt yn ymdrin â materion sy'n ymwneud â thrais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol gan nad oes gofyniad statudol penodol i wneud hynny. Gall hyn arwain at ystyriaeth anfoddhaol i'r materion hyn ar y cam cynllunio strategol ac at dargedu gwasanaethau mewn ffordd annigonol.

[33] Mae'r canllawiau wedi'u cyhoeddi o dan a45 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, a40(7)(b) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, a25(8) o Ddeddf Plant 2004 ac a12 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010.

215. Mae'r rhan fwyaf o'r dadansoddiadau o anghenion a gyhoeddwyd yn cynnwys rhywfaint o ystyriaeth i achosion a gofnodwyd o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol (ac, yn y cyd-destun hwn, cam-drin domestig yw'r mater a ystyrir gan amlaf). Fodd bynnag, nid yw hyn yn cael ei wneud mewn ffordd gyson gan fod gwahanol awdurdodau'n defnyddio gwahanol setiau data (mae rhai'n defnyddio data'r heddlu, rhai'n defnyddio atgyfeiriadau at ddarparwyr gwasanaethau ayb.). Mae'r materion hyn wedi'u hystyried yn y dadansoddiadau o anghenion ar gyfer cynlluniau diweddar ond nid yw hyn yn arwain bob tro at eu cynnwys yn y cynllun ei hun, hyd yn oed os nodwyd bod nifer yr achosion wedi cynyddu.

216. Mantais yr opsiwn hwn a'r nod o osod dyletswydd statudol ar Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol (ar y cyd) yw y bydd yn ymdrin yn benodol â'r diffyg hwn drwy sicrhau eu bod yn rhoi ystyriaeth ar y cyd i drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol drwy'r broses cynllunio strategol.

217. Mae tystiolaeth a gyflwynwyd yn Adroddiad Llywodraeth Cymru ar y prosiect 10,000 o Fywydau Mwy Diogel[34] yn dangos pa mor bwysig yw cyfeiriad strategol ac arweinyddiaeth wrth ymdrin â'r materion hyn. Nodwyd yn yr Adroddiad fod y prosiect wedi arwain at newidiadau effeithiol ar draws gwasanaethau'r sector cyhoeddus lle'r oedd cam-drin domestig yn fater strategol i'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol. Mae dulliau llwyddiannus o fynd i'r afael â thrais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn cael eu cysylltu ag ymatebion amlasiantaeth sy'n sicrhau bod gwasanaethau ac arbenigedd yr asiantaethau sy'n bartneriaid yn cael eu cynnwys wrth ddatblygu Strategaethau Lleol effeithiol.

### Yr opsiwn a ffefrir

218. Yr opsiwn a ffefrir yw opsiwn 3 - Cyflwyno Bil Cynulliad i Ymdrin â'r Amcanion Polisi.

219. Byddai'r opsiwn hwn yn cyflawni'r nodau polisi drwy sicrhau bod Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol yn canolbwyntio'n strategol ar drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn eu hardal leol, ac yn codi proffil y materion hyn ledled Cymru.

## C. Pŵer i wneud Rheoliadau o dan Ddeddf Addysg 1996

### Opsiwn 1 – Gwneud Dim

220. Ni fydd yr opsiwn hwn yn cyflawni'r nod polisi o wella'r trefniadau ar gyfer atal trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Nghymru.

[34] *Prosiect 10,000 o Fywydau Mwy Diogel – Gwella'r ffordd y mae gwasanaethau cyhoeddus yn atal cam-drin domestig, Llywodraeth Cymru,* Ebrill 2012.

**Opsiwn 2 – Rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud Rheoliadau i'w gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol gyhoeddi gwybodaeth am weithgarwch addysgol yn eu hardaloedd**

221. Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys diwygio Deddf Addysg 1996 i ganiatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i'w gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol gyhoeddi gwybodaeth am y ffordd y maent yn mynd i'r afael â'r materion hyn yn eu swyddogaethau addysg, gan gynnwys ysgolion. Bydd yr opsiwn hwn felly'n rhoi darlun cynhwysfawr i Weinidogion Cymru a'r Cynghorydd Gweinidogol o'r ymyriadau sydd ar waith ledled Cymru a'r dystiolaeth a fydd yn sail i ofynion pellach yn y dyfodol.

222. Mantais yr opsiwn hwn yw y bydd yn cynnig sylfaen gadarn o dystiolaeth i sicrhau y caiff Awdurdodau Lleol eu dwyn i gyfrif am y camau sy'n cael eu cymryd yn eu hardaloedd, a fydd yn helpu i ddatblygu a gwella arferion a Strategaethau Lleol.

**<u>D. Pŵer i Gyhoeddi Canllawiau Statudol a'r Ddyletswydd i Ddilyn Canllawiau o'r fath</u>**

223. Ni fydd yr opsiwn hwn yn cyflawni'r nod polisi o wella cysondeb, ansawdd a chydgysylltu wrth ddarparu gwasanaethau yng Nghymru.

**Opsiwn 2 - Defnyddio Canllawiau Anstatudol i Gyflwyno Newid**

224. O dan yr opsiwn hwn, cyhoeddir canllawiau anstatudol ar gyfer Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd Lleol, Awdurdodau Tân ac Achub ac Ymddiriedolaethau GIG ar drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

225. Wrth ddefnyddio canllawiau anstatudol, ni fyddai'n ofynnol bod yr awdurdodau perthnasol yn dilyn y canllawiau ac, felly, gallent ddewis peidio â'u dilyn. Oherwydd hyn, mae'n bosibl na sicrheir y manteision penodol o gael canllawiau cyson ar yr agweddau penodol sydd wedi'u disgrifio isod.

226. Fel y nodwyd yn yr adran ar gostau, nid yw'n glir ar hyn o bryd ar ba agweddau yn union y byddai canllawiau'n cael eu cyhoeddi i awdurdodau. Mae nifer o feysydd allweddol wedi'u crybwyll yn yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn ac mae Llywodraeth Cymru wedi paratoi canllawiau drafft enghreifftiol ar y rhain. Felly mae'r manteision isod wedi'u seilio ar y canllawiau drafft enghreifftiol hynny. Bydd yn ofynnol bod Llywodraeth Cymru yn ymgynghori â pha bersonau bynnag sy'n briodol yn ei barn hi cyn cyhoeddi canllawiau o dan y Bil.

227. Y manteision o gyflwyno'r canllawiau yn unol â'r adran ar gostau yw:

**Canllawiau ar y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol**

228. Mae'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol yn cael ei ddatblygu er mwyn hybu dull cyson o hyfforddi ledled Cymru i ymdrin â thrais ar sail rhywedd, cam-drin

domestig a thrais rhywiol. Mae manteision mawr i'r model lledaenu rhanbarthol arfaethedig. Mae'n gwneud defnydd o'r arbenigedd presennol sydd ar gael yn y rhanbarthau ac, o'i reoli, ei fonitro a'i arwain yn briodol, bydd yn fodel cynaliadwy ar gyfer darparu lefelau'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol.

229. Y manteision o gyflwyno'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol yw:

- creu safon gofal sy'n gyson a dibynadwy ym mhob rhan o Wasanaeth Cyhoeddus Cymru ar gyfer y rheini sy'n profi effeithiau trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol drwy fframwaith hyfforddiant a chymhwysedd sydd wedi'i safoni'n genedlaethol ac wrth wneud hynny;

- cyfuno amrywiaeth o raglenni hyfforddi (sy'n amrywio o hyfforddiant sylfaenol i hybu ymwybyddiaeth ymhlith gweithlu'r Gwasanaeth Cyhoeddus cyfan i hyfforddiant sy'n ymwneud â rolau penodol ac ymgysylltu strategol ag arweinwyr) yn un adnodd sy'n cael ei ariannu a'i reoli'n ganolog.

## Gofyn a Gweithredu

230. Prif amcan Gofyn a Gweithredu yw ei gwneud yn ofynnol bod gweithwyr proffesiynol perthnasol yn holi dioddefwyr posibl am y posibilrwydd o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol mewn amgylchiadau penodol, a gweithredu ar sail hynny er mwyn lleihau dioddefaint a niwed sy'n digwydd o ganlyniad i drais a cham-drin.

231. Mae Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru yn chwarae rhan hanfodol drwy gynorthwyo cleientiaid i ddatgelu achosion o gam-drin a chryfhau'r gwasanaethau ar eu cyfer. Mae angen dull mwy cyson o adnabod dioddefwyr, asesu risg ac atgyfeirio at wasanaethau priodol ledled Cymru.

232. Ar hyn o bryd, nid yw Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru yn dilyn protocolau rheolaidd neu gyson i adnabod achosion o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, i ymateb yn briodol i'r risgiau y mae pobl yn eu hwynebu, i'r effaith ar iechyd, i brofiad eu plant neu i atgyfeirio dioddefwyr at wasanaethau cymorth arbenigol. Oherwydd hyn, nid yw pobl sy'n dioddef yng nghyswllt y materion hyn yn cael eu hadnabod mewn llawer o achosion a byddant yn methu â derbyn gwasanaethau hanfodol sydd ar gael iddynt drwy Wasanaeth Cyhoeddus Cymru a'r sector arbenigol.

233. Mae holi cleifion am gam-drin mewn rhai lleoliadau gofal iechyd arbenigol yn cael ei ystyried yn arfer da gan weithwyr proffesiynol yn y meysydd hynny[35]. Mae'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) a Sefydliad Iechyd y Byd[36] yn argymell defnyddio system o holi wedi'i dargedu (neu holi clinigol) ar draws gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol er mwyn adnabod achosion o gam-drin a thrais domestig, ac ymateb iddynt.

[35] NICE (2014)
[36] Canllawiau Sefydliad Iechyd y Byd ar ymateb i drais personol gan bartneriaid a thrais rhywiol yn erbyn menywod

234. Felly byddai darparu canllawiau i hybu dull gweithredu o'r fath yn arwain at y canlynol:

- mwy o hyder ar ran gweithwyr proffesiynol wrth adnabod a delio'n briodol ag achosion o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a hefyd wrth adnabod anghenion cymhleth eraill sy'n ymwneud â materion fel iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau;

- mwy o atgyfeiriadau ac ymyriadau ar gyfer y rheini sydd wedi'u hadnabod a fydd yn darparu cymorth arbenigol wedi'i seilio ar risg ac anghenion y cleient;

- ymgysylltu rhagweithiol, yn y pen draw, ar draws Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru â'r rheini sy'n agored i niwed a heb eu hadnabod, ar y cyfle cyntaf, yn hytrach nag ymgysylltu adweithiol yn unig pan fo argyfwng;

- creu diwylliant ar draws Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru lle y mae'r profiad o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn faes busnes cydnabyddedig a lle y mae datgelu'n cael ei hybu, ei dderbyn a'i hwyluso.

235. Fel y nodwyd yn yr adran ar gostau, mae'n bosibl y bydd cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau ac ymyriadau yn arwain at fwy o alw ac felly at fwy o gost i Wasanaethau Cyhoeddus. Fodd bynnag, mae'r gost gynyddol hon yn cael ei gwrthbwyso gan y gostyngiad yng nghost y cynnyrch economaidd a gollir a'r gostyngiad yn y costau dynol ac emosiynol sy'n deillio o'r materion hyn.[37] Hefyd mae'r gostyngiad yn nifer yr achosion o drais domestig wedi'i briodoli'n rhannol i ddatblygiad Gwasanaethau Cyhoeddus a'r defnydd cynyddol ohonynt.

236. Mae gwaith ymchwil blaenorol yn awgrymu y bydd gwaith gwell o fewn y Gwasanaeth Cyhoeddus yn creu gostyngiad yng nghyfanswm y gost o drais domestig dros gyfnod cymharol fyr a fydd yn fwy na'r costau o gael nifer mwy o ddatgeliadau. Roedd adroddiad diweddaru Walby[38] yn 2009 (ar ei hymchwil yn 2004) yn dangos bod cyfanswm y gost o drais domestig wedi gostwng £23 biliwn i tua £16 biliwn y flwyddyn a bod y gostyngiad hwn wedi digwydd yn rhannol o ganlyniad i ddatblygu Gwasanaethau Cyhoeddus a'r defnydd cynyddol ohonynt. Daeth i'r casgliad bod buddsoddi mewn Gwasanaethau Cyhoeddus i leihau trais domestig yn gost-effeithiol.

**Canllawiau Fforymau Amlasiantaeth**

---

[37] Mae hefyd yn debygol bod yr amcangyfrif hwn o'r gostyngiad yn rhy fach gan ei fod yn ymwneud â thrais domestig yn unig ac nid mathau eraill o drais ar sail rhywedd fel trais rhywiol, Priodas dan Orfod neu Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod.

[38] *Walby, S., The Cost of Domestic Violence: Up-date 2009.*

237. Yn aml bydd nifer o anghenion gwahanol gan y rheini sy'n profi trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol sy'n galw am gyfres o ymyriadau gan wasanaethau amrywiol.

238. Mae nifer o enghreifftiau eisoes o Fforymau Amlasiantaeth sy'n gweithredu'n effeithiol ar sylfaen dystiolaeth gadarn. Fodd bynnag, ni fydd holl aelodau perthnasol y Gwasanaeth Cyhoeddus yn cymryd rhan yn gyson ym mhob un o'r Fforymau, ac nid ydynt bob amser yn cael atgyfeiriadau oddi wrth y gwasanaethau hynny. Bydd y canllawiau'n disgrifio sut y bydd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cydweithio â Fforymau Amlasiantaeth er mwyn:

- cynyddu diogelwch y rheini sy'n profi effeithiau trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol;
- cynyddu diogelwch plant sy'n byw lle y mae trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol;
- dal y cyflawnwyr yn atebol am eu gweithredoedd;
- creu strategaethau atal effeithiol.

239. Dangoswyd bod ymateb amlasiantaeth cryf i'r rheini sy'n profi trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn gwella diogelwch y dioddefwyr, bod angen cynnwys nifer o asiantaethau a bod cysylltiad uniongyrchol rhwng nifer yr ymyriadau a gynigir i bob cleient a'i ddiogelwch ar ôl ymyriadau[39].

240. Yn syml, mae'r dystiolaeth yn dangos mai po fwyaf o wasanaethau ac ymyriadau a gyd-drefnir ar ran y dioddefwr, mwyaf tebygol yw hi y bydd y cam-drin y mae'n ei brofi'n dod i ben[40]. Dangoswyd hefyd nad gwasanaethau arbenigol yn unig y mae ar ddioddefwyr eu hangen, ond 'model diogelwch parhaus' i ddiwallu'r nifer mawr o anghenion sy'n datblygu yn ystod y cyfnod o gam-drin.[41] Nifer bach iawn o ddioddefwyr sy'n hysbysu'r heddlu a nifer llai byth sy'n cymryd camau drwy'r System Cyfiawnder Troseddol. Er bod ymateb cymunedol cydgysylltiedig yn sicrhau bod y System Cyfiawnder Troseddol yn diwallu anghenion yr holl ddioddefwyr sy'n ei defnyddio, mae'n cydnabod hefyd nad yw ond yn un agwedd ar ddull cydgysylltiedig ac effeithiol o weithredu. Mae gwasanaethau Iechyd, Gwasanaethau Plant, Gwasanaethau Diogelu Oedolion Agored i Niwed, Addysg a Thai, yn ogystal â'r nifer mawr o asiantaethau gwirfoddol sy'n aml yn darparu cymorth arbenigol yn y maes hwn, yn hollbwysig er mwyn sicrhau ymateb effeithiol i drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

241. Y manteision o gyflwyno canllawiau ar Fforymau Amlasiantaeth yw:

---

[39] Howarth, E, et al., A, *Safety in Numbers: A Multi-Site Evaluation of Independent Domestic Violence Advisor Services,* Tachwedd 2009. http://www.caada.org.uk/policy/research-and-evaluation.html Cafwyd gwybodaeth gan Gynghorwyr Trais Domestig Annibynnol mewn 7 gwasanaeth mewn lleoliadau trefol, maestrefol a gwledig. Casglwyd gwybodaeth oddi wrth 2567 o ddioddefwyr yn y pwynt atgyfeirio ac oddi wrth 1247 ar derfyn y gwaith achos neu ar ôl 4 mis, pa un bynnag oedd gyntaf.

[40] I*bid*

[41] *Ibid*

- ffurfioli'r gyd-ddealltwriaeth sefydledig mai ymateb amlasiantaeth cydgysylltiedig yw'r unig ffordd effeithiol o ymateb i risgiau ac anghenion y rheini sy'n profi effeithiau trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol[42];

- cynnal proses y profwyd ei bod yn effeithiol o ran delio â thrais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, gwella canlyniadau i ddioddefwyr o ran diogelwch a lles, a chyfrannu at atal cam-drin, a'i bod yn cynnig manteision o ran cost.[43]

**Opsiwn 3 - Cyflwyno Bil Cynulliad i Ymdrin â'r Amcanion Polisi**

242. O dan yr opsiwn hwn, bydd y Bil yn darparu ar gyfer cyhoeddi canllawiau statudol i Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd Lleol, Awdurdodau Tân ac Achub ac Ymddiriedolaethau GIG ar drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

243. Credir mai hwn yw'r mecanwaith mwyaf priodol a nodwyd ar gyfer darparu canllawiau ar agweddau fel hybu ymwybyddiaeth drwy addysg gyhoeddus, Gofyn a Gweithredu, hyfforddi staff, cydweithio amlasiantaeth a rhannu gwybodaeth.

244. Fel y nodwyd o'r blaen, nid yw'n glir ar hyn o bryd ar ba agweddau yn union y byddai canllawiau'n cael eu cyhoeddi i awdurdodau. Mae nifer o feysydd allweddol wedi'u crybwyll yn y Papur Gwyn ac mae Llywodraeth Cymru wedi paratoi canllawiau drafft enghreifftiol ar y rhain. Bydd y manteision penodol sy'n ymwneud â'r canllawiau drafft enghreifftiol a nodwyd o dan opsiwn 2 uchod yn gymwys hefyd i'r opsiwn hwn. Byddai Llywodraeth Cymru yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus cyn cyhoeddi canllawiau anstatudol neu statudol.

245. Yn ogystal â'r manteision a ddisgrifiwyd yn opsiwn 2, mantais ychwanegol yr opsiwn hwn yw y bydd dyletswydd ar yr awdurdodau perthnasol i ddilyn y canllawiau. Yr unig ffordd i awdurdod wyro oddi wrth y canllawiau fyddai drwy iddo bennu ffordd arall o gyflawni'r amcanion. Mewn amgylchiadau o'r fath, byddai'n rhaid i'r awdurdod gyhoeddi manylion y dull amgen o weithredu. Pe na byddai Gweinidogion Cymru yn cael eu hargyhoeddi bod y dull hwn o weithredu'n briodol, mae pŵer cyfarwyddo wrth gefn ar gael i Weinidogion Cymru o dan yr opsiwn hwn i fynnu bod awdurdodau'n dilyn y canllawiau. Felly mae hyn yn rhoi pwysigrwydd sylweddol i unrhyw ganllawiau a gyhoeddir o dan yr opsiwn hwn.

246. Bydd canllawiau o'r fath yn ei gwneud yn ofynnol rhoi arferion gorau ar waith ac yn helpu i hyrwyddo cysondeb a safonau ansawdd uchel ledled Cymru.

---

[42] *Coordinated Community Response Model Online Toolkit:* http://www.ccrm.org.uk/

[43] *A Place of Greater Safety* – CAADA (2012). Mae'r gwasanaethau risg uchel ar draws y DU yn costio £70m i'w rhedeg ar hyn o bryd, ac am bob £1 a werir, caiff £2.90 ei arbed.

**Yr Opsiwn a Ffefrir**

247. Yr opsiwn a ffefrir yw opsiwn 3 - Cyflwyno Bil Cynulliad i Ymdrin â'r Amcanion Polisi

248. Byddai'r opsiwn hwn yn cyfrannu at gyflawni'r amcanion polisi drwy ddarparu cysondeb a sicrhau bod yr arferion gorau ar gyfer delio â'r materion hyn yn cael eu hyrwyddo ledled Cymru.

**E. Penodi Cynghorydd Gweinidogol – gan gynnwys y Swyddogaethau, Cynlluniau a Threfniadau Adrodd.**

**Opsiwn 1 – Gwneud Dim**

249. Nid oes manteision ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

**Opsiwn 2 - Penodi Comisiynydd**

250. Cafwyd cefnogaeth gyffredinol gan randdeiliaid mewn ymateb i'r Papur Gwyn drwy ymatebion ysgrifenedig ac yn y digwyddiadau ymgynghori o blaid cymryd camau gan Lywodraeth Cymru i ddelio â bylchau mewn arweinyddiaeth ar y lefel genedlaethol a'r lefel leol. Roedd nifer bach o randdeiliaid wedi dadlau o blaid sefydlu 'Hyrwyddwr' neu 'Gomisiynydd' i sicrhau bod yr holl wasanaethau ac asiantaethau'n cyrraedd safon ansawdd. Roedd dau ddeg pump o'r 124 a atebodd y cwestiwn yn uniongyrchol wedi galw am greu Comisiynydd.

251. Un o'r manteision mewn rôl o'r fath, a awgrymwyd gan randdeiliaid, yw y gallai helpu i sicrhau bod trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn dod yn flaenoriaeth ar draws y sector cyhoeddus. Gallai'r rôl fod yn allweddol hefyd drwy gynnig barn arbenigol er mwyn helpu i ddatblygu a gweithredu Strategaeth Genedlaethol gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, gellir cynnwys yr elfennau hyn yn rôl arfaethedig y Cynghorydd Gweinidogol.

252. Fodd bynnag, byddai sefydlu Comisiynydd a chanddo bwerau trosolwg, fel yr oedd rhai ymatebwyr i'r ymgynghoriad am weld, yn galw am sefydlu Swyddfa Comisiynydd annibynnol. Gan nad oes strwythurau ar gael ar hyn o bryd i gynnal Swyddfa o'r fath, byddai hyn yn galw am sefydlu endid hollol newydd ynghyd â'r staff cymorth angenrheidiol. Mae'r gost am sefydlu endid o'r fath yn ormodol ac yn anghymesur â'r nodau polisi. Gan ystyried cylch gwaith penodol y swydd, mae modelau tebyg, fel un y Comisiynydd Plant yn Lloegr, yn costio mwy nag £1.4 miliwn y flwyddyn. Amcangyfrifir y bydd costau blynyddol y Comisiynydd arfaethedig ar gyfer Caethwasiaeth Fodern, ei staff cymorth a'r gweithgareddau rhwng £300,000 a £500,000.

253. Ar ôl ystyried y costau gormodol, y sail resymegol mewn polisi i rôl o'r fath yw y bydd yn cryfhau arweinyddiaeth ac atebolrwydd strategol. Er mwyn hybu'r Strategaethau Cenedlaethol a lleol, bydd angen cydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru. Felly nid oes angen rôl gwbl annibynnol i gyflawni'r

amcanion polisi. Nid oes angen cyflawni swyddogaethau eraill sydd wedi'u cynnig gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad drwy'r rôl hon, er enghraifft ystyried a chynrychioli achosion penodol, gan nad yw hyn yn rhoi'r trosolwg strategol sydd ei angen. Mae hefyd yn tresmasu ar rolau presennol eraill, fel un Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

**Opsiwn 3 - Cyflwyno Bil Cynulliad i Benodi Cynghorydd Gweinidogol**

254. Roedd yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn yn cynnig creu 'Cynghorydd Gweinidogol Annibynnol'. Roedd y swydd hon wedi'i chynnig fel un annibynnol, heb staff na swyddfeydd, a fyddai'n cydweithio'n uniongyrchol â Gweinidogion Cymru.

255. Roedd ymatebwyr wedi croesawu'r cynnig i greu swydd Cynghorydd Gweinidogol, ac roedd 95 (o'r 124 a atebodd y cwestiwn yn uniongyrchol) yn cytuno â'r bwriad i greu'r rôl a'i swyddogaethau arfaethedig.

256. Yn yr un modd ag opsiwn 2, y prif fanteision o benodi i rôl arwain fel un y Cynghorydd Gweinidogol yw:

- annog yr holl wasanaethau ac asiantaethau i gyrraedd safon ansawdd, hybu cydgysylltu gwasanaethau, monitro perfformiad, rhannu gwybodaeth a chasglu data;

- cynnig barn arbenigol i helpu i ddatblygu a gweithredu'r Strategaeth Genedlaethol. Byddai arbenigedd y Cynghorydd Gweinidogol yn hanfodol i hyrwyddo'r amcanion a nodir yn y Strategaeth Genedlaethol ar draws Llywodraeth Cymru. Y bwriad yw sicrhau bod y profiad ac arbenigedd yn dylanwadu ar bob rhan o Lywodraeth Cymru gan helpu i ddatblygu polisïau a phenderfyniadau mwy cyson a chydlynol.

- darparu canolbwynt i sicrhau bod camau i ddelio â thrais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn flaenoriaeth ar draws y sector cyhoeddus.

- ymdrin â materion sy'n ymwneud â diffyg cydlyniant strategol, diffyg cysondeb wrth weithredu a diffyg arweinyddiaeth ar y lefel Leol a'r lefel Genedlaethol yng Nghymru (a oedd wedi'u nodi yn Adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ac wedi'u cydnabod yn y Papur Gwyn);

- hybu a rhannu arferion da yn y dulliau o ddelio â thrais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

257. Yn ogystal â hyn, mae penodi'r Cynghorydd drwy gyfrwng Bil Cynulliad yn golygu y gellir ychwanegu swyddogaethau statudol mwy penodol at y rôl i sicrhau eu bod yn cyflawni nodau'r polisi. Er enghraifft, byddai'r rôl yn helpu Gweinidogion Cymru i hybu ymwybyddiaeth o'r materion sy'n gysylltiedig â delio â thrais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

258. Byddai dyletswydd ar y Cynghorydd i adrodd i Weinidogion Cymru ar amlder penodedig i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Weinidogion Cymru am faterion yn y maes hwn. Byddai deiliad y swydd yn adrodd yn uniongyrchol i Weinidogion ar gynnydd ar gyflawni diben y Ddeddf i wella trefniadau ar gyfer atal trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol ac amddiffyn dioddefwyr pawb y mae cam-drin a thrais o'r fath yn effeithio arnynt.

259. Yn olaf, mae angen creu rôl cynghori statudol, a benodir gan Weinidogion Cymru, i sicrhau perchenogaeth ar y mater hwn ar lefel strategol. Mae ymdrin â materion sy'n ymwneud â thrais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn fater cymhleth ac mae gwahanol asiantaethau'n gysylltiedig ag ef. Er hynny, nid oes asiantaeth sydd â chyfrifoldeb arweiniol am y mater hwn yng Nghymru ar hyn o bryd.

260. Disgrifiwyd y manteision o gael rôl arwain o'r fath yn yr Adroddiad ar 10,000 o Fywydau Mwy Diogel[44] ac roedd adroddiad Robinson[45] , a gydnabu fod bwlch arweinyddiaeth mewn perthynas â cham-drin domestig a materion mwy cyffredinol sy'n ymwneud â thrais yn erbyn menywod (y math mwyaf cyffredin o drais ar sail rhywedd) a thrais rhywiol. Fel y nododd Robinson et al. yn eu casgliad:

> *"Mae dirfawr angen arweinyddiaeth oherwydd mae tystiolaeth o arfer da ond nid oes unrhyw un ar lefel uwch i gymryd cyfrifoldeb am sefydlu hyn ledled Cymru. Mae angen arweinyddiaeth oherwydd mae llawer o'r materion yn rhai sensitif, annymunol na chânt eu dwyn i sylw gweithwyr proffesiynol rheng flaen na'r rhan fwyaf o ddinasyddion. Mae arweinyddiaeth yn hanfodol i drosi polisïau a strategaethau yn fathau o wasanaethau a fydd yn gwneud gwahaniaeth ar lawr gwlad, drwy gynllunio effeithiol, cefnogi gweithwyr proffesiynol rheng flaen a sicrhau bod digon o adnoddau ganddynt. I gloi, mae angen arweinyddiaeth oherwydd rhaid i ymrwymiad Llywodraeth Cymru yn y maes hwn, fel y nododd y fenter ddeddfwriaethol hon, arwain at raglen newid effeithiol a chynaliadwy."*

[44] Llywodraeth Cymru, *Prosiect 10,000 o Fywydau Mwy Diogel: Adroddiad Terfynol* (Ebrill, 2012)
[45] Robinson, A., Brisbane, J., Farrar, J., Hardy, P., Jones, B., Pickles, J., a Shepherd, J*.,* '*Bil Rhoi Terfyn ar Drais yn Erbyn Menywod a Cham-drin Domestig (Cymru)' arfaethedig Llywodraeth Cymru: Argymhellion o'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen (*24 Awst, 2012)

**Yr Opsiwn a Ffefrir**

261. Yr opsiwn a ffefrir yw opsiwn 3 - Cyflwyno Bil Cynulliad i Benodi Cynghorydd Gweinidogol.

262. Mae angen creu rôl cynghori statudol, a benodir gan Weinidogion Cymru, i sicrhau perchenogaeth ar y mater hwn ar lefel strategol. Byddai'r rôl hefyd yn ceisio gwella'r cydweithio ar lefel weithredol, o fewn ac ar draws adrannau llywodraeth ac yn y strwythurau rhanbarthol sydd wedi'u nodi**.**

263. Oherwydd natur drawsbynciol y maes polisi hwn, barnwyd mai ymgorffori'r rôl mewn statud oedd y ffordd orau o gyflawni'r amcan polisi allweddol o sicrhau bod y materion hyn yn rhan o fusnes craidd y Sector Cyhoeddus cyfan. Cyflawnir hyn drwy ddeddfwriaeth a fydd yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i benodi Cynghorydd o'r fath. Byddai'r Cynghorydd yn helpu Gweinidogion Cymru i ddatblygu unrhyw bolisi sy'n effeithio ar y materion hyn.

264. Hefyd, drwy ymgorffori'r rôl mewn statud, bydd gan y Cynghorydd yr awdurdod a'r hygrededd sydd eu hangen i gydweithio ag Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd Lleol a rhanddeiliaid allweddol eraill i sicrhau bod y dyletswyddau eraill yn y Bil yn cael eu cyflawni'n effeithiol. Drwy greu swydd o'r fath mewn deddfwriaeth, bydd modd addasu'r rôl ar gyfer y dyfodol gan gydnabod yr angen am ymrwymiad polisi a chynllunio hirdymor i ddelio â'r materion hyn.

## Crynodeb

**Yr Opsiwn Cyffredinol a Ffefrir**

265. Cyflwyno Bil Cynulliad i Ddarparu ar gyfer y Nodau Polisi uchod.

266. Amcan cyffredinol y Bil yw gwella ymateb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru i drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Y bwriad yw y bydd yn canolbwyntio'n strategol ar y materion hyn ac yn sicrhau ystyriaeth gyson i fecanweithiau ataliol, amddiffynnol a chefnogol wrth gyflenwi gwasanaethau.

267. Mae trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn faterion sy'n guddiedig o hyd, a'r graddau y maent yn digwydd heb gael ei ddwyn i sylw'r cyhoedd am gyfnod rhy hir. Yn ogystal â'r manteision sydd wedi'u nodi ar gyfer opsiwn 3 o dan bob un o'r prif nodau polisi, y fantais gyffredinol yw y bydd y Bil yn cynnwys, am y tro cyntaf mewn un lle, fframwaith deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer ymdrin â materion sy'n ymwneud â thrais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Nghymru drwy eu hatal ac amddiffyn a chefnogi dioddefwyr. Mae hefyd yn rhoi'r grym deddfwriaethol i sicrhau na fydd y meysydd hyn yn mynd yn ddisylw yn y dyfodol.

268. Yn olaf, o ran manteision a chostau, fel y dangoswyd yn Rhan 1 o'r Memorandwm Esboniadol hwn, mae'r canlyniadau dinistriol i'r unigolyn a'r teulu

o drais domestig wedi'u mesur gan Sylvia Walby[46]. Mae amcangyfrifon a seilir ar boblogaeth sy'n cael eu cymhwyso i adroddiad Walby yn awgrymu mai £303.5m yw cost trais domestig i Gymru bob blwyddyn - £202.6m mewn costau gwasanaethau a £100.9m i allbwn economaidd sy'n cael ei golli. Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys unrhyw elfen o gostau dynol ac emosiynol, sydd yn ôl yr ymchwil yn costio £522.9m[47] ychwanegol i Gymru. Mae hyn yn rhoi cyfanswm ffigur o £826.4m. Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys mathau eraill o drais ar sail rhywedd neu drais rhywiol - sydd hefyd yn arwain at gostau sylweddol, dynol, emosiynol ac ariannol i gymdeithas. Mae Walby yn dadlau, yn seiliedig ar gostau ariannol sylweddol cam-drin domestig i'r economi, bod y buddsoddiad ychwanegol mewn gwasanaethau cyhoeddus i leihau trais domestig yn gost-effeithiol.

269. Yn ôl yr amcangyfrif, costau ychwanegol y Bil hwn yw rhwng £1.1 miliwn a £2.2 miliwn y flwyddyn yn ystod y pedair blynedd ariannol nesaf (2015-16 i 2018-19). Mae angen gosod y costau hyn yng nghyd-destun yr amcangyfrif o gost flynyddol cam-drin domestig yng Nghymru (a nodir uchod). Er na fu modd meintioli'r manteision a gysylltir â'r cynigion hyn, mae'n dilyn mai dim ond effaith weddol fach y byddai angen ei gweld yn nifer a/neu ddifrifoldeb achosion o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig neu drais rhywiol i fanteision y cynigion fod yn drech na'r costau ychwanegol.

[46] Walby, S., *The Cost of Domestic Violence: Up-date 2009.*
[47] Gweler paragraff 11

# 9. Adolygu ar ôl gweithredu

270. Prif nod polisi Llywodraeth Cymru yn y maes hwn yw lleihau trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae'r Bil yn cefnogi'r nod hwn drwy geisio cael gwell ymateb gan y Sector Cyhoeddus i drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Prif nodau'r Bil yw gwella’r trefniadau i :

i) hyrwyddo ymwybyddiaeth o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, ac atal, amddiffyn a chefnogi'r dioddefwyr;
ii) cryfhau'r arweinyddiaeth strategol a'r atebolrwydd am drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol; a
iii) gwella cysondeb, ansawdd a chydgysylltedd darparu gwasanaethau yng Nghymru.

271. Yn ein strategaeth genedlaethol byddwn yn monitro cynnydd trwy gyfrwng cyfres o Ddangosyddion Cenedlaethol:

272. Yn unol â'r trefniadau ar gyfer monitro'r prosiect 10,000 o Fywydau Diogelach, dynodir amrediad o fesurau i fonitro cynnydd yn erbyn y polisi hwn. Gellir rhannu'r rhain yn ddwy brif gyfres:

- **Dangosyddion poblogaeth** sy'n helpu i fesur i ba raddau y sicrheir canlyniad ac i roi cyd-destun. Nodweddir y gyfres hon gan gytundeb a pherchenogaeth. Cydnabyddir na ellir galw'r un sefydliad unigol i gyfrif am sicrhau canlyniadau fel “mae pobl yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel”. Mae'n annhebygol felly y gallwn ddisgwyl newid amlwg mewn dangosyddion poblogaeth y gellir ei briodoli'n uniongyrchol i gynlluniau dan arweiniad Llywodraeth Cymru neu a noddir ganddi, yn enwedig yn y tymor byr. Er hynny, mae gan Lywodraeth Cymru a'r partneriaid y mae'n eu noddi i gyd ran i'w chwarae a gall y gweithgaredd hwn gael effaith ar duedd dangosydd poblogaeth, ynghyd â llawer o sefydliadau a ffactorau eraill.

- **Mesurau perfformiad** fel mesur o faint a wneir, pa mor dda y mae rhaglen, asiantaeth neu system wasanaethau'n gweithio ac, yn allweddol, a oes unrhyw un yn elwa o ganlyniad. Mae'r dull hwn yn ein galluogi i alw partneriaid i gyfrif am beth y maent wedi cytuno i'w ddarparu o ran polisïau, gwasanaethau a rhaglenni unigol a fydd yn gwneud gwahaniaeth i'w poblogaeth o gleientiaid.

273. Sylweddolir bod asesu'r polisi'n heriol. At ei gilydd mae'n debygol y bydd yn anodd dirnad canlyniadau mesuredig yn niffyg sefyllfa wrthffeithiol (sef amcangyfrif o beth fyddai wedi digwydd oni bai am wahanol ymyriadau). Er hynny, gellir gwerthuso gweithredu drwy werthusiadau proses. Mae'r math hwn o werthusiad yn ceisio deall y broses o weithredu a gwireddu'r polisi, a bydd yn cynnwys asesiadau o'i effeithiolrwydd. Mae cynigion ar gyfer fframwaith gwerthuso'n cael eu datblygu.

## RHAN 3 – DOLENNI AT ASESIADAU EFFAITH

274. Isod darperir y dolenni at yr asesiadau effaith canlynol sydd wedi cael eu cwblhau mewn perthynas â’r Bil ac sydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru os oes angen gwybodaeth bellach am y meysydd hyn:

**Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb**

**Asesiad o’r Effaith ar Hawliau Plant**

**Asesiad o’r Effaith ar Breifatrwydd**

**Asesiad o’r Effaith ar y Gymraeg**

**Asesiad o’r Effaith ar Ddatblygu Cynaliadwy**

**Asesiad o’r Effaith ar yr Hidlydd Asesu Cystadleuaeth**

**Asesiad o’r Effaith ar Brawfesur Polisïau Gwledig**

http://wales.gov.uk/legislation/programme/assemblybills/domestic-abuse/?lang=cy

# BIL TRAIS YN ERBYN MENYWOD, CAM-DRIN DOMESTIG A THRAIS RHYWIOL (CYMRU)

---

## NODIADAU ESBONIADOL

### CYFLWYNIAD

1. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn yn ymwneud â'r Bil Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) a gyflwynwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 30 Mehefin 2014.

2. Maent wedi cael eu paratoi gan yr Adran Llywodraeth Leol a Chymunedau yn Llywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo'r sawl sy'n darllen y Bil ac er mwyn helpu i lywio'r drafodaeth yn ei gylch. Nid ydynt yn rhan o'r Bil ac nid ydynt wedi cael eu cymeradwyo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

3. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Bil. Nid ydynt wedi'u bwriadu i fod yn ddisgrifiad cynhwysfawr o'r Bil. Felly, pan ymddengys nad oes angen unrhyw esboniad na sylw ar adran neu ran o adran, ni chaiff un ei roi.

### CEFNDIR

4. Yn gryno, mae'r Bil yn gwneud darpariaeth i'w gwneud yn ofynnol i strategaethau cenedlaethol a lleol gael eu paratoi ar gyfer mynd i'r afael â thrais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae'n rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i gynorthwyo cyrff cyhoeddus penodol wrth iddynt gyfrannu at y gwaith o gyflawni diben y Bil. Mae hefyd yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gyhoeddi gwybodaeth ynghylch pa un a yw swyddogaethau addysg awdurdod lleol yn cael eu harfer er mwyn hybu diben y Bil, ac os ydynt, sut y maent yn gwneud hynny. Yn ogystal, mae'n darparu ar gyfer creu swydd i gynghori Gweinidogion Cymru ar sut orau i gyflawni diben y Bil.

### SYLWEBAETH AR ADRANNAU

#### Adran 1 - Diben y Ddeddf hon

5. Mae'r Bil yn darparu ar gyfer y canlynol: paratoi a chyhoeddi strategaeth gan Weinidogion Cymru a strategaethau ar y cyd gan awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol; penodi cynghorydd i gynorthwyo Gweinidogion Cymru; a rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i gyrff cyhoeddus penodol yng Nghymru. Diben pob un o'r cynigion hyn yw cyfrannu at gyflawni diben y Bil. Caiff y diben hwn ei esbonio yn yr adran hon; y diben yw gwella'r canlynol:

   - trefniadau ar gyfer atal trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol;
   - trefniadau ar gyfer amddiffyn dioddefwyr trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol; a
   - y cymorth a roddir i bobl yr effeithir arnynt gan drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

6. Mae unrhyw gyfeiriad yn y nodiadau hyn at ddiben y Bil yn gyfeiriad at y diben hwn.

**Adran 2 – Trais yn erbyn menywod a merched**

7. Mae trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn cael effaith anghymesur ar fenywod a merched, o ran pa mor aml y maent yn digwydd a'u heffaith. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i bersonau sy'n arfer swyddogaethau perthnasol (fel y'u diffinnir yn adran 2(2)), roi sylw i'r angen i ddileu neu leihau ffactorau sy'n cynyddu ac yn gwaethygu'r effaith anghymesur hon. Mae'r adran hon yn egluro, fodd bynnag, fod yn rhaid i berson sy'n arfer swyddogaeth berthnasol roi sylw hefyd i'r holl faterion perthnasol eraill. Nid yw'r gofyniad i roi sylw i'r materion a nodir yn yr adran hon yn eithrio'r holl faterion perthnasol eraill.

**Adrannau 3 a 4 - Dyletswydd i baratoi, cyhoeddi ac adolygu strategaeth genedlaethol; Dyletswydd i weithredu'r strategaeth genedlaethol –**

8. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi a chyhoeddi strategaeth yn nodi sut y byddant yn gweithio tuag at gyflawni diben y Bil, ac i adolygu'r strategaeth honno o dro i dro. Rhaid i'r strategaeth bennu amcanion y mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru, o dan adran 3, gymryd pob cam rhesymol i'w cyflawni wrth arfer eu swyddogaethau. Bydd y strategaeth genedlaethol yn esbonio'r camau y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu cymryd i fynd i'r afael â thrais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

9. Yn unol â diben y Bil, rhaid i'r amcanion a bennir yn y strategaeth genedlaethol a'r camau a nodir i gyflawni'r amcanion hynny ganolbwyntio ar atal, amddiffyn a chynorthwyo a byddant yn pennu camau a fydd yn cael eu cymryd ar draws Llywodraeth Cymru. Gallai amcanion a bennir mewn cysylltiad â threfniadau atal gynnwys ymgyrchoedd i gynyddu ymwybyddiaeth, mentrau addysgol neu raglenni sydd â'r nod o adsefydlu tramgwyddwyr. O ran trefniadau amddiffyn a chynorthwyo, gall amcanion gynnwys camau y mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu eu cymryd i gefnogi'r gwaith o ganfod dioddefwyr yn gynnar drwy weithredu rhaglen hyfforddi genedlaethol ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio'n uniongyrchol â'r cyhoedd.

10. Mae adran 3 hefyd yn nodi dyletswyddau Gweinidogion Cymru mewn perthynas â chyhoeddi ac adolygu strategaethau cenedlaethol. Mae'n darparu bod yn rhaid i'r strategaeth genedlaethol gyntaf gael ei chyhoeddi heb fod yn hwyrach na 6 mis ar ôl yr etholiad Cynulliad cyntaf wedi i'r adran ddod i rym. Caiff yr etholiad nesaf ei gynnal ym mis Mai 2016. Rhaid i Weinidogion adolygu'r strategaeth genedlaethol heb fod yn hwyrach na 6 mis ar ôl bob etholiad Cynulliad dilynol; a rhaid cyhoeddi unrhyw strategaeth newydd neu ddiwygiedig yn dilyn adolygiad o'r fath cyn gynted ag y bo'n ymarferol. Mater i Weinidogion Cymru yw penderfynu ar y personau hynny y bydd Gweinidogion Cymru yn ymgynghori â hwy cyn cyhoeddi'r strategaeth genedlaethol gyntaf ac adolygu'r strategaeth genedlaethol. Mae'r personau priodol yn debygol o gynnwys awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol, gan ei bod yn ofynnol iddynt hwy roi sylw i'r strategaeth genedlaethol wrth baratoi ac adolygu eu strategaethau lleol. Gallai Gweinidogion ystyried hefyd ei bod yn briodol ymgynghori â sefydliadau y gall eu

gweithgareddau gyfrannu at gyflawni diben y Bil, comisiynwyr heddlu a throseddu a darparwyr gwasanaethau prawf.

**Adran 5 – Dyletswydd i baratoi strategaethau lleol**

11. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol a Bwrdd Iechyd Lleol y mae unrhyw ran o'i ardal o fewn ardal yr awdurdod lleol baratoi a chyhoeddi strategaeth leol ar y cyd ar gyfer cyfrannu at gyflawni diben y Bil. Ar hyn o bryd, mae yna saith Bwrdd Iechyd Lleol yng Nghymru a'u rôl yw cynllunio, sicrhau a chyflenwi gwasanaethau gofal iechyd yn eu hardaloedd.

12. Caiff awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol gynnwys darpariaethau er mwyn i gamau gweithredu penodol gael eu cymryd, gyda chytundeb y sawl sydd dan sylw, gan unrhyw awdurdod cyhoeddus, unrhyw gorff gwirfoddol neu berson arall y gallai ei weithgareddau gyfrannu at gyflawni diben y Bil. Er enghraifft, efallai y bydd darparwr gwasanaeth lleol o'r trydydd sector ym maes cam-drin domestig yn dymuno cynnal ymgyrch i gynyddu ymwybyddiaeth ar y cyd ag awdurdod lleol a Bwrdd Iechyd Lleol. Pe byddai pob parti'n gytûn, gellid rhoi'r cam gweithredu hwn yn y strategaeth leol.

**Adran 7 – Materion y mae'n rhaid rhoi sylw iddynt wrth baratoi neu adolygu strategaeth leol**

13. Mae adran 7 yn amlinellu nifer o faterion y mae'n rhaid i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol roi sylw iddynt wrth baratoi neu adolygu eu strategaeth leol.

14. Mae adran 14 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol asesu, ar y cyd, yr anghenion o ran gofal a chymorth, cymorth i ofalwyr, a gwasanaethau ataliol yn eu hardaloedd. Mae'n bosibl, felly, y bydd asesiad o'r fath yn canfod anghenion gofal a chymorth yn ymwneud â thrais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a allai helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu strategaethau lleol. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol roi sylw, cyn paratoi neu adolygu eu strategaethau, i'r asesiad anghenion diweddaraf sydd wedi'i baratoi o dan adran 14.

15. Mae rheoliadau a wneir o dan adran 6 o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 yn ei gwneud yn ofynnol cynnal asesiadau strategol mewn perthynas â throsedd ac anhrefn, camddefnyddio sylweddau ac aildroseddu, gan gynnwys asesiad o lefelau a phatrymau aildroseddu, trosedd, anhrefn a chamddefnyddio sylweddau. Mae'n bosibl, felly, y bydd asesiadau o'r fath yn nodi lefelau a phatrymau o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a allai helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu strategaethau lleol. Mae adran 6 o'r Bil hwn yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol roi sylw i'r asesiadau strategol hyn cyn paratoi ac adolygu eu strategaeth.

16. Fodd bynnag, os bydd Gweinidogion o'r farn bod yr asesiadau hyn yn annigonol ar gyfer llywio'r gwaith o ddatblygu strategaethau lleol, cânt arfer y pŵer gwneud rheoliadau yn is-adran (2) i wneud cynnal rhagor o asesiadau'n ofynnol.

**Adran 9 – Gwybodaeth am ddarpariaeth addysgol i hybu diben y Ddeddf hon**

17. Mae'r adran hon yn mewnosod is-adran newydd (6A) i adran 29 o Ddeddf Addysg 1996 er mwyn galluogi Gweinidogion Cymru i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol adrodd ar y camau a gymerir yn eu hardaloedd, yn unol â'u swyddogaethau addysg, i hybu diben y Ddeddf hon.

18. Mae'r adran hon hefyd yn diwygio adran 408 o Ddeddf 1996 er mwyn ymestyn y rhestr o faterion y caiff Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol, drwy reoliadau, i awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu neu benaethiaid gyhoeddi gwybodaeth amdanynt. Bydd hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i'w gwneud yn ofynnol i ysgolion ddarparu gwybodaeth am y camau y maent wedi eu cymryd i fynd i'r afael â thrais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a allai fod yn sail i unrhyw wybodaeth a gyhoeddir gan awdurdod lleol yn unol â gofynion unrhyw reoliadau a wneir o dan adran 29(6A) o Ddeddf Addysg 1996.

### Adran 10 – Dangosyddion cenedlaethol

19. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi dangosyddion cenedlaethol y gellir eu defnyddio i fesur y cynnydd a wneir tuag at gyflawni diben y Bil hwn. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unrhyw un y maent yn ei ystyried yn berthnasol cyn cyhoeddi'r dangosyddion. Mae'n debyg y byddai hyn yn cynnwys awdurdodau lleol, Byrddau Iechyd Lleol a sefydliadau trydydd sector sy'n gweithio yn y maes. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r dangosyddion gael eu gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

Gallai dangosyddion cenedlaethol o'r fath gynnwys, er enghraifft, nifer yr achosion o gam-drin domestig neu drosedd rywiol, nifer yr unigolion sydd wedi eu hatgyfeirio at Gynadleddau Asesu Risg Amlasiantaethol a nifer y cyrff cyhoeddus sydd â pholisïau cam-drin domestig ar gyfer y gweithle.

### Adrannau 13 i 16 – Ystyr "awdurdod perthnasol"; Pŵer i ddyroddi canllawiau statudol; Ymgynghori a gweithdrefnau Cynulliad Cenedlaethol Cymru; Dyletswydd i ddilyn canllawiau statudol

20. Caiff Gweinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i awdurdodau perthnasol ar sut y dylent arfer eu swyddogaethau er mwyn cyfrannu at y gwaith o gyflawni diben y Bil. Nodir ystyr 'awdurdodau perthnasol' yn adran 13 fel awdurdod lleol, Bwrdd Iechyd Lleol (ceir diffiniad pellach o'r ddau yma yn adran 23), awdurdod tân ac achub yng Nghymru ac un o ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol.

21. Mae adran 14 yn rhoi enghreifftiau o'r mathau o faterion y gallai'r canllawiau sôn amdanynt. Gallai hyn arwain at roi canllawiau i awdurdodau ynghylch sut y gallent gynyddu ymwybyddiaeth o faterion yn ymwneud â diben y Bil hwn, 'gofyn a gweithredu', comisiynu gwasanaethau, polisïau'r gweithle, hyfforddi staff, a sut y gallent rannu gwybodaeth sydd ganddynt gydag eraill er mwyn cyflawni dibenion y Bil hwn. Er enghraifft, gellid llywio hyfforddiant staff drwy ddyroddi Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol er mwyn i awdurdodau perthnasol ei ddefnyddio fel sail ar gyfer hyfforddi staff yn y maes hwn. Enghraifft arall yw tywys awdurdodau perthnasol o ran sut i helpu eu staff gyda 'gofyn a gweithredu'. Nod 'gofyn a gweithredu' yw helpu i annog gweithwyr proffesiynol (megis staff meddygol damweiniau ac achosion brys) sy'n dod i gysylltiad rheolaidd â dioddefwyr trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol i

holi dioddefwyr posibl ynghylch camdriniaeth neu drais mewn amgylchiadau penodol a, phan fo'n briodol, i weithredu i geisio lleihau dioddefaint a niwed.

22. Mae adran 16 yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau perthnasol i ddilyn unrhyw ganllawiau a ddyroddir o dan adran 14 o'r Bil. Nod y ddyletswydd hon yw sicrhau ymagwedd gyson ac effeithiol o ran mynd i'r afael â materion yn ymwneud â thrais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol ledled Cymru. Nid yw awdurdod perthnasol yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd os yw o'r farn bod rheswm da dros beidio â'i chyflawni a'i fod yn cyhoeddi datganiad polisi yn nodi ffordd amgen o fynd o'i chwmpas hi. Mae hyn yn caniatáu i'r awdurdod perthnasol geisio ffordd arall o ddelio â'r mater – gallai ei ddull amgen fod yn fwy priodol i anghenion lleol, er enghraifft.

**Adrannau 19 i 22 – Cynghorydd Gweinidogol; Swyddogaethau'r Cynghorydd; Cynllun blynyddol ac adroddiadau blynyddol; Cyhoeddi adroddiadau**

23. Mae adran 19 yn sefydlu swydd y Cynghorydd Gweinidogol. Unigolyn a benodir drwy broses penodiadau cyhoeddus gan Weinidogion Cymru fydd y Cynghorydd, a bydd yn dal y swydd yn unol â thelerau a bennir gan y Gweinidogion. Mae'r adran hefyd yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru dalu treuliau, tâl cydnabyddiaeth, lwfansau a phensiynau mewn cysylltiad â'r Cynghorydd. Yn ogystal, caniateir i'r Gweinidogion roi i'r Cynghorydd y cymorth sydd ei angen arno i arfer ei swyddogaethau (er enghraifft, drwy ddyrannu staff Llywodraeth Cymru i'w gynorthwyo a darparu swyddfa ac offer ar ei gyfer).

24. Mae adran 20 yn nodi swyddogaethau'r Cynghorydd Gweinidogol gyda phob un ohonynt yn ymwneud â chyflawni diben y Bil hwn. Nid rôl o fewn y gwasanaeth sifil yw hon ond yn hytrach rôl gynghorol statudol, a bydd y Cynghorydd yn cynghori ac yn cynorthwyo Gweinidogion Cymru o ran mynd i'r afael â thrais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Bydd gweithio gyda darparwyr gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru er mwyn hyrwyddo arfer gorau ar draws y sector cyhoeddus yn rhan o waith y Cynghorydd Gweinidogol. Yn ogystal, bydd ganddo rôl allweddol yn y gwaith o adolygu'r camau a gymerir gan awdurdodau lleol, Byrddau Iechyd Lleol, awdurdodau tân ac achub ac ymddiriedolaethau'r GIG o dan y dyletswyddau a osodir gan y Bil, gan roi gwybod i Weinidogion Cymru am y canlyniadau.

25. Mae'r adran hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol, Byrddau Iechyd Lleol, awdurdodau tân ac achub ac Ymddiriedolaethau'r GIG gydymffurfio â cheisiadau rhesymol am wybodaeth gan y Cynghorydd. Mae'r pŵer hwn yn galluogi'r Cynghorydd i gael mynediad at yr wybodaeth y mae'n ei hystyried yn angenrheidiol i'w lywio wrth arfer y swyddogaethau y sonnir amdanynt yn adran 18. Gallai gwybodaeth berthnasol at y dibenion hyn fod yn fanylion gweithdrefnau a phrosesau ar gyfer canfod dioddefwyr y gamdriniaeth a'r trais y mae'r Bil yn ymwneud ag ef, ac ymateb iddynt; neu'n fanylion hyfforddiant perthnasol y mae staff wedi'i dderbyn at ddibenion mynd i'r afael â cham-drin a thrais.

26. O dan adran 21, mae gofyn i'r Cynghorydd Gweinidogol baratoi cynllun blynyddol ac adroddiad blynyddol parthed arferiad ei swyddogaethau.

27. Mae'r adran yn nodi'r hyn y dylid ei gynnwys yn y cynllun ac yn galluogi'r Cynghorydd i ymgynghori ag unrhyw un wrth ei baratoi. Mae angen cymeradwyaeth Gweinidogion Cymru ar y cynllun (a gellir ei ddiwygio, os yw'r Cynghorydd yn cytuno).

28. Hefyd, rhaid i adroddiadau blynyddol y Cynghorydd gael eu cyflwyno i Weinidogion Cymru. Bydd hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i gael trosolwg llawn o waith y Cynghorydd Gweinidogol a sicrhau bod y rôl yn cyfrannu at gyflawni diben y Bil.

29. O dan yr adran hon, rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r cynlluniau a'r adroddiadau blynyddol sy'n ofynnol o dan adran 19 o'r Bil. Mae hyn er mwyn sicrhau bod gwybodaeth ynghylch arfer swyddogaethau'r Cynghorydd ar gael yn gyhoeddus. Bydd yr wybodaeth hon o ddiddordeb penodol i'r sefydliadau cyhoeddus a'r sefydliadau trydydd sector hynny sy'n gweithio ym maes trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

30. Mae'r adran hon hefyd yn nodi pa adroddiadau eraill y mae gofyn i Weinidogion Cymru eu cyhoeddi. Rhaid cyhoeddi adroddiadau sydd wedi'u cynnwys yng nghynllun blynyddol y Cynghorydd; ceir cyhoeddi adroddiadau eraill, nad ydynt wedi'u crybwyll yn y cynllun blynyddol, yn ôl disgresiwn Gweinidogion Cymru.

31. Mae hefyd yn darparu'r amgylchiadau pan gaiff Gweinidogion Cymru dynnu gwybodaeth o adroddiadau neu gynlluniau'r Cynghorydd cyn eu cyhoeddi. Er enghraifft, gallai gwybodaeth a gynhwysir mewn adroddiad beri i ddioddefwr neu dramgwyddwr cam-drin domestig gael ei adnabod a gallai hyn wneud yr unigolyn yn agored i risg o niwed neu gallai ragfarnu achos llys.

**Adran 23 – Dehongli**

32. Mae'r adran hon yn nodi ystyr y termau diffiniedig a ddefnyddir yn y Bil (gan gynnwys y rhai y tynnir sylw atynt yn adran 13).

33. Mae'r adran hon yn diffinio'r termau "cam-drin", "cam-drin domestig", "trais ar sail rhywedd" a "trais rhywiol", ac mae'n gwneud hynny drwy ddisgrifio'r ymddygiadau sydd i gael eu hystyried yn gamdriniaeth neu'n drais at ddibenion y Bil.

34. Mae'r Bil yn darparu ei bod, o ran cam-drin domestig, yn ofynnol bod y sawl sy'n cam-drin yn "gysylltiedig" â'r dioddefwr. Diffinnir person sy'n "gysylltiedig" yn is-adrannau (2) i (4).

Mae hyn yn cynnwys, yn is-adran (2)(h), bobl sydd mewn "perthynas bersonol agos" â'i gilydd, neu sydd wedi bod mewn perthynas o'r fath. Nid oes rhaid i berthynas o'r fath fod yn un sydd wedi para am gyfnod sylweddol ond byddai'n cynnwys lefel o agosrwydd corfforol neu emosiynol, p'un a yw'n berthynas rywiol ai peidio. Nid yw'n cynnwys perthynas rhwng aelodau o'r un teulu neu rhwng ffrindiau. Gall perthynas bersonol agos fodoli rhwng dau berson o'r un rhyw neu rhwng dau berson o rywiau gwahanol.

Diffinnir "cam-drin" drwy gyfeirio at gam-drin corfforol, emosiynol, seicolegol ac ariannol. Yn aml, mae dioddefwyr cam-drin domestig yn teimlo o dan fygythiad,

gorfodaeth neu reolaeth. Gallai hyn fod o ganlyniad i drais corfforol gwirioneddol, neu fygythiad ohono. Yn y naill achos neu'r llall byddai'r diffiniad o gam-drin yn ymestyn i gamdriniaeth o'r fath, gan y byddai'n gamdriniaeth gorfforol yn achos trais corfforol gwirioneddol, neu'n gamdriniaeth seicolegol yn achos bygythiadau o drais. Gallai tramgwyddwr hefyd rwystro dioddefwr, mewn modd afresymol, rhag cael mynediad i'w gyfrif banc er mwyn ei reoli. Byddai ymddygiad o'r fath yn gam-drin ariannol, ac felly'n dod o dan y diffiniad o gam-drin domestig. Yn amlwg, fodd bynnag, ni fyddai ymyrraeth resymol â materion ariannol person arall yn cael ei hystyried yn gamdriniaeth. Ni fyddai cam-drin ariannol felly yn cwmpasu rhiant sy'n rheoli materion ariannol ei blentyn mewn modd rhesymol. Nid yw cam-drin wedi ei gyfyngu i weithredoedd uniongyrchol yn erbyn y dioddefwr. Mae cam-drin seicolegol ac emosiynol yn ymestyn i weithredu â phethau sy'n bwysig i ddioddefwr, neu mewn perthynas â'r pethau hynny. Gallai hynny gynnwys niwed i gartref neu eiddo dioddefwr, neu ymddwyn yn dreisgar tuag at anifeiliaid anwes dioddefwr.

35. Mae'r diffiniad o drais ar sail rhywedd at ddibenion y Bil yn cynnwys aflonyddu ac anffurfio organau cenhedlu benywod ac mae'r ddau wedi'u diffinio yn is-adran (5).

36. Gallai enghreifftiau o drais ar sail rhywedd sy'n dod o fewn is-baragraff (a) o'r diffiniad gynnwys ymddygiad o orfodi lle y mae'r sawl sy'n ymddwyn yn y ffordd honno, er enghraifft, yn rheoli, neu'n ceisio rheoli, agweddau pob dydd ar ymddygiadau sy'n gysylltiedig â rolau ystrydebol menywod, megis sut y mae'r dioddefwr yn gwisgo, ei rôl yn y cartref, gofal plant neu berfformiad rhywiol. Gallai enghreifftiau eraill gynnwys beichiogrwydd neu erthyliad dan orfod, neu ddiffrwythloni neu brofion gwyryfdod dan orfod. Pan ddaw trais o'r fath o du person sy'n gysylltiedig â'r dioddefwr, mae'n debygol o ddod o fewn y diffiniad o gam-drin domestig hefyd.

37. Mae trais ar sail rhywedd sy'n dod o fewn is-baragraff (a) o'r diffiniad hefyd yn cynnwys trais, bygythiadau o drais ac aflonyddu yn codi o gredoau homoffobig a thrawsffobig. Gallai cam-drin geiriol, galw enwau, bygythiadau ac ymosodiadau corfforol neu rywiol fod yn enghreifftiau o ymddygiad o'r fath.

38. Gallai enghreifftiau eraill o drais ar sail rhywedd sy'n dod o fewn is-baragraff (a) o'r diffiniad gynnwys yr hyn a elwir yn "trais ar sail anrhydedd", megis bygythiadau i ddiarddel y dioddefwr, neu gam-drin emosiynol o ran dwyn gwarth a chywilydd ar y teulu neu'r gymuned.

39. Efallai y bydd rhai pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol neu drawsrywiol yn wynebu priodas dan orfodaeth, neu fygythiad o briodas dan orfodaeth, a'r posibilrwydd o ffurfiau eraill ar "drais ar sail anrhydedd" o ganlyniad i farn eu teulu neu eu cymuned am eu rhywioldeb neu eu hunaniaeth o ran rhywedd. Gallai hyn gynnwys pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol neu drawsrywiol yn cael eu gorfodi i briodi er mwyn "gwella eu rhywioldeb" neu fynd i'r afael â'u materion rhywedd. Gall hyn gynnwys pethau fel "treisio cywiro". Byddai ymddygiad o'r fath yn dod o fewn y diffiniad o drais ar sail rhywedd, naill ai o dan is-baragraff (a) fel trais, bygythiadau o drais neu aflonyddu sy'n codi o gredoau sy'n ymwneud â rhywedd neu gyfeiriadedd rhywiol neu gymal (c) gan y byddai'n golygu gorfodi person i briodi.

40. Mae'r diffiniad o drais rhywiol at ddibenion y Bil yn cynnwys camfanteisio rhywiol ac aflonyddu rhywiol, ac mae'r ddau wedi eu diffinio yn is-adran (5). Mae camfanteisio rhywiol, ac o ganlyniad drais rhywiol, yn cynnwys yr holl droseddau o dan Ran 1 o Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003. Er enghraifft, byddai felly'n cynnwys treisio, ymosod rhywiol a'r nifer o droseddau rhyw yn erbyn plant a gynhwysir yn y Ddeddf honno. Diffinnir "aflonyddu" yn y Bil hefyd, ac mae'r diffiniad yn cynnwys aflonyddu ar ffurf siarad.

41. Atodir tabl crynodeb o'r ymddygiadau isod:

| **Ymddygiadau** | | **Dioddefwr** | **Tramgwyddwr** |
|---|---|---|---|
| Trais ar sail Rhywedd | a. yn codi o werthoedd, credoau neu arferion sy'n ymwneud â rhywedd neu gyfeiriadedd rhywiol | Unrhyw un | Unrhyw un |
| | b. anffurfio organau cenhedlu benywod | Menywod a merched | Unrhyw un |
| | c. priodas dan orfod | Unrhyw un | Unrhyw un |
| Cam-drin Domestig | | Person sy'n gysylltiedig â'r tramgwyddwr (gweler adran 21(2)) | Person sy'n gysylltiedig â'r dioddefwr (gweler adran 21(2)) |
| Trais Rhywiol | | Unrhyw un | Unrhyw un |

# ATODIAD 2 - Crynodeb o gostau'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol

**Crynodeb o gostau'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol**

| Blwydd-yn | Lefel hyfforddiant | Gweithgaredd | Costau untro (£) | Costau rhaglenni Llyw. Cymru (£) | Costau cyfle i'r Gwasanaeth Cyhoeddus (£) | Costau ariannu rhaglenni hyfforddi rhanbarthol 1.2 a 3 (£) | Cyfanswm costau (heb gynnwys costau cyfle) (£) | Cyfanswm costau gan gynnwys costau cyfle (£) | Cyfanswm gwariant Llywodraeth Cymru (heb gynnwys costau rhaglenni) (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Blwydd-yn 1 (2014-2015)** | Pawb | Llunio canllawiau | 0 | 14,052 | 0 | 0 | **14,052** | **14,052** | **0** |
| | 1 | Llunio a datblygu rhaglen e-ddysgu ac ymgyrch hybu ymwybyddiaeth. Rhoi'r rhaglen ar waith yn ddwys ac annog uwch arweinwyr y | 70,000 | 7,026 | 1,988,000 | 0 | **77,026** | **2,065,026** | **70,000** |

| Blwydd-yn | Lefel hyfforddiant | Gweithgaredd | Costau untro (£) | Costau rhaglenni Llyw. Cymru (£) | Costau cyfle i'r Gwasanaeth Cyhoeddus (£) | Costau ariannu rhaglenni hyfforddi rhanbarthol 1.2 a 3 (£) | Cyfanswm costau (heb gynnwys costau cyfle) (£) | Cyfanswm costau gan gynnwys costau cyfle (£) | Cyfanswm gwariant Llywodraeth Cymru (heb gynnwys costau rhaglenni) (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Gwasanaeth Cyhoeddus i gynnwys yr amcan o gwblhau'r rhaglen yn yr ymrwymiadau amser ar gyfer dysgu a datblygu sefydliadol ac, yn y tymor hwy, mewn hyfforddiant cynefino. | | | | | | | |
| | 2 | Llunio a datblygu cynnyrch hyfforddi a chynllun cyflawni, gan integreiddio | 0 | 11,710 | 0 | 0 | **11,710** | **11,710** | **0** |

| **Blwydd-yn** | **Lefel hyfforddiant** | **Gweithgaredd** | **Costau untro (£)** | **Costau rhaglenni Llyw. Cymru (£)** | **Costau cyfle i'r Gwasanaeth Cyhoeddus (£)** | **Costau ariannu rhaglenni hyfforddi rhanbarthol 1.2 a 3 (£)** | **Cyfanswm costau (heb gynnwys costau cyfle) (£)** | **Cyfanswm costau gan gynnwys costau cyfle (£)** | **Cyfanswm gwariant Llywodraeth Cymru (heb gynnwys costau rhaglenni) (£)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | hyfforddiant yn y pecynnau hyfforddi presennol | | | | | | | |
| | 3 | Dim gweithgarwch | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | **0** | **0** |
| | 4 | Bwrsari ar gael ar gyfer hyfforddiant Cynghorwyr Trais Domestig Annibynnol i 100 o Gynghorwyr Trais Domestig Annibynnol ledled y DU. | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | **0** | **0** |
| | | Hyfforddiant i Gynghorwyr Trais Rhywiol Annibynnol? | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | **0** | **0** |

| **Blwydd-yn** | **Lefel hyfforddiant** | **Gweithgaredd** | **Costau untro (£)** | **Costau rhaglenni Llyw. Cymru (£)** | **Costau cyfle i'r Gwasanaeth Cyhoeddus (£)** | **Costau ariannu rhaglenni hyfforddi rhanbarthol 1.2 a 3 (£)** | **Cyfanswm costau (heb gynnwys costau cyfle) (£)** | **Cyfanswm costau gan gynnwys costau cyfle (£)** | **Cyfanswm gwariant Llywodraeth Cymru (heb gynnwys costau rhaglenni) (£)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Mapio a chynllun cyflawni ar gyfer hyfforddiant mewn pynciau arbenigol ledled Cymru a chreu cysondeb | 0 | 4,684 | 0 | 0 | **4,684** | **4,684** | **0** |
| | 5 | Lansio gweithgarwch hyfforddi | 14,300 | 1,171 | 8,140 | 0 | **15,471** | **23,611** | **14,300** |
| | 6 | Datblygu a gweithredu cynllun ymgysylltu strategol ar gyfer arweinwyr y Gwasanaeth Cyhoeddus o | 15,000 | 2,891 | 0 | 0 | **17,891** | **17,891** | **15,000** |

| Blwydd-yn | Lefel hyffordd iant | Gweithgaredd | Costau untro (£) | Costau rhaglenni Llyw. Cymru (£) | Costau cyfle i'r Gwasanaeth Cyhoeddus (£) | Costau ariannu rhaglenni hyfforddi rhanbarthol 1.2 a 3 (£) | Cyfanswm costau (heb gynnwys costau cyfle) (£) | Cyfanswm costau gan gynnwys costau cyfle (£) | Cyfanswm gwariant Llywodraeth Cymru (heb gynnwys costau rhaglenni) (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | dan arweiniad y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth | | | | | | | |
| **Cyfanswm Blwyddyn 1** | | | **99,300** | **41,534** | **1,996,140** | **0** | **140,834** | **2,136,974** | **99,300** |
| **Blwydd-yn 2 (2015-2016)** | 1 | Cynnig y rhaglen e-ddysgu i bob cyflogai newydd yn hyfforddiant cynefino'r Gwasanaeth Cyhoeddus. | 0 | 2,342 | 198,800 | 0 | **2,342** | **201,142** | **0** |
| | 2 | Lansio'r model hyfforddi rhanbarthol | £90,852 | 11,710 | 922,987 | 193,406 | **102,562** | **1,025,549** | **284,258** |
| | 3 | Gweithgarwch gyda Chyngor Gofal Cymru | 0 | 2,342 | 0 | 0 | **2,342** | **2,342** | **0** |

| Blwydd-yn | Lefel hyfforddiant | Gweithgaredd | Costau untro (£) | Costau rhaglenni Llyw. Cymru (£) | Costau cyfle i'r Gwasanaeth Cyhoeddus (£) | Costau ariannu rhaglenni hyfforddi rhanbarthol 1.2 a 3 (£) | Cyfanswm costau (heb gynnwys costau cyfle) (£) | Cyfanswm costau gan gynnwys costau cyfle (£) | Cyfanswm gwariant Llywodraeth Cymru (heb gynnwys costau rhaglenni) (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | ar gyfer integreiddio â'r rhaglen CPEL. | | | | | | | |
| | | Cynllun cyflawni ar gyfer hyfforddiant mewn pynciau arbenigol ledled Cymru | 0 | 2,342 | 0 | 0 | **2,342** | **2,342** | **0** |
| | | Hyfforddiant i Gynghorwyr Trais Domestig Annibynnol | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | **0** | **0** |
| | 4 | Hyfforddiant i Gynghorwyr Trais Rhywiol Annibynnol | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | **0** | **0** |
| | 5 | Dim gweithgarwch | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | **0** | **0** |

| Blwydd-yn | Lefel hyfforddiant | Gweithgaredd | Costau untro (£) | Costau rhaglenni Llyw. Cymru (£) | Costau cyfle i’r Gwasanaeth Cyhoeddus (£) | Costau ariannu rhaglenni hyfforddi rhanbarthol 1.2 a 3 (£) | Cyfanswm costau (heb gynnwys costau cyfle) (£) | Cyfanswm costau gan gynnwys costau cyfle (£) | Cyfanswm gwariant Llywodraeth Cymru (heb gynnwys costau rhaglenni) (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 6 | Datblygu a gweithredu cynllun ymgysylltu strategol ar gyfer arweinwyr y Gwasanaeth Cyhoeddus o dan arweiniad y Cynghorydd Gweinidogol | 5,000 | 1,652 | 0 | 0 | **6,652** | **6,652** | **5,000** |
| **Cyfanswm Blwyddyn 2** | | | **95,852** | **20,388** | **1,121,787** | **193,406** | **116,240** | **1,238,027** | **289,258** |
| **Blwydd-yn 3 (2016-2017)** | 1 | Cynnig y rhaglen e-ddysgu i bob cyflogai newydd yn hyfforddiant cynefino’r Gwasanaeth | 0 | 2,342 | 19,880 | 0 | **2,342** | **22,222** | **0** |

| **Blwydd-yn** | **Lefel hyfforddiant** | **Gweithgaredd** | **Costau untro (£)** | **Costau rhaglenni Llyw. Cymru (£)** | **Costau cyfle i'r Gwasanaeth Cyhoeddus (£)** | **Costau ariannu rhaglenni hyfforddi rhanbarthol 1.2 a 3 (£)** | **Cyfanswm costau (heb gynnwys costau cyfle) (£)** | **Cyfanswm costau gan gynnwys costau cyfle (£)** | **Cyfanswm gwariant Llywodraeth Cymru (heb gynnwys costau rhaglenni) (£)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Cyhoeddus. | | | | | | | |
| | 2 | Parhau â'r model hyfforddi rhanbarthol | 25,958 | 11,710 | 922,987 | 110,199 | **37,668** | **960,655** | **136,157** |
| | 3 | Lansio'r model hyfforddi rhanbarthol | 26,000 | | 61,144 | 12,229 | **26,000** | **87,144** | **38,229** |
| | | Cynllun cyflawni ar gyfer hyfforddiant mewn pynciau arbenigol ledled Cymru | 0 | 2,342 | 0 | 0 | **2,342** | **2,342** | **0** |
| | 4 | Hyfforddiant i Gynghorwyr Trais Domestig | 67,200 | 0 | 22,512 | 0 | **67,200** | **89,712** | **67,200** |

| **Blwydd-yn** | **Lefel hyfforddiant** | **Gweithgaredd** | **Costau untro (£)** | **Costau rhaglenni Llyw. Cymru (£)** | **Costau cyfle i'r Gwasanaeth Cyhoeddus (£)** | **Costau ariannu rhaglenni hyfforddi rhanbarthol 1.2 a 3 (£)** | **Cyfanswm costau (heb gynnwys costau cyfle) (£)** | **Cyfanswm costau gan gynnwys costau cyfle (£)** | **Cyfanswm gwariant Llywodraeth Cymru (heb gynnwys costau rhaglenni) (£)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Annibynnol | | | | | | | |
| | | Hyfforddiant i Gynghorwyr Trais Rhywiol Annibynnol | 67,200 | 0 | 19,296 | 0 | **67,200** | **86,496** | **67,200** |
| | 5 | Dim gweithgarwch | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | **0** | **0** |
| | 6 | Datblygu a gweithredu cynllun ymgysylltu strategol ar gyfer arweinwyr y Gwasanaeth Cyhoeddus o dan arweiniad y Cynghorydd Gweinidogol | 5,000 | 1,652 | 0 | 0 | **6,652** | **6,652** | **5,000** |
| **Cyfanswm Blwyddyn 3** | | | **191,358** | **18,046** | **1,045,819** | **122,428** | **209,404** | **1,255,223** | **313,786** |

| Blwydd-yn | Lefel hyfforddiant | Gweithgaredd | Costau untro (£) | Costau rhaglenni Llyw. Cymru (£) | Costau cyfle i'r Gwasanaeth Cyhoeddus (£) | Costau ariannu rhaglenni hyfforddi rhanbarthol 1.2 a 3 (£) | Cyfanswm costau (heb gynnwys costau cyfle) (£) | Cyfanswm costau gan gynnwys costau cyfle (£) | Cyfanswm gwariant Llywodraeth Cymru (heb gynnwys costau rhaglenni) (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Blwydd-yn 4 (2017-2018) CYLLID DANG-OSOL** | 1 | Cynnig y rhaglen e-ddysgu i bob cyflogai newydd yn hyfforddiant cynefino'r Gwasanaeth Cyhoeddus. | 0 | 2,342 | 19,880 | 0 | **2,342** | **22,222** | **0** |
| | 2 | Parhau â'r model hyfforddi rhanbarthol | 25,958 | 11,710 | 922,987 | 110,199 | **37,668** | **960,655** | **136,157** |
| | 3 | Parhau â'r model hyfforddi | 6,000 | 0 | 61,144 | 12,229 | **6,000** | **67,144** | **18,229** |
| | 4 | Cynllun cyflawni ar gyfer hyfforddiant mewn pynciau arbenigol | 0 | 2,342 | 0 | 0 | **2,342** | **2,342** | **0** |

| Blwydd-yn | Lefel hyfforddiant | Gweithgaredd | Costau untro (£) | Costau rhaglenni Llyw. Cymru (£) | Costau cyfle i'r Gwasanaeth Cyhoeddus (£) | Costau ariannu rhaglenni hyfforddi rhanbarthol 1.2 a 3 (£) | Cyfanswm costau (heb gynnwys costau cyfle) (£) | Cyfanswm costau gan gynnwys costau cyfle (£) | Cyfanswm gwariant Llywodraeth Cymru (heb gynnwys costau rhaglenni) (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | ledled Cymru | | | | | | | |
| | | Hyfforddiant i Gynghorwyr Trais Domestig Annibynnol | 67,200 | 0 | 22,512 | 0 | **67,200** | **89,712** | **67,200** |
| | | Hyfforddiant i Gynghorwyr Trais Rhywiol Annibynnol | 67,200 | 0 | 19,296 | 0 | **67,200** | **86,496** | **67,200** |
| | 5 | Dim gweithgarwch | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | **0** | **0** |
| | 6 | Datblygu a gweithredu cynllun ymgysylltu strategol ar gyfer arweinwyr y Gwasanaeth Cyhoeddus o | 5,000 | 1,652 | 0 | 0 | **6,652** | **6,652** | **5,000** |

| Blwydd-yn | Lefel hyfforddiant | Gweithgaredd | Costau untro (£) | Costau rhaglenni Llyw. Cymru (£) | Costau cyfle i'r Gwasanaeth Cyhoeddus (£) | Costau ariannu rhaglenni hyfforddi rhanbarthol 1.2 a 3 (£) | Cyfanswm costau (heb gynnwys costau cyfle) (£) | Cyfanswm costau gan gynnwys costau cyfle (£) | Cyfanswm gwariant Llywodraeth Cymru (heb gynnwys costau rhaglenni) (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | dan arweiniad y Cynghorydd Gweinidogol | | | | | | | |
| | | **Cyfanswm Blwyddyn 4** | **171,358** | **18,046** | **1,045,819** | **122,428** | **189,404** | **1,235,223** | **311,832** |
| | | **Cyfanswm dros 4 blynedd** | **557,868** | **98,014** | **5,209,565** | **438,262** | **655,882** | **5,865,447** | **1,014,176** |

# ATODIAD 3 - Crynodeb o'r 'Gweithwyr Proffesiynol Perthnasol' fel y'u Hamlygir yng Nghostau'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Canllawiau Gofyn a Gweithredu

Dylai sefydliadau Gwasanaethau Cyhoeddus ystyried bod y swyddogaethau proffesiynol canlynol yn "berthnasol" o safbwynt Gofyn a Gweithredu. Fel cyflogwyr y gweithwyr proffesiynol hyn, dylai Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol sicrhau eu bod wedi'u hyfforddi'n ddigonol (drwy gyrsiau hyfforddi a gynigir gan y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol) a'u cefnogi'n ddigonol i roi Gofyn a Gweithredu ar waith mewn ffordd empathig a diogel, yn ogystal â monitro'r arfer i sicrhau bod diogelwch a lles y cleientiaid yn ganolog i'r holl waith.

| ***Bwrdd Iechyd Lleol*** |
|---|
| *Bydwragedd*<br>*Ymwelwyr Iechyd*<br>*Meddygon Teulu*<br>*Staff Damweiniau ac Achosion Brys*<br>*Camddefnyddio sylweddau*<br>*Nyrsys Seiciatrig Cymunedol*<br>*Tîm Argyfwng Iechyd Meddwl*<br>*Nyrsys ardal*<br>*Parafeddygon* |
| ***Awdurdod Lleol*** |
| *Gweithwyr Cymdeithasol Amddiffyn Plant*<br>*Gweithwyr Cymdeithasol Diogelu Oedolion Agored i Niwed*<br>*Arweinwyr Diogelu mewn Addysg*<br>*Nyrsys ysgol*<br>*Swyddogion Dewisiadau Tai a Digartrefedd*<br>*Cynrychiolwyr Tîm Troseddwyr Ifanc* |
| ***Awdurdod Tân ac Achub*** |
| *Pob ymladdwr tân gyda chyfrifoldebau yn y gymuned* |

**Nodyn** – Nid yw hon yn rhestr gyflawn ac efallai bydd swyddogaethau eraill y bydd angen hyfforddiant arnynt, yn seiliedig ar angen lleol. Er mwyn pennu a ddylid nod proffesiwn fel un "perthnasol", dylid defnyddio'r meini prawf canlynol:

**Meini prawf "Perthnasol"**

Mae gweithiwr proffesiynol perthnasol:

mewn swyddogaeth sy'n wynebu'r cyhoedd ac yn dod i gysylltiad yn rheolaidd â'r cyhoedd

ac;

mewn swyddogaeth lle mae profiad ei grŵp cleient o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn cymhlethu ac yn effeithio ar natur ymgysylltiad y cleient â'r gwasanaeth a gynigir yn rhinwedd y swyddogaeth honno.